ECO'R WYDDFA

RHIF 274 NADOLIG/IONAWR 2000 PRIS 40c

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i'r holl
ddarllenwyr, cyfrannwyr
a hysbysebwyr

LLAWENYDD YR ŴYL

Roedd cyfarfod â'r hen Santa yn Ffair Nadolig Ysgol Dolbadarn yn dipyn o sioc i'r bychan hwn. Bydd pethau dipyn yn well Fore Nadoliog!

o Eisteddfod Brynrefail

Capteiniaid Eilian, Elfed Morris a Lindsay Allen gyda Chwpan y Parti Bechgyn.

Geraint Edwards a Kelly E. Williams, Capteiniaid Eryri gyda Chwpan y Gân Ysgafn a Chwpan y Parti Adrodd.

ECO'R WYDDFA

RHIF 274
Nadolig/Ionawr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, IONAWR 22
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, CHWEFROR 1

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu A
Chwefror	Ionawr 22	Chweror 1	Waunfawr	Mrs Nan Roberts

Llythyrau

Annwyl Olygydd,
Mae Cymdeithas Alzheimer ar y cyd ag Age Concern Gwynedd/ Ynys Môn wedi llwyddo i ddenu arian ar gyfer rhoi ysbaid byr i ofalwyr pobl hefo dementia sydd yn byw yng Ngwynedd.

Bwriedir agor Canolfan Hafan sydd ger y stondin bysiau yng nghanol Bangor bob dydd Sadwrn rhwng 10 a 4 y prynhawn o 6 Ionawr, 2001 ymlaen. Gall y claf aros yn y ganolfan am ddwy i dair awr yng ngofal gofalwyr proffesiynol tra bydd y gofalwyr yn siopa, gwneud gwallt, ac yn y blaen.

Bydd lluniaeth ysgafn ar gael am ddim.

Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Age Concern ar (01286) 677711 neu â Swyddfa Cymdeithas Alzheimer ar (01248) 353608.

Yn gywir
Alwyn Rowlands
Swyddog Datblygu

cidiog

Annwyl Ddarllenwyr
Mae'r tîm o'r rhaglen deledu, Sgwadnewyddu, yn paratoi am gyfres newydd ac yn chwilio am help i helpu cymunedau led led Cymru.

Unwaith eto mi fydd y criw yn trawsnewid adeiladau cyhoeddus o bob math – a hynny mewn ffordd hwyliog a chyffrous.

Ym mhob lle bydd byddin o wirfoddolwyr yn ymuno â chriw y Sgwadnewyddu i gyflawni'r gwaith yn erbyn y cloc.

Oes yna rywle addas yn eich ardal chi? Adeilad sydd wedi gweld dyddiau gwell ac sydd angen cael bywyd newydd?

Gadewch i ni wybod ac efallai y gall y Sgwadnewyddu, dan arweiniad Caryl Parry Jones, ddod draw i drawsnewid adeilad sy'n bwysig i'ch ardal chi.

Cysylltwch â chwmni teledu Ci Diog, 169 Kings Road, Treganna, Caerdydd CF11 9DE neu ffoniwch 029 20665050.

Pob hwyl
Nia Ceidiog
169 King's Road
Treganna
Caerdydd CF11 9DE

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS
RHIWLAS
01248–361044

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
LLOGWCH FWS I'W DDATHLU'N DDIOGEL

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth

E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT
AA Specialist
Retail Motor Industry Federation
RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE



Mae CD cyntaf y Band – *'Snowdon Fantasy'* – nawr ar werth. Recordiwyd y CD dan arweiniad Dafydd Wyn Williams a Bob Wyatt yng Nghapel Cefn-y-waun, Deiniolen ym mis Medi gan Doyen Recordings – cwmni sy'n arbenigo mewn recordio bandiau prês.

Ceir amryw o ddulliau cerddorol ar y CD – caneuon traddodiadol Cymreig (Bugeilio'r Gwenith Gwyn' ac 'Ar Hyd y Nos'), caneuon pop (*'Hey Jude'* a *'Love On The Rocks'*), cerddoriaeth ffilm a sioeau cerdd (*'Singing In The Rain'* ac *'On My Own'*) yn ogystal â chaneuon poblogaidd eraill (*'Londonderry Air'* a *'The Lost Chord'*) i enwi ond ychydig.

Pleser mawr y Band oedd cael galw ar ddoniau'r actor enwog, John Ogwen, i roi cyflwyniad trawiadol ac atmosfferig i gerddoriaeth o'r ffilm *'Zulu'*. Mae dwy eitem ar y CD yn ymddangos am y tro cyntaf ar record – y cyntaf yw yr *'Opening Fanfare'* a ysgrifenwyd yn arbennig ar gyfer agoriad swyddogol ystafell ymarfer y Band (yn seiliedig ar 'Hen Wlad Fy Nhadau') a'r ail yw ymdeithgan o'r enw 'Deiniolen'. Cyfansoddwyd yr eitemau hyn gan ein Cyfarwyddwr Cerdd, Bob Wyatt.

Ceir 16 o eitemau ar y CD a'r pris gwerthu yw £10 yn unig. Mae ar gael drwy unrhyw aelod o'r Band, neu drwy Meirion Jones (012186 870452) neu Dylan Williams (01286 675434).

Mae enghreifftiau o'r eitemau i'w clywed ar safle wê'r Band: http://.angorfa.freeserve.co.uk/deiniolenband

Canolfannau Cynghori

Fe allwch gysylltu â'r gwasanaeth Canolfannau Cynghori yng Ngwynedd trwy ddeialu'r rhif canlynol ar raddfa leol – 0870 750 23350 – ar unrhyw ddiwrnod gwaith rhwng 10 y bore a 3 y pnawn. Pan fydd angen cyfweliad personol gallwn drefnu un ar eich cyfer yn y ganolfan a fydd fwyaf cyfleus i chi ymweld â hi, hynny yw, Caernarfon, Bangor, Dolgellau neu Bwllheli. Hefyd, mae gwasanaeth y Canolfannau Cynghori yng Ngwynedd wedi llwyddo, trwy gyfrwng cyllido Ewropeaidd, i osod cyfrifiaduron yn ystafelloedd aros pob canolfan, gan gynnwys Porthmadog. Bydd rhain ar gael i aelodau o'r cyhoedd eu defnyddio i gael gafael ar rychwant eang o wybodaeth a all eu helpu i ddatrys eu problem neu eu helpu i benderfynu p'un ai i wneud ymholiad ffôn ar 0870 750 2350 a all arwain at gyfweliad.

Mae gwasanaeth y Canolfannau Cynghori yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar weithwyr gwirfoddol. Os oes gennych ddiddordeb yn y gwaith gwerthfawr yma mae croeso i chi gysylltu â Bethan Wyn Hughes neu Rita Davies yn Adeilad Dewi Sant, Stryd Lombard, Porthmadog, Gwynedd LL49 9AP. Rhif ffôn: (01766) 513413.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Cyfarchion y Tymor i bawb

Christine Tomos yn cyflwyno siec am £1,000 ar ran Pwyllgor Canrifal Llanberis i Mr Rolant Wynne, Prifathro Ysgol Dolbadarn.

POBOL TU UCHA'R GIÂT

Ymddengys y bydd gan ddarllenwyr yr Eco ddigon o ddefnydd darllen am y fro yn ystod yr wythnosau nesaf. Cyhoeddwyd hunangofiant Arwel Jones "Y Stori tu ôl i'r Gân" y mis diwethaf a deëllir y bydd llyfr Rol Willliams ar hanes hen deuluoedd y gymuned gynt yng Ngwaun Cwm Brwynog a Chapel Hebron, o dan y teitl "Pobol Tu Ucha'r Giât", yn dod o'r Wasg yng nghanol mis Ionawr.

Gan na dderbyniwyd cymorthdal gan y Gyngor Llyfrau Cymru i'w gyhoeddi – 'doedd Cwm Brwynog a Hebron ddim digon adnabyddus yn eu golwg – nifer cyfyngedig o'r gyfrol fydd ar gael.

Os am galennig yn 2001, beth am brynu llyfr Rol Williams

'POBOL TU UCHA'R GIÂT'

hanes hen deuluoedd Gwaun Cwm Brwynog a Chapel Hebron.

'Mae'r aur sydd ym mwa'r enfys i'w gael yn y gyfrol hon'– *Maldwyn Thomas*

'Darlun byw yn atgyfodi'r hen gymdeithas ar lethrau'r Wyddfa' – *John Roberts Williams*

Ar werth yn y siopau lleol yn Ionawr, neu gan yr awdur. Nifer cyfyngedig

Gwobr am Gofiant Arloeswr y Chwareli

Dyfarnodd Prifysgol Cymru Wobr Goffa Ellis Griffith a Buddged Mrs L.W. Davies am y flwyddyn 2000 i Mr Dafydd Glyn Jones, Darllenydd yn y Gymraeg yng Ngholeg Bangor am ei gofiant i William Williams Llandygái, Un o Wŷr y Medra (Gwasg Gee, 1999). Dyfernir y wobr hon yn flynyddol am lyfr ysgolheigaidd Cymraeg o ddiddordeb arbennig.

Brodor o Drefdraeth, Môn, oedd William Williams (1738-1817), a ddaeth yn stiward ar stad y Penrhyn, Bangor ac yn rheolwr cyntaf Chwarel y Penrhyn pan agorwyd hi fel menter fasnachol fawr yn 1782. Disgrifir ef yn y llyfr fel "o bosib y Cymro mwyaf ei ddylanwad erioed ar economi'r hen Sir Gaernarfon". Yr oedd, yn ogystal, yn hanesydd, llenor a bardd. Ei lyfr *Observations on the Snowdon Mountains* yw'r llyfr safonol cyntaf ar Eryri, a'i *Prydnawngwaith y Cymry* yw'r llyfr Cymraeg cyntaf ar oes y tywysogion.

PRESANT NADOLIG MUNUD OLAF?

CD GYNTAF

SEINDORF ARIAN DEINIOLEN

16 eitem ragorol
am £10 yn unig

Cysylltwch â Meirion Jones (870452)
neu Dylan Wyn Williams (870434)
neu unrhyw aelod o'r band

CHWILOTA

TEITHIAU CYNNAR YN Y DYFFRYN

Mae'n arferol, a hithau'n nesau at y Nadolig, i wahanol weisg gyhoeddi nifer o lyfrau newydd ar gyfer y farchnad. Yn rhifyn diwethaf yr "Eco" roedd y daflen 'Gwledd y Nadolig' wedi ei chynnwys; taflen wedi ei chynhyrchu gan Gyngor Llyfrau Cymru o wahanol gyhoeddiadau newydd. Ond rwy'n siŵr mai ychydig iawn o ddarllenwyr yr "Eco" fydd yn prynu un cyhoeddiad arbennig y 'Dolig hwn, ac nid llyfr mohono, ond cylchgrawn. Mae pedwaredd cyfrol 'Gwynedd Ddiwydiannol/Industrial Gwynedd' ar gael y mis hwn, ac yn cynnwys nifer o erthyglau yn ymwneud â'r fro hon.

Â'r ardal wedi cael mwy na'i siâr o law dros yr wythnosau diwethaf, ond heb ddioddef hanner cymaint â rhai ardaloedd yng Nghymru a Lloegr, mae gorlif afon Rhythallt rhwng Penllyn a Phontrhythallt wedi ein hatgoffa o'r math o dirwedd oedd i'w gweld yn ddyddiol ddwy ganrif a mwy yn ôl. Mae Llyn Bogelyn bellach wedi crebachu, a phrin bod y genhedlaeth bresennol yn sylweddoli fod Cwm y Glo yn borthladd prysur ers talwm. Dychmygwch Benllyn a Glan y Bala heb bontydd, a Llyn Peris yn llawn dŵr fel ers talwm, a dyna i chi 'ffordd' hwylus i dramwyo o Nant Peris i Gwm y Glo – mewn cwch. A dyna yw testun erthygl yng nghyfrol ddiweddaraf 'Gwynedd Ddiwydiannol' – *"The Forgotten Ways : evidence for water-borne transport in Nant Peris"* gan Douglas McElvogue. Mae'r awdur wedi bod yn ymchwilio i olion cychod a ddarganfuwyd yn llynoedd yr ardal, ac y mae rhai ohonynt i'w harddangos yn un o orielau Mynydd Gwefru, Llanberis.

Mae'n anodd heddiw meddwl am lynges o gychod rhwyfo yn mynd a dod ar hyd wyneb y tri llyn, ond ceir tystiolaeth am hynny gan Reithor plwyfi Llanberis a Llanrug, y Parch Peter Bailey Williams. Ym mhorthladd bychan Cwm y Glo (mae'n debyg mai rhyw fath o gei ydoedd) *"roedd lliaws o gychod pysgota a llech, a chopr gychod. Rhwyfid hwy i fyny at y New Inn neu at y weirglodd islaw Glan y bala. Bryd arall elai y cychod i ben uchaf y Llyn uchaf, ac oddi yno, tramwyid ar draed i'r pentref."* Y New Inn oedd Gwesty Dolbadarn, a'r 'pentref' bryd hynny oedd Nant Peris, wrth gwrs.

Bychan iawn oedd Cwm y Glo ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Mae map cynnar o 1802 (a atgynhyrchir yn 'Gwynedd Ddiwydiannol') yn dangos Cwm y Glo Wharf, a ffordd drol a elwir 'slate road' o'r Aber i fyny heibio'r Bryn a throsodd am yr Allt Deg. Hon mae'n amlwg oedd y briffordd allan o Gwm y Glo bryd hynny, oherwydd ni chafodd y ffordd o Ben y Greuor, Llanrug heibio i'r Ddôl Helyg ac ymlaen am Garreg y Frân a Chwm y Glo ei hadeiladu hyd 1828-32. Ar fap 1802 mae'n ymddangos mai Carreg y Frân a Bryn yw'r unig ddau adeilad, ond nodir hefyd nifer o leiniau tir a elwir yn *'Cwm y Glo inclosures'*. Mae'r enw 'Elizabeth Prichard' wedi ei sgwennu ar y map rhwng Carreg y Frân a'r Bryn.

Diddorol hefyd yw Tir Rest yn dyddio o tua 1793 am blwyf Llanrug yn nodi fod nifer ychwanegol o dai i'w cynnwys ar y rhestr, a'u bod i dalu i'r Festri Blwyfol tuag at atgyweirio'r Eglwys. Nodir yn arbennig *"Cwm y glo, including two or three small tenements"*, a *"storehouse to keep copper ore at Cwm y glo."* Roedd tenantiaid yr adeiladau hyn i dalu cyfanswm o bunt wyth swllt a chwecheiniog i'r Festri Blwyfol. Enwir hefyd Elisabeth Prichard, Bwlch i dalu swllt.

Roedd teulu'r ysgolhaig, Syr John Morris Jones (ac y mae llyfr amdano ar fin cael ei gyhoeddi gan John L Williams, Llanfairpwll) yn hannu o Gwm y Glo hefyd, a daw'r cyfeiriad cynharaf yn 1708 gyda phriodas Maurice Jones ac Ann Morgan yn eglwys y plwyf, Llanrug. Cyfeirir at y cartref fel 'Cwm y Glo' yn 1718, ar gladdedigaeth Richard, mab bychan i'r ddau. Mab arall oedd John Maurice/Morris (1720-1788) sy'n disgrifio'i hun fel 'iwmon'. Mae ei ewyllys ar gael, wedi ei phrofi ar Fai 20fed , flwyddyn ei farw. Ynddi mae'n ewyllysio *"land and premises commonly called Cwm y Glo"* i'w fab Morris Jones. Mae'n gadael swllt yr un i'w ddau fab arall, Hugh a Morgan, *"having already given them a considerable share of my property upon their respective marriages."*

O blant Maurice Jones ac Ann Morgan y deilliodd llawer iawn o deuluoedd Cwm y Glo, gan gynnwys Teuluoedd Tan y Bryn, Bryn, Bryn Hafoty a'r Aber. Symudodd aelodau eraill o'r teulu i Eithin Duon, Pant Ifan a Phenhafodlas (o'r gangen hon y daw Syr John). Aeth eraill i Ddinorwig, y Clegir a Llanberis. Tybed sawl aelod o'r teulu a fu'n cario copr mewn cychod rhwyfo o'r Nant i Gwm y Glo? Mae'n sicr mai hwy oedd y teulu a oedd yn gyfrifol am weithio chwarel y Muriau, un o'r cloddfeydd llechi cynharaf yn yr ardal. Fe'i cofnodir gan Griffith Ellis yn ei 'Ddyddlyfr' fel chwarel yn cael ei gweithio gan "hen bobl y Cwm".

Yn ei erthygl, mae Douglas McElvogue yn disgrifio'n fanwl wneuthuriad y gwahanol gychod. Roedd y cwch a ganfuwyd yn Llyn Peris, nôl yn 1979 wedi ei dyddio'n ôl oedran y coed i tua 1547-49. Ymhlith yr eitemau eraill a ganfuwyd rhwng planciau'r cwch roedd deiliach, mês, cnau, carthion ceffyl a geifr, gwlân, blew a golosg. Mae'r rhain i gyd yn awgrymu y math o gargo oedd yn cael ei gario yn y cwch. Daw hyn â ni unwaith eto at roi cynnig ar enw Cwm y Glo.

Mae nifer o gynigion pam y galwyd y lle wrth yr enw hwn. Dywed ambell un mai cwm wedi ei 'gloi' gan greigiau yw'r ystyr. Mae eraill yn honni fod olwynion y troliau yn cario copr a llechi allan o'r cei yn cael eu cloi er mwyn ymdopi â'r allt serth. Os felly, mae hyn yn arwain rhywun i feddwl mai enw lled ddiweddar yw Cwm y Glo. Ond mae'r trydydd damcaniaeth yn awgrymu mai'r 'glo' yn yr enw yw golosg (charcoal) yn hytrach na 'coal'. Roedd coedwigoedd helaeth dros lethrau'r mynyddoedd a'r dyffrynoedd yn yr hen amser, a llawer o'r coed yn cael eu defnyddio i gynhyrchu golosg. (Dyna, mae'n debyg a ddigwyddai yn Cae Poeth, Llanrug hefyd).

Mae darganfod olion golosg yng nghwch Llyn Peris yn awgrymu fod y math hwn o gargo yn gyffredin ymhell cyn i'r cychod ddechrau cario na chopr na llechi – ac yng Nghwm y Golosg y byddai'r cyfan yn cael ei ddadlwytho cyn eu cludo mewn troliau i Gaernarfon.

O fewn yr erthygl am drafnidiaeth ar y llynoedd mae nifer o luniau yn dangos y cychod yn cael eu harchwilio a'u mesur, a hefyd nifer o gopïau o luniau a beintiwyd tua diwedd y ddeunawfed ganrif yn dangos copr a llechi yn cael eu llwytho a'u dadlwytho – yn Nôl Ithel ger Llyn Peris, yn yr Allt Ddu, Dinorwig, Gilfach Ddu, Llanberis, ac o bosibl yng Nghwm y Glo.

Cymry America.

Faint tybed o'r darllenwyr sydd wedi dilyn y gyfres *"Welsh in New York"* ar HTV? Mae'r

parhad ar dudalen 21

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
PERCHNOGION : DANNY A NERYS ROBERTS
Lle da i ddathlu eich achlysur arbennig,
Pen-blwydd, Atyniadau, Pen-blwydd Priodas ayyb
I bartïon o 12 – 40, Te bach £4.50
Bedydd o £5.00; Cinio Sul o £12.50
Ffoniwch Danny neu Nerys i drafod telerau
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn, Rhiannon a'r staff

Un funud fach...
NADOLIG

Dwi ddim wedi darllen yr un o lyfrau Harri Potter, y cymeriad y mae miloedd o blant ledled y byd wedi gwirioni ar ei hanesion. Mae'r awdures JK Rowling wedi llwyddo i lunio straeon sydd wedi dal dychymyg pobl o bob oed. Mae'n nhw'n deud bod plant yn darllen ei llyfrau hi yn awchus er nad ydynt yn darllen llyfr arall o un pen blwyddyn i'r llall.

Mae nhw wrthi ar hyn o bryd yn gwneud ffilm Harri Potter a bydd honno i'w gweld y flwyddyn nesaf. Ac mae 'na lun o Harri ar flaen rhifyn Nadolig y Radio Times eleni, a phennawd yn dweud bod Gŵyl San Steffan yn ddydd Harri Potter. O'i weld dyna finnau'n troi at y rhestr o raglenni teledu'r diwrnod hwnnw i weld beth allwn ei ddysgu am Harri Potter pe gwyliwn y rhaglenni. Ond methais yn lân â gweld yr un rhaglen amdano. Ail edrychais ar y rhestr, ond doedd dim sôn am Harri. O'r diwedd fe wawriodd arnaf mai marathon o raglen radio sydd i'w darlledu y diwrnod hwnnw, pan fydd llyfr cyntaf y gyfres yn cael ei ddarllen o glawr i glawr.

Mae'n rhyfedd beth sy'n digwydd wrth gymryd pethau'n ganiataol. Feddyliais i 'rioed mai rhaglen radio fyddai'n hawlio prif sylw'r cylchgrawn, a ninnau wedi arfer gweld sêr y sgrin yn gwenu arnom oddi ar ei glawr. Feddyliodd y Doethion erioed mai ym Methlehem, a hynny mewn stabl, y byddai'r Brenin newydd wedi ei eni y Nadolig cyntaf hwnnw. Roeddan nhw wedi cymryd yn ganiataol mai ym mhalas Jerusalem y byddent yn ei weld. Ac mor hawdd ydi hi i bobl heddiw gymryd yn ganiataol mai dim ond babi bach cyffredin sy'n cael ei gofio adeg y Dolig. Gobeithio y bydd yna filoedd o bobl yn dod i weld o'r newydd eleni y peth cwbl annisgwyl hwnnw, bod Duw wedi dod atom ni yn ei Fab Iesu. Dyna'r rhyfeddod mwya un, bod Duw ei hun gyda ni, a throsom ni yn y babi bach hwnnw.

JOHN PRITCHARD

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

CAPEL COCH. Cynhelir gwasanaethau Nadolig fel a ganlyn yn Capel Coch. Dydd Sul, Rhagfyr 24: Oedfa'r plant am 10 o'r gloch; Oedfa o ddarlleniadau a charolau am 5.30 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i unrhyw un ymuno â ni ar gyfer yr oedfaon hyn.

Fore Nadolig, dydd Llun, Rhagfyr 25: Oedfa Gymundeb am 10 o'r gloch. Mae croeso i aelodau eglwysi eraill y pentref ymuno â ni eleni eto i ddathlu dydd Nadolig yn yr oedfa hon.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd Gwasanaeth o ddarlleniadau a Charolau Adfent bnawn dydd Mawrth, 5 Rhagfyr yn Eglwys Sant Padarn. Arweinydd y Gwasanaeth oedd y Rheithor, y Parch Philip Hughes gyda Mr Derek Jones yn cynorthwyo. Mr Gareth Jones oedd yr organydd.

Cymerodd aelodau y gangen ran yn y darlleniadau ac, yn dilyn yn y Festri, cafwyd gwledd o de Nadolig wedi ei ddarparu gan yr aelodau. Enillydd y raffl oedd Mr Gareth Jones.

Derbyniwyd a chroesawyd Mrs Gwen Williams yn aelod newydd. Diweddwyd drwy adrodd y Gras.

PLAS PENGWAITH.

Nos Lun, 20 Tachwedd cafodd rhai o'r preswylwyr gyfle i fynd i Oriel y Mynydd Gwefru i Noson Lawnsio llyfr Arwel Jones, Hogia'r Wyddfa 'Y Stori tu ôl i'r Gân' – Cyfres y Cewri 22. Llyfr yw yn llawn o'i hanes yn tyfu i fyny yn y fro hon a hanes llawer o drigolion arbennig y daeth i gysylltiad â hwy yn ystod ei fagwraeth.

Ffair Nadolig. Ar bnawn Sadwrn Ragfyr 9, er gwaethaf y tywydd, cynhaliwyd y Ffair gyda Siôn Corn yn y Grotto. Daeth nifer fawr i'n cefnogi i wneud y ffair yn llwyddiant unwaith eto eleni. Gyda diolch yn fawr i bawb am droi allan.

Nos Sul, 10 Rhagfyr cawsom ein diddori gan Côr Lleisiau'r Gweinydd.

Dydd Mercher 13, fe aeth y staff a'r trigolion i Westy Dolbadarn am eu Cinio Nadolig.

Brynhawn Sul 17, cawsom ein diddori gan Seindorf Arian Llanberis.

Nos Lun 18, daeth Côr Meibion Dyffryn Peris atom.

Brynhawn Mercher 20, bu Dafydd Bullock yma gyda ni.

Brynhawn Sadwrn 23, Heather Jones fydd yma yn ein diddori.

Hoffai'r swyddogion, y staff a'r trigolion ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu atom dros fis Rhagfyr.

Wedi ein gadael ar ôl cyfnod byr mae Miss S. Williams. Dymunwn hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd.

Dal i fod yn Ysbyty Bryn Seiont mae Mr J.H. Williams, Llanberis ac mae pawb yn dymuno'n dda iddo.

Yn dathlu eu pen-blwydd yn mis Ionawr fydd Mr Dafydd J. Thomas a Miss Mair Miller. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn iddynt.

Hoffai'r swyddogion, staff a thrigolion ddatgan eu diolch yn fawr iawn am y gefnogaeth i'r Ffair Nadolig eto eleni, yn enwedig y busnesau lleol, teuluoedd, staff a phobl y fro am eu rhoddion.

Diolch i Mr Bazil Thomas am ei wasanaeth fel Siôn Corn. Fe wnaed elw sylweddol at Gronfa'r Cartref. Gyda diolch yn fawr i bawb.

Fe fydd enwau enillwyr y Raffl Fawr yn rhifyn nesaf yr Eco.

CYFARCHION. Ni fydd Doreen Roberts, 50 Maes Padarn yn anfon cardiau Nadolig eleni ond dymuna gyfarchion i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion dros yr ŵyl, gan hefyd ddiolch i bawb am eu cefnogaeth dros y misoedd diwethaf.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco.

Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn, rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn lwyddiannus iawn yn 2001.

DIOLCH. Hoffai aelodau Pwyllgor NSPCC Bro Peris ddatgan eu diolchgarwch i bawb a gyfrannodd i'r gwasanaeth Nadolig yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar Ragfyr 3. Gwnaethpwyd casgliad o £158. Diolch yn fawr iawn.

DYMUNA Mattie Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis ddiolch i bawb am bob dymuniad da am adferiad buan. Diolch yn fawr.

DYMUNA Maldwyn, Buddug, Eunice a theulu'r ddiweddar Beti Roberts, Bron Menai, Carmel (Dakota, Llanberis gynt) ddatgan eu diolch i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad. Diolch hefyd am yr holl gardiau, llythyrau, y rhoddion a'r galwadau ffôn. Carem ddiolch hefyd i'r Parch Huw Gwynfa Roberts, Dinas am ei wasanaeth a'i gymorth ac i'r Mri. Myrddin Pritchard a Gwynfor Jones, Llanberis am yr holl drefniadau. Diolch hefyd i feddygon Llanberis, Dr. Elwyn Parry, Penygroes a staff Hostel Gwawr, Ysbytai Gwynedd ac Eryri am eu gofal caredig.

Casglwyd £500 tuag at Gronfa Ysbyty Eryri ac at Hostel Gwawr, Ysbyty Glan Clwyd er cof amdani.

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS
CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

Mae'r Cyngor yn gwahodd ceisiadau am gymorth ariannol gan fudiadau a chymdeithasau lleol. Dylid anfon pob cais, gan gynnwys y daflen ariannol ddiweddaraf, erbyn dydd Gwener, 5ed o Ionawr 200 i'r Clerc:
Dafydd Wh. Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon.
Ni roddir ystyriaeth i unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

GWELLHAD BUAN i Mrs Jeni Williams, Pennant a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Braf iawn yw eich gweld yn ôl adref – brysiwch wella.

DIOLCH. Dymuna Jeni Williams, Pennant ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, yr anrhegion niferus, yr ymweliadau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty, ac ar ôl dychwelyd gartref. Diolch yn arbennig i Bwyllgor Carnifal y Nant am y blodau hardd.

LLONGYFARCHIADAU i Kelly Kennedy, Bro Glyder ar enedigaeth bachgen bach, Michael, yn ddiweddar.

PARTI. Cafwyd noson i'w chofio yn y Nant ar nos Wener, 8 Rhagfyr pan gynhaliwyd parti'r pentref yn Nhy'n Llan. Braf oedd gweld cymaint yn bresennol a bu i bawb fwynhau'r wledd fendigedig gan Anne a Jim. Daeth siôn Corn i weld y plant – y rhai bychain a'r rhai mwy(!) a hoffem ddiolch i Frigad Dân Llanberis am ei ddanfon yr holl ffordd o Begwn y Gogledd! Diolch hefyd i Anne a Jim am eu croeso ac am y bwyd blasus.

Ysgol Dolbadarn

Mae Ysgol Dolbadarn Llanberis newydd dderbyn Adroddiad gan yr Arolygwyr Ysgolion a fu'n ymweld â'r ysgol am dridiau ddechrau mis Hydref eleni.

Mae'r Adroddiad yn canmol yr Ysgol am ansawdd yr addysgu gan ddweud ei fod yn dda iawn neu'n dda yn y mwyafrif helaeth o'r gwersi a arsylwyd. Pwysleisia'r Adroddiad na welwyd addysgu anfoddhaol o gwbl, a dywedir bod y berthynas dda rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn cyfrannu at awyrgylch dysgu effeithiol. Mae'r plant yn cyrraedd safon dda yn y mwyafrif o bynciau, ac yn arbennig yn y pynciau craidd. Mae'r athrawon yn adnabod y plant yn dda yn ôl yr Arolygwyr. Caiff yr Ysgol ei chanmol yn benodol am ei darpariaeth ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Dywedir bod yr Ysgol yn gymuned hawddgar, a chaiff y plant eu canmol am eu cwrteisi a'u parch at ei gilydd ac at eu hathrawon ac at bobl ddieithr. Maer'r Ysgol yn cael ei rheoli a'i harwain yn dda iawn gan y Pennaeth sydd â gweledigaeth glir o sut dylai'r Ysgol ddatblgu. Canmolir y Llywodraethwyr a'r rhieni hefyd am eu cefnogaeth i'r Ysgol.

Dymuna Llywodraethwyr yr Ysgol ddiolch i'r Pennaeth, Mr Rolant Wynne a'r staff am eu holl waith a'u llongyfarch ar yr Adroddiad llwyddiannus a dderbyniwyd.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

LLENOR NEWYDD. Llongyfarchiadau mawr i Eilian Gwilym Hughes, mab Mr a Mrs Eifion Hughes, Tyddyn Cae ar ennill cadair yn Eisteddfod Ysgol Syr Hugh Owen. Ysgrifennodd stori fer ar y testun 'Gwrthdaro'.

LLENOR ARALL. Mae Emily Huws, Tyddyn Llwyni, wedi cyhoeddi dwy gyfrol i blant ar gyfer y Nadolig eleni. Un yw 'Roli' a gyhoeddwyd gan Wasg Gomer am £3.99. Yr ail yw 'ebost Iesu@Bethlehem', eto gan Wasg Gomer am £3.95.

CYSYLLTIAD Â LLANGÏAN Yn anffodus ni fu unrhyw ymateb i gais Mr Robert Owen, Pwllheli am hanes ei deulu o Langïan yn Nhŷ Gwyn a Thai Glangwna. Hefyd, bu farw un o Langïan a fu'n byw yn Llyngele am ychydig flynyddoedd, Aled Griffith.

YMDDEOLIAD. Ers i Deiniol Huws, Tŷ Mawr ymddeol o'r byd 'swiriant, mae'n braf gweld ei gi ffyddlon yn ei arwain am dro o amgylch y pentref a'r caeau.

TYNNWR LLUNIAU. Llongyfarchiadau i Richard Jones, Tryfan ar ennill yr ail wobr am y sleid gorau yn y gystadleuaeth flynyddol rhwng pum clwb camera yng Ngwynedd. Gellir gweld enghreifftiau o'i waith yn ystafell fwyta Tafarn Bryngwna.

CLERC I'R CYNGOR CYMUNED. Gan fod Dewi Jones, Erw Wen wedi ymddiswyddo fel Clerc i'r Cyngor Cymuned, mae'r Cyngor yn chwilio am Glerc newydd. Dylid ymholi â Dewi Jones am fanylion pellach.

MAN CHWARAE'R PLANT BACH. Oherwydd y tywydd garw a gwlyb, mae'r ymgymerwr sy'n adeiladu'r man chwarae ger Tai Bryn Teg wedi atal y gwaith tan y Gwnawyn. Yn y cyfamser, mae'r arian ar gyfer gorffen y gwaith yn ddiogel yn Nhrysorlys Cyngor Gwynedd.

DYFODOL Y CAPEL. Bu ymgyrch deng mlynedd rhwng galw ar Gyngor Arfon am fan chwarae i'r plant lleiaf â'r adeg y dechreuodd Cyngor Gwynedd weithio ar y safle. Ers tua 3 blynedd bu ymgais i sicrhau tŷ yng Nghaeathro sy'n addas i Dduw drigo ynddo. (Ni ddisgwylir i deulu bydol fyw mewn amgylchiadau o'r fath yn y filflwydd newydd). Disgwylir penderfyniad arloesol gan Henaduriaeth Arfon ynglŷn â darparu addoldy ar gyfer yr oes gyfoes yng Nghaeathro (nid oes addoldy arall o fewn 2 filltir!) a threfniadau bugeilio a chynnal gwasanaethau sydd i'w disgwyl o gyfundrefn sy'n ganolog ei natur. Yn y cyfamser diolch i Ifor Hughes, Lleifior am ei ymdrechion parhaol dros yr Achos yng Nghaeathro.

OGOF O OLEUADAU SIÔN CORN. Roedd plant iau Caeathro a'r cylch ddigon ffodus i dderbyn gwahoddiad gan Siôn Corn i ymweld â'i ogof, sydd draw i gyfeiriad Pontrug, cyn y Nadolig. Roedd yn gyfle i Siôn Corn ymarfer ei grefft ar ôl 358 diwrnod. Bydd Coeden Nadolig Caeathro a goleuadau'r Capel o fudd mawr i'r hen ddyn a'i geirw wrth iddynt geisio darganfod y simneiau cywir ar noswyl Nadolig.

BENDITHION TYMHOROL. Dymuna tîm Eco'r Wyddfa yng Nghaeathro – Rhiannon, Marian a Clive – Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb sy'n darllen newyddion Caeathro yn yr Eco ac i holl drigolion y fro.

Cyngor Cymuned y Waunfawr

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned y Waunfawr yn Y Ganolfan, Y Waunfawr ar nos Iau, 7 Rhagfyr. Roedd y Cynghorwyr Vera Roberts a Clive James yn bresennol.

Roedd y Cyngor Cymuned yn unfrydol yn derbyn y rhaniad cyfrifoldeb rhwng y Cyngor Cymuned a Chymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer cynnal a chadw'r man chwarae newydd.

Mae Cyngor Gwynedd wedi clirio'r gordyfiant ar y llwybr o'r cae chwarae i'r llyn uchaf.

Nid oes unrhyw ateb i law ynglŷn â dynodi'r arosfan bws i Waunfawr a'r bws 11.20 o Waunfawr i Gaernarfon.

Mae'r Pwyllgor Cynllunio wedi gwrthod cais goleuo Garej Gwalia ddydd a nos.

Datganwyd pryder gan y Cyngor am ddiffyg defnydd o'r arian a glustnodwyd tuag at ddarparu elfen gymunedol fel rhan o foderneiddio'r Capel. Gan fod syniadau eraill ar gyfer darparu cyfleusterau cymunedol yng Nghaeathro, roedd yr aelodau'n cwestiynu'r angen i glustnodi'r arian o hyd.

Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd dorri'r gordyfiant rhwng Penrhos a Llwyn Alice a rhwng Plas Glanrafon a Bryn Beddau. Hefyd bwriedir gwneud cais i godi arwydd 'Plant yn Chwarae' a mesurau tawelu/arafu traffig rhwng Cefn y Gof a Thai Bryngwna.

MODURDY
PLAS BACH
CAEATHRO
Ffôn: Caernarfon 672072
GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn
WILLIE A BRENDA
BRYNGWNA
CAEATHRO Ffôn: 674568
Diolch i bawb am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn
BWYD BAR
PARTION I FYNY
I TUA 18 O BOBL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym
MHARC GWYLIAU
GLAN GWNA
CAEATHRO. Ffôn: Caernarfon 673456
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN
GAREJ GWALIA
CAEATHRO
Ffôn 673096



GWASANAETH TORRI LAWR
24 AWR ★ M.O.T.
TRWSIO CEIR
LONDIS
Mae ein siop newydd ar agor 7.30 am - 10 pm bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, a.y.y.b.

O SIAMBAR SELWYN

Nadolig Llawen i chi i gyd, a diolch i chi am droi i mewn i'r Siambr yn ystod y flwyddyn.

Dydi'r Nadolig yn dod yn gynt bob blwyddyn dudwch? Fedra i ddim meddwl am fynd i ffwrdd dros y Nadolig a phetawn i'n cael fy nhemtio, i ganol yr eira y byddwn i'n mynd yn hytrach nag i wres yr haul. Ond, dyna fo – pawb at y peth y bo.

* * *

Wyddoch chi fod Oliver Cromwell, yn y flwyddyn 1649, wedi gwneud i ffwrdd â'r Nadolig a gorchymyn i bawb weithio fel arfer. Cymerwyd y rhai a ddaliwyd yn dathlu i'r ddalfa.

Fe ganwyd y garol *Silent Night* (Dawel Nos i ni) am y tro cyntaf i gyfeiliant gitâr, oherwydd i'r organ mewn eglwys yn yr Almaen, dorri.

Fe brintiwyd y stamp arbennig cynta ar gyfer y Nadolig yng Nghanada yn 1898.

Darganfyddwyd y cracer nadolig gan ŵr o'r enw Thomas Smith. Roedd o wedi cael mân bethau i lenwi'r cracer o Ffrainc ond doeddan nhw ddim yn gwerthu'n dda o gwbl hyd nes iddo gael y syniad o roi y "glec" draddodiadol o fewn y cracer.

Wyddoch chi mai rhyw fath o gawl hefo cyrants a gwin ynddo oedd y pwdin Nadolig cynta?

Ar ddiwrnod Nadolig 1914 yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf bu heddwch am gyfnod pryd y bu i Brydain a'r Almaen gynnal gêm bêl droed ar dir neb ar y Western Front.

Ac ar ddiwrnod Nadolig 1066, fe goronwyd William y Concwerwr yn frenin Lloegr yn Abaty Westminster.

Ys gwn i gafodd o bwdin Dolig?

Mwy o Hanesion Bethan

30/10/99

Dw i ar fys anghyfforddus eto! Dw i 'di bod yn y jyngl am wythnos a rwan dw i ar fy ffordd i weld mynyddoedd yr Himalayas. Mae'r wlad 'ma'n anhygoel.

Roedd cerdded drwy'r jyngl fel cerdded ar set 'Jurassic Park' ond bod un gwahaniaeth mawr, doedd yna ddim cyfarwyddwr i weiddi *'action'*! Roedd rhaid i ni ofalu peidio â sathru ar frigau neu ddail rhag i ni amharu ar y Rhino gwyllt oedd yn pori ychydig fetrau tu ôl i'r clawdd. O'n i'n teimlo nad oeddwn i i fod yno, mai'r anifeiliaid oedd yn rheoli yma ac ein bod ni'n tresmasu ar eu tir. Sylweddolais faint o reolaeth sydd gan ddyn dros natur! DIM!

Wrth i ni guddio tu ôl i'r clawdd mi sibrydodd ein harweinydd hanner dall (collodd lygad yn ceisio ymladd efo eliffant gwyllt!) *'It's good to die sometimes!'* Doedd o ddim yn union be' o'n i isio'i glywed ar yr eiliad honno a Rhino mor agos fel mod i'n gallu ei glywed yn anadlu. 'Diolch i ti mêti'

Ddoe, mi es i mewn canŵ sigledig i weld crocodeiliau! Cipiais olwg ar ambell ddotyn o amgylch y canŵ ond yn fuan iawn y sylweddolais mai'r *'man-eating crocodiles'* oedden nhw! HELP! Heddiw, rwy'n diolch na disgynnais i'r afon.

Cytiau mwd oedd ein gwesty, yn costio 25c y noson i ni. Ambell noson roedden ni'n gallu clywed sŵn cerdded trwm tu allan ac wrth edrych drwy'r ffenest roedd yna Rhino anferth hefo'i gorff jig-sô yn cerdded yn hamddenol drwy'r ardd. Ofn? O'n i'n llenwi 'nhrowsus!

Ond rhaid i mi gyfaddef mai cael eistedd ar gefn yr eliffantod dof ac ymolchi yn yr afon hefo nhw oedd un o uchafbwyntiau'r wythnos. Ma' nhw'n greaduriaid mawr a heglog ond eto mor annwyl ac ysgafn.

11/11/99

Dydy moethusrwydd ddim yn bwysig i mi felly roedd aros mewn hostel am 80c y noson yn Darjeeling yn swnio'n grêt. Roedd gan yr hostel hanner cant o wlâu ond dim ond un lletywr, ac roedd hwnnw'n cerdded o amgylch y lle wedi ei lapio mewn blanced, lliain sychu llestri am ei ben a sbectol pot jam yn gorwedd ar ei drwyn.

Y noson honno oedd y tro cynta' i mi deimlo'n hiraethus am adref. O'n i ishio bod adra mewn gwely clud, peidio gorfod poeni am westy, peidio gorfod talu am bopeth a chael mwy na phunt y diwrnod i'w gwario ar fwyd. O'n i'n cysgu am bump yn y pnawn, ceisio deffro cyn cinio er mwyn osgoi brecwast, cael cinio cynnar a swper hwyr ac yna i 'ngwely am naw â phoen gwag yn fy mol.

Ond dyna ni, dydi teithio ddim wastad yn hwyl, dim gwyliau ydi o ond profiad. Profiadau da a drwg. Roedd yna un diwrnod felly yn Darjeeling, lle cefais brofiad ardderchog ac yna un hyll.

Y mynach a'r mochyn

Wrth edrych i fyny ar fynachdy 'Darly Gompa' daeth yna ddagrau i fy llygaid. Roedd o'n un o'r adeiladau hyfryta a welais i erioed. Roedd y manylder yn anhygoel a'r lliwiau yn feddwol.

parhad ar dudalen 11

Cosb oedd cwympo mewn cariad



Solomon & Gaenor

GYDAG IOAN GRUFFUDD A NIA ROBERTS

8.30
Dydd Nadolig

TRANSL888/889
www.s4c.co.uk

S4C

CYFLENWYR PORTHIANT
IDRIS MORRIS
BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO
Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
01248 670439

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA ODDI WRTH
ANN A BILLY HUGHES
SIOP TREFLYN
BETHEL
Ffôn: (01248) 670106

Diolch am eich
cefnogaeth
drwy'r flwyddyn

Cefnogwch Fusnesau Lleol
CEIR CYMRU
BETHEL (01248) 670451
(Hefyd yn Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)
Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y 10 mlynedd diwethaf Rydym yn fusnes Cymreig sy n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.
Dymuniadau gorau ar gyfer 2001 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: **'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth
Ellis Wyn, Iola
Holl staff a thrigolion
Cartref Preswyl
SANT TEILO
BETHEL
Ffôn: 01248 670353

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

YMDDEOLIAD. Ers y rhifyn cyntaf o'r Eco mae Goronwy Jones, Cilan wedi bod yn dosbarthu'r Eco i'r ffermydd a'r cartrefi ar gyrion Bethel a Saron, y cylch anodda i fynd o'i gwmpas yn yr holl ardal mae'n debyg. Wedi blynyddoedd o wasanaeth mae Goronwy yn rhoi'r gorau iddi ar ddiwedd y flwyddyn. Ar ran yr holl deuluoedd sydd wedi derbyn yr Eco drwy law Goronwy, ac ar ran holl swyddogion yr Eco, dyma ddiolch o galon iddo am ei gyfraniad ar hyd y blynyddoedd.

DATHLU'R NADOLIG. Nos Fawrth, 12 Rhagfyr yn festri Bethel cynhaliwyd dathliad Nadolig y Gymdeithas Lenyddol. Cafwyd nifer o ddarlleniadau ac eitemau cerddorol a charolau gan yr aelodau ac, ar y diwedd, cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei drefnu gan y chwiorydd.

Bydd casgliad y noson yn mynd i Gymdeithas y Deillion.

AIL-SEFYDLU UWCHADRAN YR URDD. Ers mis Medi mae plant o flynyddoedd 7, 8 a 9 o'r ardal yn cyfarfod yn Uwchadran yr Urdd yn y Neuadd. Yn ogystal â chyfarfod i gymdeithasu a chwarae Tenis Bwrdd a rhedeg eu siop eu hunain yn y Neuadd buont yn dathlu Calan Gaeaf yn y Gelli Gyffwrdd, ac, ar ôl stori arswydus iawn yn y caffi, roedd pob cysgod a choeden yn ddychryn ar y daith yn ôl i Fethel. Bu'r aelodau yn sglefrio yng Nglannau Dyfrdwy a chyn y Nadolig byddant yn cael cyfarfod ac aelodau eraill o'r Urdd yn y Gig yn yr Octagon.

Yn y flwyddyn newydd gobeithir ennill grant i allu paentio murlun ar wal y Neuadd a bydd ymarfer brwd ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.

Llythyrau

Annwyl Olygydd,

Fideo Uchafbwyntiau
Eisteddfod Llanelli 2000

Rwy'n siŵr yr hoffai eich darllenwyr diwylliedig wybod am ddatblygiad cyffrous ym myd cofnodi hanes yr Eisteddfod Genedlaethol! Am y tro cyntaf erioed, mewn cydweithrediad â'r Eisteddfod Genedlaethol, mae cwmni Tapas, Caernarfon yn cyhoeddi fideo o Uchafbwyntiau Eisteddfod Llanelli a'r Cylch.

O fandiau prês i'r Rhuban Glas, o ddawnsio gwerin i'r Llwyd o'r Bryn, o gerdd dant i'r Prif Seremonïau, mae'r fideo, sy'n awr a thri chwarter, yn gofnod ac yn archif gwerthfawr o'n gŵyl Genedlaethol, ac mae ar gael i bawb!

Mae'r fideo yn barod ar gyfer y farchnad Nadolig ac mae'n anrheg delfrydol, naill ai i'w chadw eich hun neu i'w rhoi yn hosan ffrind neu aelod o'r teulu.

Mae'n bosib ei harchebu ar y ffôn (01286) 677225 a thalu gyda cherdyn credyd neu siec, neu holwch yn eich siop Gymraeg leol. Y pris yw £19.99.

Neu fe ellir ei harchebu drwy'r post oddi wrth Tapas (Cymru) Cyf., Y Ganolfan Deledu, Cibyn, Caernarfon LL54 7ST.

Yn gywir
Eirug Wyn

Annwyl Ddarllenwyr,

Carwn dynnu eich sylw at y Cynllun Casetiau Cymraeg i'r Deillion, sydd yn wasanaeth rhad ac am ddim i'r rhai sydd â nam ar eu golwg.

Dros yr ugain mlynedd diwethaf bu tîm wrthi'n recordio llyfrau o bob math ar gaset at ddefnydd y deillion a'r rhannol ddall. Erbyn hyn cyhoeddwyd catalog yn cynnwys 1,700 o deitlau ar destunau o bob math. Dosberthir y casetiau drwy'r post yn rhad ac am ddim i gartrefi cannoedd o fenthycwyr ledled Cymru. Anfonir y casetiau hefyd at fenthycwyr sydd wedi symud allan o Gymru.

Yn ystod y misoedd diwethaf dechreuwyd recordio llyfrau Saesneg yn ymwneud â Chymru, neu lyfrau gan awduron Eingl-Gymreig.

Os gwyddoch am unrhyw un sydd yn cael trafferth i ddarllen oherwydd bod eu golwg yn ddiffygiol, ac sydd yn awyddus i ddefnyddio ein gwasanaeth, tybed a wnewch chi ofyn iddyn nhw gysylltu â ni naill ai trwy Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru, 325 Stryd Fawr, Bagnor, Gwynedd (Ffôn: 01248 353604) neu â'r Cynllun Casetiau Cymraeg, 1 Penlan, Caerfyrddin (Ffôn: 01267 238225).

Yr eiddoch yn gywir,
Rhian Evans
1 Penlan
Caerfyrddin

Aelodau ysgolion Sul Deiniolen a Chapel Bosra, Penisarwaun a lwyddodd i godi bron i £200 drwy ddarllen tawel noddedig tuag at addysg Katalan o Kenya.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL GYMUNED. Diolchir i bob plentyn a gefnogodd y weithgaredd 'Bocsus Plentyn y Nadolig'. Diolchir i staff y gegin am y Cinio Nadolig bendigedig ar Ragfyr 12. Llongyfarchiadau mawr i'r staff a'r plant am Wasanaeth Nadoligaidd hyfryd ei naws ac i'r Cyfeillion am drefnu Disgo i orffen y tymor. Ar ddechrau 2001 trefnir 'Noson Gerddorol'. Dymunir Hwyl yr Wyl a phob bendith i bawb ohonoch yn 2001.

URDD ADRAN BENTREF. Tachwedd 29 mwynhawyd noson o waith llaw Nadolig. I orffen y tymor cafwyd Disgo yng ngofal Eric Jones yn y Neuadd Gymuned. Bydd gweithgareddau'r Urdd yn ail gychwyn ar nos Fercher, Ionawr 10 pryd y ceir cyfle i sôn am hoff anrheg Nadolig 2000.

EIN CYDYMDEIMLAD llwyraf â Gwyn a Phyllis ar farwolaeth sydyn mam Gwyn o Derlwyn, Efailnewydd. Anfonir ein cydymdeimlad dwysaf hefyd at Ron Hughes a Bronwen, Kevin a'r hogia ar farwolaeth Eric Hughes o Lundain, brawd i Ron.

DYWEDDÏAD. Dymuniadau gorau a phob bendith i Dafydd a Manon, Golygfa'r Wyddfa ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Evan Wyn Jones ddiolch i athrawon a phlant Ysgol Sul Undebol Bosra am y deisen a'r llyfrau a'r cardiau, hefyd i'r teulu oll a ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar ei ben-blwydd arbennig. Diolch o galon i bawb.

PWYLLGOR Y NEUADD GYMUNED. Tynnwyd Clwb 100 Rhagfyr a'r enillwyr oedd:
1. Ann Paterson, 1 Bryntirion;
2. Mrs Sally Griffith, 16 Bryntirion;
3. Miss Nansi Williams, 15 Bryntirion.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i aelodau'r Clwb Cant am eu cefnogaeth eto'r flwyddyn hon, gan obeithio y ceir yr un gefnogaeth yn 2001. Mae croeso i aelodau newydd ymuno yn mis Ionawr am 50c y mis neu £6 y flwyddyn.

Cynhelir Noson Wasael nos Iau, Rhagfyr 21 am 6.30 yn y Neuadd Gymuned. Bydd pwnsh, oren a mins pei a chenir yr hen garolau. Cymerir rhan gan y plant ac oedolion hefyd. Croeso cynnes i bawb ymuno i ddathlu Nadolig 2000. Dymunir diolch i bawb a gefnogodd weithgareddau'r Pwyllgor Neuadd yn y flwyddyn 2000 a hyderir y ceir yr un gefnogaeth yn 2001. Diolch o galon.

ANRHYDEDD. Llongyfarchiadau gwresog i Lois Eifion ar gael ei dewis i berfformio yng Nghyngerdd y Goreuon gan Fwrdd Cyswllt yr Ysgolion Cerdd Brenhinol yn Neuadd Pritchard Jones, Bangor ar y delyn a'r piano o achos ei marciau uchel yn yr arholiadau yn ddiweddar. Da iawn chdi, Lois!

YSGOL SUL UNDEBOL BOSRA. Cafwyd orig bleserus iawn fore Sul, Rhagfyr 3 gan fod Arolygwr Ffyddlon yr ysgol Sul ar fin dathlu ei ben-blwydd arbennig yn 70 oed ar Ragfyr 8. Cyflwynwyd teisen arbennig iddo a dau lyfr a oedd wrth fodd ei galon. Bu'r plant yn canu iddo a braf oedd cael llun ohono hefo'r ugain o aelodau ffyddlon.

Fore Sul, Rhagfyr 17 am 10 y bore cafwyd Gwasanaeth Nadolig 2000 gan yr athrawon a'r plant. 'Nadolig Pori'r Pry Copyn' fu hi 'leni, yn deillio o'r stori brydferth am bry cop yn achub bywyd yr Iesu drwy nyddu ei wê ariannaidd dros geg yr ogof rhag milwyr creulon Herod. Fe addurnwyd y Goeden Nadolig â thinsel gloyw ariannaidd i atgoffa pawb o wê sidanaidd y pry copyn. Fe ddaeth Sant y plant i'w gweld a rhoi anrheg i bob un. Cafodd pawb fins pei arbennig Anti Bronwen ar ddiwedd y gwasanaeth. Dymunir diolch i'r plant am fod mor ffyddlon ac i'r rhieni am eu cefnogaeth a'u hanogaeth. Bydd yr Ysgol Sul yn ail gychwyn ar Ionawr 7, 2001.

PARTI NADOLIG YSGOLION SUL. Cynhelir Parti Nadolig y Plant bnawn Iau, Rhagfyr 21 o 2 – 4 y pnawn a diolchir i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau.

TRIP SIOPA I LERPWL. Diolchir i Jean am drefnu'r trip hwyliog i Lerpwl. Bu hwyl ar y gwario a sbort a chwerthin yn yr Adelphi. Gobeithio iddi fwynhau'r tusw blodau fel gwerthfawrogiad.

CINIO'R HENOED. Diolchir i bawb am eu cefnogaeth i ginio'r Henoed yng Ngwesty Gwydir, Betws y coed. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

DIOLCH. Dymuna Phil Jones, 8 Bryntirion ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y toreth cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 50 ar Ragfyr 1. Diolch hefyd am y parti bendigedig yn Y Fricsan, Cwm-y-glo.

EGLWYS ST. HELEN.
Gwasanaethau'r Nadolig:
Sul, 17: 10.30 y bore Gwasanaeth Naw Llith a Charol;
Noswyl y Nadolig, 24 Rhagfyr, 11.30 o'r gloch: Cymun Bendigaid y Nadolig;
Sul, 31: 10.30 o'r gloch: Cymun Teuluol a Gwasanaeth Nadolig y Plant gydag eitemau cerddorol. Fe estynnir croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau.

Gwneir casgliad ychwanegol yng nghefn yr eglwys yn ystod gwasanaethau'r Nadolig. Fe rennir y casgliad rhwng cronfa Cymorth Cristnogol a chronfa'r Ysgol Sul.

Bydd llyfrau ariannol yr eglwys am y flwyddyn 2000 yn cau dydd Sul, Rhagfyr 31. Diolch i bawb am bob rhodd yn ystod y flwyddyn.

CYFARCHION Y TYMOR. Dymunir Nadolig 2000 dedwydd i chwi oll a phob bendith yn y flwyddyn 2001.

Diwedd y Flwyddyn 2000

Ffarweliaf â thristwch y flwyddyn a fu,
Mi gleddais gyfeillion yn y beddrod oer du;
Rhai annwyl, mynwesol, bob un yn ei dro,
Maent bellach yn cysgu yn nhawelwch y gro.

Hen flwyddyn go arw, un gas dweud y gwir,
Pob anffawd anlwcus yn cerdded y tir;
Serch hynny dôi weithiau lygedyn o haul,
Rhyw fwyniant arbennig, wrth fwrw y draul.

Rhyw hwyl diwrnod cneifio wrth eillio y gwlân,
Di-noethi y defaid a'u cneifio yn lân;
Rhegi a gwylltio wrth droi y pot marc
A'r sbinod, mor wancus, yn dianc i'r parc.

Rhaid cyfarch yn llawen y flwyddyn i ddod
A chreu 'chydig eiriau i ganu ei chlod;
Dymunaf ddaioni ac ymborth i'r tlawd
A chyfarchion pen tymor i elyn a brawd.

John V. Morris
Rhianfa Clwt-y-bont

Cyfarchion Nadolig PENISARWAUN

Atebion i'r Cwis
(o'r dudalen gefn)

1. Thompson; 2. Nofio a Ski Jumping; 3. Caerfyrddin; 4. Rhufain, Turin a Milan; 5. Karachi; 6. Neil Jenkins; 7. Leeds Rhinos; 8. LDV Vans Trophy; 9. Zidane, Figo a Rivaldo; 10. Ei giw pŵl; 11. Gymnasteg; 12. Timau Rygbi'r Undeb Colegau Caergrawnt a Rhydychen; 13. John Higgins; 14. Pêl-fasged; 15. Crysau tîm rygbi y Llewod; 16. Cwpan Davis; 17. Paris Saint-Germain; 18. Kate Hoey; 19. Peter Nicholas; 20. Ynysoedd Cook (Cwpan Rygbi Cynghrair y Byd).

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill
Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr *Eco*

Nadolig Llawen a diolch am eich cefnogaeth oddi wrth
Alwyn a Sarah Jones
BLODAU RACCA
PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870605

- Rithoedd Celyn, Coed Nadolig
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

CYFARCHION NADOLIG WAUNFAWR

ŠKODA FABIA

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
John Ferrarese a'r staff
MODURDY PANT Y WAEN
WAUNFAWR Ffôn: 650524

"Supermini" gorau a CHAR Y FLWYDDYN "WHAT CAR?" 2000

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

EMRYS OWEN

PEIRIANAU AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Argricultural Engineering)

OFFER AMAETHYDDOL O BOB MATH
HAEARN ADDURN I'R TŶ
WAUNFAWR
Ffôn:
(01286) 650 253

Mae
LLEUFER, NELMA A TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650 291

yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

- ★ O LEIAF 60 O WELYAU MEWN STOC
- ★ 5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
- ★ 40 O '3-PIECE SUITES'

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i holl gyfeillion yr Antur ym mro'r Eco

Antur Waunfawr

ANTUR WAUNFAWR

01286 650 721 www.anturwaunfawr.org

WELDPAR

CYMRU WALES

8 Pant y Waun
WAUNFAWR. Ffôn: 650426/720
OFFER WELDIO O'R SAFON UCHAF
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH **BRIAN, SHIRLEY A TONY**

Cadwch yn heini yn y Flwyddyn Newydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BEICS WIL

WAUNFAWR,
Ffôn: (01286) 6507203
PRYNU; GWERTHU; TRWSIO

Mae Liz a John Whitehead, Anna, Fiona a Helen

SIOP SGLODION Y PENTREF

THE VILLAGE CHIPPY

WAUNFAWR, Ffôn: 650683

yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

---

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd – 7 diwrnod yr wythnos

NADOLIG LLAWEN **PLUM24CYM** A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwms
Gwaith cynnal a chadw o bob math
Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

SNOWDONIA FIRE PROTECTION

YR HEN EFAIL, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650235
Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445

OFFER DIFFODD TÂN – masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.

Mae BRIAN a RITA HENDERSON

SIOP Y PENTREF

BRYN GWYNEDD WAUNFAWR

yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

- **Cardiau Manweb**
- **Alcohol ar werth**

AC YN NEWYDD

- **Bwyd Anifeiliaid Anwes**
- **Anghenion D.I.Y., paent ac ati**

Swyddfair Post

SWYDDFA'R POST ac YSTORFA TŶ NEWYDD WAUNFAWR

Ffôn: 650708

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Colin, Judy a'r staff
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon
Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd: £40: Mrs Hilda Williams, 8 Croesywaun; £25: Mr V.J. Davies, Bryn Gwyrfai; £10: Mrs E.Jones, 15 Bro Waun.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Steffan Eilidir, Stad Croesywaun; Sioned Jones, Hafod y Rhug a Fiona Davies, 20 Stad Tref Eilian. Bu'r tri ohonynt yn dathlu cyrraedd eu deunaw oed. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol.

PRIODAS. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da am briodas hapus i Manon Jones, Stad Tref Eilian ac Alun Lewis, Rhosgadfan. Maent wedi ymgartrefu yn Nebo.

GENEDLIGAETH. Llongyfarchiadau i Raymond a Pat Parry, Ffridd Felan ar ddod yn daid a nain. Ganwyd mab bychan, Jonathan, i Liz a Michael, brawd bach i Emma a Mathew.

ADREF O'R YSBYTY. Dymunwn adferiad buan i Mr Richard Charge, Llifon wedi iddo dderbyn llawdriniaeth; i Mrs Idris Jones, Goleufryn wedi iddi dderbyn triniaeth i'w llygaid; i Miss Eirlys Jones, Maelor sydd wedi torri ei braich ac i Mrs Smith, Rhoslan sydd wedi bod yn yr ysbyty.

COFION. Anfonwn ein cofion at Mrs Gwendoline Rowlands, Bryn Golau a Mrs Rhian Jones, Tref Eilian sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Mae Mrs Rhian Jones yn cael llawdriniaeth am yr ail dro o fewn pum wythnos. Dymunwn anfon ein cofion a'n dymuniadau da am wellhad buan i'r ddwy.

DIOLCH. Yn ddiweddar bu Elgan Rhys Jones, Eryri Wen, Stad Bod Hyfryd yn yr ysbyty ond braf cael dweud ei fod adref erbyn hyn. Dymuna Elgan ddiolch am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddo yn ystod ei arhosiad yno. Diolch yn arbennig i ddoctoriaid Meddygfa Waunfawr am eu gofal.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs Mair Williams, Cefn Coed ddiolch yn fawr i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddi ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 oed.

ANRHEG NADOLIG gwerth chweil i Glory, Tŷ Hen rwy'n siŵr oedd cael gweld ei theulu ym Mhatgagonia ar raglen deledu Dai Jones, Cefn Gwlad.

DYMUNWN fendithion Gŵyl y Nadolig i bob un ohonoch; i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref oherwydd gwaeledd ac i'r rhai sydd mewn cartrefi preswyl.

Cofiwch fynd i'ch gwely'n gynnar noswyl y Nadolig blantos bach a gobeithio y daw yr hen Siôn Corn heibio pob un ohonoch.

PLYGU'R ECO. Ni, drigolion pentref y Waunfawr sydd yn gyfrifol am blygu'r rhifyn nesaf o'r Eco. Gobeithiaf yn fawr yn gallwch ddod i helpu gyda'r gwaith yn festri Capel Croesywaun ar nos lau olaf mis Ionawr am 5 o'r gloch.

Hanes Bethan - *parhad o dud 6*

Cawsom groeso cynnes gan y mynach a oedd yn ein tywys o amgylch y lle, fe wahoddodd ni i gael cinio ac felly yn ddiolchgar fe aethom i ystafell i fwyta ac fe gaeodd y drws i ni gael llonydd.

Fe wyddem fod y mynaich yn mynd i 'Puja' am bedair awr ar ôl cinio, sef sesiwn o weddïo yn y mynachdy. Ar ôl cinio fe glywsom gloch enfawr yn canu a dechreuodd y myneich ymgynnull yn y mynachdy. Penderfynodd Sarah a fi fod yn well i ni fynd ond pan geisodd hi agor y drws roedd o wedi cloi! Erbyn hyn, roedd y ddwy ohona ni angen defnyddio'r tŷ bach a doedd aros yn yr ystafell am bedair awr ddim yn apelio! Fe waeddais ar dop fy llais nes yn y diwedd daeth y cogydd i agor y drws. Dw i dal ddim yn gwybod pwy glôdd y drws ond roedd yna wên ddireidus iawn ar rhyw fynach bach fel yr oedden ni'n gadael!

Ar y *'jeep'* yn teithio'n ôl i'r hostel, daeth gŵr mewn siwt i eistedd atom ni gan ddweud *'I work for the Army.'*

'Dydy'm ots gen i lle wyt ti'n gweithio, washi, sgen ti ddim hawl i afael yn fy nghoes i a mwytho fy mraich!' Mochyn!

Ond dyna ni, dw i'n ôl yn dysgu ers ddoe, yn ôl hefo fy nheulu bach ac yn cael llond bol o fwyd bob pryd!

Cyngor Cymuned Waunfawr

Gwahoddir ceisiadau am y swydd o **Glerc i'r Cyngor Cymuned**

Oddeuto 20 awr y mis.
Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol

Am fanylion ar sut i ymgeisio neu unrhyw ymholiad arall, cysylltwch â Dewi L. Jones ar (01286) 678025

Dyddiad cau: 12 Ionawr, 2001

CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER: WAUNFAWR (01286) 650552
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN NHAFARN Y

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Dewch gyda'r trên stêm o Gaernarfon ac aros

AM GINIO DA!

Gadael Caernarfon 1100, cyrraedd Waunfawr 1135
Gadael Waunfawr 1400, cyrraedd Caernarfon 1435

Yn **ddyddiol** o ddydd Mawrth, 26 Rhagfyr 2000
tan ddydd Llun, 1 Ionawr 2001
Ffoniwch y Dafarn i archebu pryd ymlaen llaw

A 'does dim rhaid dod ar y trên!
Cofiwch... **bob dydd Sul...**
cinio 3 chwrs arbennig £7.95
Bwyd cartref blasus o gynnyrch lleol

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

STERMAT
OFFER TŶ A GARDD

CAERNARFON
Ffôn: 676506

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Ysgol Brynrefail
Eisteddfod 2000

Wedi wythnosau o ymarfer brwd a disgyblion y chweched dosbarth yn brysur ac yn chwysu, cyrhaeddodd dydd Iau, yr unfed ar bymtheg o Dachwedd.

Pawb yn y neuadd yn disgwyl yn eiddgar ac, yn wir, ni chafodd neb ei siomi. Cystadlaethau o'r safon uchaf rhwng y pedwar tŷ.

Wrth gwrs, fel y gŵyr ein cyn-ddisgyblion mae gwaith yn mynd ymlaen cyn yr eisteddfod hefyd. Gwaith Ffrangeg, Celf, Technoleg, Cyfrifiadureg, Mathemateg, Technoleg Bwyd a Thecstiliau, Gwyddoniaeth, Saesneg a Chymraeg ac mae'r arddangosfa o'r gwaith yma yn cael ei arddangos yng nghyntedd yr ysgol ac yn denu canmoliaeth uchel gan ddisgyblion, athrawon, rhieni a chyfeillion yr ysgol.

Felly, peth braf yw gwobrwyo'r disgyblion sy'n dod i'r brig gyda'r gwaith gorau yn y meysydd hyn.

Eleni, enillwyr y Tlysau Pynciau oedd: Meirion Ginsberg, Bl.11, Gwyrfai – Tlws Celf; Jess Silvester Bl.8, Eryri – Tlws Dyniaethau; Natalie Elisha Blanchard Bl.9, Elidir – Tlws Ffrangeg a Saesneg; Debbie Hughes, Bl.8, Eryri – Tlws Technoleg a Gwyddoniaeth; Gareth Alun Owen, Bl.7, Elidir – Tlws Cyfrifiadureg; Michelle Allsup, Bl.8, Eilian – Tlws Technoleg Bwyd a Thecstiliau; Mark Pitts, Bl.9, Elidir – Tlws Mathemateg; Ffion Williams, Bl.10, Elidir – Tlws Cymraeg.

Daeth dwy yn gyfartal am y mwyaf o farciau am waith ymlaen llaw sef, Kayleigh Jones 7S o dŷ Gwyrfai a Debbie Hughes 8E o dŷ Eryri.

Agos iawn oedd y marciau am y gwaith yma, ond o drwch blewyn (1 pwynt!) Elidir fu'n fuddugol gyda Gwyrfai yn ail, Eilian yn drydydd ac Eryri'n bedwerydd.

Yna, ymlaen at y canu, llefaru, actio, dawnsio a'r partïon lu. Roedd hyn yn newydd i ddisgyblion blwyddyn 7 ond roedd eu hwynebau yn dweud cyn gymaint oedd eu mwynhad.

Holi rhai o ddisgyblion 7i a chael y perlau hyn:

'Fy ngwddf yn brifo ar ôl yr holl ganu, chwerthin a gweiddi. 'Steddfod Ysgol yn well na 'Steddfod Pentre!' medd Llinos Haf.

'Yr hwyl, y dawnsio disgo a'r Côr Tŷ' aeth a sylw Sioned Medi, a'r ddwy 'wrth eu bodd gyda'r Gân Ysgafn, y Parti Bechgyn a'r Sgets.'

'Y chweched wedi gwneud camp fawr gyda'r Orsedd fawreddog, ac roedd yr awyrgylch yn ardderchog,' oedd geiriau Manon Wyn Jones.

Kayleigh Thomas 'am wneud yn siŵr ei bod yn cymryd mwy o ran y flwyddyn nesaf,' am iddi fwynhau ei hun cymaint!

'Andros o hwyl,' medd Sioned Alaw sy'n 'edrych ymlaen i'r nesaf gan obeithio y gwneith Eryri wella ar y trydydd safle.'

Gwenllian 'yn falch iawn ei bod yn y tŷ buddugol, sef Elidir, ac O!' roedd 'wedi mwynhau'r Gân Ysgafn, y Parti Ffrangeg a'r Sgets.'

O urddas yr Orsedd yn cadeirio Owain Sion Williams (Eyri) a chyflwyno Tlws yr Ifanc i Debbie Hughes (Eryri) i'r hwyl gafwyd yn y Parti Bechgyn. Roedd y safon mor uchel ac erioed. Gwobrwywyd Ffion Owen (Eryri) a Huw Foulkes (Eilian) ar ennill y mwyafrif o farciau o'r llwyfan.

Lois Hughes (Eryri) gipiodd Dlws Emma Bernard am yr adroddiad gorau o'r llwyfan gyda'i brawd, Rhys Hughes (Elidir) yn cael y wobr am y perfformiad offerynnol gorau.

I Eilian yr aeth y Cwpan Parti Bechgyn, Eryri aeth a Chwpan John Parry (parti adrodd) a'r Gân Ysgafn. Elidir aeth a'r Parti Ffrangeg, y Cwpan Sgets a'r Cwpan Dawnsio Disgo.

I Eilian yr aeth Cwpan Mrs Welch am y Côr Tŷ Buddugol ac, wrth gwrs, i Elidir aeth y Cwpan Tŷ.

Yn ddi-amheuaeth, cafwyd Eisteddfod hynod lwyddiannus y flwyddyn yma. Gweithiodd pawb, boed staff neu ddisgyblion yn galed iawn tuag at y diwrnod. Rydym yn falch ac yn ddiolchgar i'r disgyblion hynny a gymerodd ran yn yr amryw gystadlaethau, megis y Côr, y Parti Adrodd, y Parti Ffrangeg, yr unawdau a'r deuawdau, y gwaith a wnaed o flaen llaw, y Gân Ysgafn a'r Parti Bechgyn.

Hoffem hefyd estyn llongyfarchiadau i Owain Williams a Debbie Hughes am ennill y Gadair a Thlws y Llenor Ifanc, gwobrau godidocaf yr ŵyl. Cawsom ni yn Eryri y trydydd safle, ac rydym oll yn falch ein bod wedi rhagori ar ein pedwerydd safle y llynedd!

Geraint B. Edwards, Kelly E. Williams a Catrin Pepper: Capteiniaid Tŷ Eryri

Dyma'r marciau terfynol:
Elidir – 903; Eilian – 877;
Eryri – 860; Gwyrfai – 835

Cynlluniwyd a gwnaethpwyd y tlysau llechi arbennig gan Mr Gwilym Williams, Crefftau Elidir

Gwenan Efans a Iolo Roberts, Capteiniaid Elidir gyda'u cyd-hyfforddwyr a'u 7 cwpan. Dyna beth oedd llwyddiant!

Ffion Owen (Eryri) a Huw Foulkes (Eilian) a dderbyniodd y Tlws am y mwyaf o farciau o'r llwyfan.

Kayleigh Jones (Gwyrfai) a Debbie Hughes (Eryri) a dderbyniodd y Tlws am y mwyaf o farciau ymlaen llaw.

NOSON LAWEN
S4C

Hoffech hi gymryd rhan mewn cyfres newydd sbon o'r Noson Lawen?

Dyma'ch cyfle!!

Byddwn yn cynnal gwrandawiadau ar hyd ac a lled y wlad ym mis Ionawr

Cysylltwch â Tonfedd **ERYRI**

Hen ysgol Aberpwll, Y Felinheli
Gwynedd LL56 4JS, Ffôn: 01248 671167

ATODIAD EISTEDDFODAU 2000

Eisteddfod Bethel

Cafwyd eisteddfod lwyddiannus iawn unwaith eto eleni. Dechreuwyd y gweithgareddau gyda chystadlaethau dawnsio disgo. Arweinydd y noson oedd Glenys Griffith a'r beirniad oedd Diane McBryde, Brynrefail. Dydd Sadwrn, Tachwedd 11 fe gynhaliwyd yr Eisteddfod. Roedd nifer fawr o blant wedi troi i mewn yn y prynhawn i gystadlu a braf oedd gweld y neuadd yn llawn. Gyda'r nos tro plant hynaf yr ysgol gynradd a'r bobl ifanc oedd cystadlu. Unwaith eto cafwyd cefnogaeth frwd.

Y beirniaid oedd Mrs Carys Jones, Penisarwaun (Cerdd); Mr Arwel Jones, Penisarwaun (Llefaru a Llên) a Robin Williams, Llanrug (Celf a Chrefft). Y cyfeilyddion oedd Glenys Griffith a Deilwen Hughes. Arweinyddion y prynhawn oedd Menna Dauncey Williams ac Anita Owen ac arweinydd yr hwyr oedd Iorwerth Williams. Bu Ffion Meleri, Ffion Williams, Lois a Cadi yn cynorthwyo ar y llwyfan yn y pnawn.

Yn ystod cyfarfod yr hwyr trefnwyd Gorsedd y Beirdd gan Adran yr Urdd o dan arweiniad Geraint Elis a Sian Harris. Gwen Rowlands ganodd Cân y Cadeirio gyda Rhys Wyn Hughes yn canu'r Corn Gwlad.

Disgybl Blwyddyn 6, Ceri Griffith, enillodd Tlws Llên yr Ysgol Gynradd a Ffion Meleri Owen, Tŷ'r Ysgol, disgybl Blwyddyn 11 o Ysgol Brynrefail enillodd Dlws Llên yr Ysgol Uwchradd.

Dyma'r canlyniadau:

DAWNSIO.

Disgo - Unigol Bl.1-6: 1. Ceril; 2. Kelly; 3. Sasha. **Dawnsio Pâr** Bl.1-6: 1. Ceri a Kelly; 2. Sasha a Gwenllian; 3. Hanna a Christie. Bl.7-13: 1. Rachel a Meinir; 2. Amy a Carla. **Partïon** Bl.1-6: 1. Sêr Bethel; 2. Perlau Bethel; 3. Bleming a Meinia. Bl.7-13: 1. Sêr y Mileniwm; 2. Parti Simone. Cyflwynwyd Tlws Teulu Cefn Ffrwd a thlws bychan (rhoddedig gan Rhys a Sian Harris) i Ceri Griffiths am y perfformiad unigol gorau.

CERDD.

Ysgol Feithrin. 1. Caio; 2. Mari Tachwedd a William; 3. Elan, Richard a Gethin. Bl.0: 1. Guto; 2. Gwawr; 3. Elliot. Bl.1a2: 1. Elin a Lowri; 2. Gethin a Manon; 3. Gerallt, Ilid ac Aaron. Bl.3a4: 1. Robin; 2. Catrin; 3. Enfys ac Angharad Morris. Bl.5a6: 1. Ceri; 2. Sion Foulkes; 3. Zoe. Bl.7-9: 1. Ffion Thorman. Bl.10-13: 1. Lois; 2. Huw a Ffion Williams. **Alaw Werin** Bl.6 ac iau: 1. Ceri; bl.7-13: 1. Lois; 2. Huw a Ffion Williams. **Partïon** Bl.1,2a3: 1. Parti Sêr Bethel; 2. Hogia'r Werin. Bl.4,5a6: 1. Parti Sion Foulkes a Dolis Bethel. Bl.7-13: 1. Parti Lowri. **Cerdd Dant** Bl.1-6: 1. Catrin; 2. Cai; 3. Gethin a Gerallt. Bl.7-13: 1. Ffion Williams. Parti Cerdd Dant Cynradd: 1. Parti'r Pen; 2. Parti'r Gynffon. **Unawd Piano** Bl.1 ac iau: 1. Gethin; 2. Manon; 3. Gwilym a Mared. Bl.4,5a6: 1. Ceri; 2. Sion Elwyn; 3. Marged a Sion Foulkes. Bl.7-9: 1. Huw; 2. Heulwen; 3. Manon. **Offeryn heblaw piano:** Bl.6 ac iau: 1. Dewi; 2. Sion Garth; 3. Sion Elwyn, Cai ac Aled. Bl.7-13: 1. Rhys; 2. Ffion Meleri a Heulwen; 3. Ffion Williams. **Grŵp Offerynol:** 1. Parti Rhys. Meimio i record Gymraeg: 1. Shampŵ.

TLYSAU.

Cerdd/Lleisiol Cynradd - Cwpan Boss (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Brian ac Eirlys Sharpe): Ceri Griffiths. **Cerdd/Lleisiol Uwchradd** - Cwpan Goffa Mrs Joan Foulkes (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Alun a Sheila Foulkes): Lois Wyn Hughes.

Offerynol, gan gynnwys piano. Cynradd - Tarian Goffa W.G. Ellis (tlws bach i'w gadw yn rhoddedig gan Elwyn a Deilwen Hughes): Dewi Foulkes. **Uwchradd** - Cwpan Goffa John M. Williams (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Deulu Llwyn Eithin): Huw Foulkes.

LLEFARU.

Ysgol Feithrin. 1. Caio a William; 2. Elan, Gethin, Ifan, Rhodri a Mari; 3. Catrin a Sion. Bl.0: 1. Iolo; 2. Guto; 3. Ffion, James ac Elliot. Bl.1a2: 1. Gethin; 2. Gruffydd; 3. Elin. Bl.3a4: 1. Cai; 2. Sion Elwyn; 3. Dyfan. Bl.5a6: 1. Ceri; 2. Aled Gwilym a Sion Garth; 3. Aled Griffith a Ceri Nia. Bl.7-9: 1. Huw; 2. Manon. Bl.10-13: 1. Ffion Meleri a Lois. **Partïon.** Bl.1,2a3: 1. Trên Bach yr Wyddfa; 2. Tomos y Tanc; Bl.4,5a6: 1. Parti Ella; 2. Parti Mini. **Cyflwyniad Llafar.** Bl.7-13: Grŵp Gwen; 2. Y Rebels. **Ymgom.** Bl.1-6: 1. Awyr Iach; 2. Terfel a Giggs. Bl.7-13: 1. Grŵp y Syrjeri. **Siarad Cyhoeddus.** 1. Ffion Meleri; 2. Ifan Bryn.

TLYSAU.

Llefaru Cynradd - Cwpan Arian (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Arwel a Iola Jones): Cai Jones. Llefaru Uwchradd - Cwpan Konica (tlws bach i'w gadw, thoddedig gan Gwilym ac Eirlys Williams): Ffion Meleri Owen. Tlws Siarad Cyhoeddus - Tarian Goffa Sian Robinson (tlws bach i'w gadw, rhoddedig gan Menna Dauncey Williams): Ffion Meleri Owen. Tlws Parti Llefaru Cynradd - Parti Ella.

LLÊN.

Bl.1: 1. Ffion; 2. Arwel; 3. Cadi a Lowri Ann. Bl.2: 1. Gerallt; 2. Gethin a Daniel; 3. Emily ac Ilid. Bl.3: 1. Angharad Morris; 2. Bethan; 3. Greta a Gwilym. Bl.4: 1. Robin; 2. Ffion a Sion Elwyn; 3. Cai a Dafydd. Bl.5: 1. Marged; 2. Hannah; 3. Iona, Ffion a Hefin. Bl.6: 1. Ceri; 2. James; 3. Sion Garth. Bl.10-13: 1. Ffion Meleri; 2. Ffion Williams; 3. Lois a Cadi.

TLYSAU.

Llenor Cynradd - Tlws Merched y Wawr, er cof am Miss Maggie Owen a thlws bychan i'w gadw (rhoddedig gan Gareth a Rhian Hughes): Ceri Griffith. **Llenor Uwchradd**- Tlws y Gymdeithas Lenyddol a thlws bychan i'w gadw (rhoddedig gan Collwyn a Rita Williams): Ffion Meleri Owen.

CELF A CHREFFT.

Creadigol 2D. Cylch Meithrin: 1. Kieran S.; 2. Laura; 3. Gwenllian. Meithrin: 1. Gethin; 2. Heather; 3. Catrin Angharad. Bl.0: 1. James; 2. Bethan; 3. Armando. Bl.1: 1. Lowri Ann; 2. Ffion; 3. Ilid. Bl.2: 1. Gerallt; 2. Arron; 3. Aled. Bl.3: 1. Rebecca; 2. Catrin; 3. Dion. Bl.4: 1. Sioned; 2. Jemma; 3. Aled ac Enfys. Bl.5: 1. Leon; 2. Paul; 3. Marged ac Iwan. Bl.6: 1. Sasha; 2. Gwenllian; 3. James a Kelly. Bl.7-9: 1. Elan; 2. Elan; 3. Gwion. Bl.10-13: 1. Gwen; 2. Gwen;. **Collage** Bl.0,1a2: 1. Gerallt; 2. Aaron; 3. Georgia. Bl.3a4: 1. Robin; 2. Dyfan; 3. Mollie. Bl.5a6: 1. Aled; 2. Marged; 3. James. Bl.7-9: 1. Gwion. Bl.10-13: 1. Ffion Williams. **Ffotograffiaeth** Bl.2 ac iau: 1. Gerallt; 2. Gerallt; 3. Gerallt. Bl.3a4: 1. Ella; 2. Catrin. Bl.5a6: 1. Aled; 2. Aled; 3. Aled. bl.7-9: 1. Elan. Bl.10-13: 1. Lois; 2. Lois. 3. Gwen. **Creadigon 3D:** Bl.2 ac iau: 1. Carwyn. Bl.3a4: 1. Gwilym; 2. Louis. Bl.5a6: 1. Hanna; 2. Sion. Bl.7-13: 1. Huw. **Gwaith Grŵp**. Bl.1 ac iau: 1. Gethin a Guto. Bl.3-6: 1. Aled a Ceri. Bl.7-13: Cylch o ffrindiau. **Tecstiliau** Bl.3-6: 1. Marged. Bl.7-13: 1. Elan. **Graffeg Cyfrifiadurol** Bl.2 ac iau: 1. Gerallt; 2. Gethin; 3. Carwyn ac Ilid. Bl.3-6: 1. Aled; 2. Iona; 3. Catrin. Bl.7-13: 1. Elan. **Logo:** Aled Griffith.

TLYSAU.

Cynradd (rhoddedig gan Dafydd a Margaret Williams: Aled a Ceri. **Uwchradd** (rhoddedig gan Wil a Nora Parry): Elan Rhys.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i'r plant a'r bobl ifanc am gystadlu ac i'r rhai fu'n eu hyfforddi. Diolch i'r pentrefwyr am ddod i'w cefnogi. Diolch i Mrs Breese Ysgol Brynrefail, Prifathro a staff Ysgol Gynradd Bethel, y Cylch Meithrin ac Adran yr Urdd am bob cymorth a chydweithrediad. Diolch am bob rhodd ariannol gan aelodau o'r pwyllgor, cyfeillion yr eisteddfod a busnesau lleol ac i'r rhai a drefnodd y raffl ac i bawb a atebodd ein cais am nwyddau at y gwobrau. Diolch i bawb a gyfrannodd i lwyddiant yr Eisteddfod.

Rhai o gystadleuwyr Eisteddfod Bethel.

Eilian Gwilym Hughes, Tyddyn Cae, Caeathro enillodd Gadair Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon â'r stori hon

Gwrthdaro

Ymlusgodd y tacsi drwy'r ffordd droellog at bentref Bryn Gelli. Chwifiai pennau'r haidd euraidd yn y morfeydd ffrwythlon wrth i fysedd yr awel braf chwarae â hwy. Chwibanai'r gornchwiglen yn llon yn eu plith, a gwenai'r haul i lawr o'r nen.

Oedd, mi roedd y wlad yn agos iawn at galon Bedwyr Evans, er atynfa nerthol y trefi. Roedd y wlad yn lle mor hardd, distaw a braf, ac mi fuasai Bedwyr yn ei gweld hi'n anodd troi ei gefn ar yr holl brydferthwch. Oedd, roedd ei benderfyniad yn un terfynol, a doedd o ddim am droi'n ei ôl yn awr. Roedd ei ddyfodol wedi ei gynllunio.

Suai dail y coed yn y gwynt wrth i'r tacsi dynnu i fewn o flaen adwy Fferm Cae'r Berllan. Neidiodd Bedwyr allan yn hamddenol, ac fe aeth i mofyn ei fagiau i gist ei gar. Talodd ei ffi ddrud i'r gyrrwr a ffarweliodd ag ef. Edrychodd yn fanwl ar y ffermdy cadarn. Roedd wedi heneiddio tipyn ers iddo ei weld ddiwethaf, ond daliai i fod yr un mor groesawgar a chyfeillgar.

Rhuthrodd Pero'r ci defaid ffyddlon ato'n llon gan wthio ei drwyn gwlyb i ddwylo mawr Bedwyr a chyfarth yn llawen. Anwesodd Bedwyr ef yn ysgafn a cherddodd i fyny at y tŷ. Medrai arogli persawr swynol y bara ceirch ffres, newydd ddod allan o'r ffwrn, wrth iddo gamu dros y trothwy.

'Oes yna bobl?' gwaeddodd yn uchel.

Ymddangosodd Marged Evans, mam Bedwyr, wedi heneiddio'n ofnadwy ers iddo ei gweld ddiwethaf yn ystod gwyliau'r Pasg hefyd. Roedd ei gwallt yn wyn fel y galchen ac roedd y rhychau ar ei hwyneb fel cae newydd ei aredig. Doedd ei llygaid ddim mor ddisglair ag arfer ychwaith, ac roedd ei chefn wedi dechrau crymu.

Cofleidiodd Marged gorff soled, cryf ei mab yn gariadus, a syllu i'w lygaid gleision.

'Sut wyt ti 'machgen i? Gefaist ti siwrne dda? Tyrd drwodd i'r gegin, ma gen i fara ffres i ti!'

Arweiniodd Marged ef drwodd i'r gegin at wledd fawr oedd yn ei ddisgwyl ar y bwrdd. Roedd yna gacennau o bob lliw a llun, bisgedi, a bob math o ddanteithion melys eraill. Goleuodd llygaid Bedwyr wrth weld y fath olygfa.

'Tyrd, eistedda!' anogodd Marged.

Eisteddodd Bedwyr i lawr yn y gadair gadarn a dechreuodd fwyta'n awchus.

'Ble mae 'nhad?' gofynnodd.

'Wrthi'n gorffen godro'r gwartheg mae o rwan. Mi fydd o yma mewn chwinciad chwannen! O, dyma fo ar y gair.'

Cerddodd Ifan Evans i mewn i'r gegin. Roedd yn ddyn tal, cryf a sgwâr, ac roedd ôl tywydd a gwaith ar ei wyneb cras, garw. Roedd ganddo ddwylo fel rhawiau ac roedd ei wallt tywyll eisoes wedi dechrau britho.

'S'mai, Bedwyr? Wyt ti'n iawn?' holodd a'i lais yn gryf fel taran.

'Iawn diolch, dad. Sut ydach chi?'

'Fel y boi,' atebodd. 'Wyt ti'n edrych ymlaen at ddod yn ôl yma i weithio, achos 'dwi isio help, dwi'n dweud wrthyt ti?'

'Y... ydw,' chwarddodd Bedwyr yn ffals. Doedd ei benderfyniad ynglŷn â'i ddyfodol heb boeni dim arno ers iddo ddod allan o'r tacsi, a newidiodd ei agwedd yn syth wrth iddo gael ei atgoffa.

'Wel, dewch wir, peidiwch a loetran efo'ch cegau'n agored, mae llond bwrdd o fwyd blasus yn eich disgwyl,' cyhoeddodd Marged.

Bwytaodd y tri ohonynt y wledd yn awchus. Roedd Ifan Evans yn edrych ymlaen yn fawr iawn at gael cymorth ei fab ar y fferm. Roedd o'n heneiddio'n gyflym, ac roedd crud y cymalau yn dechrau brathu i mewn i'w bengliniau. Roedd yn chwe-deg chwech mlwydd oed erbyn hyn, ac roedd eisoes yn derbyn ei bensiwn. Golygai ymddeol ychydig fisoedd ar ôl i Bedwyr ddychwelyd adref, ac edrychai ymlaen at fywyd braf a distaw.

Dros y diwrnodau dilynol, bu Bedwyr yn helpu llawer ar y fferm. Roedd yn codi am bump o'r gloch yn y bore cyn codi cŵn Caer, er mwyn mynd i mofyn y gwartheg o'r caeau i gael eu godro. Câi Bedwyr foddhad mawr yn cyflawni ei ddyletswyddau ar y fferm ond ni allai atal ei hun rhag meddwl bod ei ddyfodol yn ei ddisgwyl mewn maes arall heblaw amaethyddiaeth, a doedd ffermio ddim yn fwynhad iddo'n ddiweddar.

Bu Bedwyr yn ymweld ag ychydig o'i ffrindiau yn y pentref hefyd, a chafodd dipyn o hwyl gyda hwy. Bu'n treulio ychydig nosweithiau yn y 'Bull', lle bu'n yfed â'i hen gyfeillion.

Ond, roedd Marged wedi sylwi fod rhywbeth yn chwarae ar feddwl a chydwybod Bedwyr. Roedd o'n anarferol o ddistaw, a daliai Marged ef yn synfyfyrio'n aml. Doedd o ddim mor frwdfrydig ag arfer ychwaith ac, ar adegau, roedd ym medru bod yn weddol bigog a phiwis. Roedd yn amlwg fod rhywbeth yn ei boeni, ond nid oedd Marged yn medru synhwyro beth oedd yn bod.

Roedd bron i bythefnos wedi llusgo heibio ers i Bedwyr ddychwelyd adref o'r coleg yn Aberystwyth. Roedd o wedi bod yn gweithio'n galed ar y fferm yn helpu ei dad, ac mi fu'n dosio defaid, carthu'r siediau ac yn chwalu tail yn y caeau. Ond nid oedd yn mwynhau ei hun rhyw lawer, ac roedd ei ddyfodol yn peri problem iddo. Ni wyddai sut i dorri'r newyddion pwysig i'w rieni fod ei ddyfodol yn gorwedd ym mwrlwm cyffrous y ddinas, ble gobeithiai weithio fel rhaglennydd cyffrifiaduron. Roedd Bedwyr yn ofni brifo teimladau ei deulu'n ormodol, ac roedd o wastad yn colli ei eiriau wrth ddechrau ceisio egluro'r sefyllfa iddynt.

Ond yna, un diwrnod, fe ddaeth ei gyfle. Roedd o newydd fod yn porthi ac yn bwydo'r da byw a daeth i mewn i'r tŷ i gael ei swper. Disgwyliai lond plât o gig a llysiau ef ar y bwrdd ond roedd Bedwyr yn teimlo'n bigog oherwydd fod y benbleth ar ei feddwl. Llenwodd arogl hyfryd y wledd ei ffroenau nes gwneud i'w geg ddyfrio. Cododd ei ysbryd ychydig wrth weld, a gollyngodd ei hun i'r gadair. Eisteddai ei dad a'i fam o amgylch y bwrdd, eisoes wedi dechrau bwyta.

'Roddaist ti felan o wair i'r fuwch a'r llo yn y beudy, was?' holodd Mr Evans.

'Do, dad!' atebodd Bedwyr yn flin fel cacwn.

'Be am y ddafad gloff 'na a'i hoen, roddaist ti dipyn o *feed* iddyn nhw?'

Roedd Bedwyr yn cael ei gynddeiriogi gan yr holl holi ac roedd yn dechrau colli ei amynedd. 'Wel do siŵr, dad! Dydach chi ddim yn fy nhrystio i neu rywbeth?'

'Bedwyr! Dim ond gwneud yn siŵr dy fod ti wedi gwneud dy waith oedd o 'te! Dydi o ddim isio i'r anifeiliaid 'ma lwgu 'sti! Be' sy'n matar arnat ti? Ti'n ddiawledig o bigog yn ddiweddar 'ma! Fiw i neb siarad efo chdi!' dwrdiodd Mrs Evans.

'Does na' 'm byd yn mater efo fi! Dwi'n iawn! Rydw i'n ddigon tebol i wneud fy ngwaith yn iawn erbyn hyn siawns.'

'Wel pam wyt ti mor gas 'ta? Ti 'di newid yn aruthrol ers i chdi gyrraedd adref o'r coleg ddiawl 'na! Dwn i ddim be' sy' 'di dod drosta chdi wir! atebodd Mr Evans a'i dymer yn dechrau codi.

'Iawn 'ta! Os ydach chi eisiau gwybod y gwir, yna mi ddyweda i wrthych chi! Dydw i ddim eisiau gweithio ar y fferm yma ddim mwy! 'Dwi 'di cael llond bol ar y blincin lle 'ma! Dydi o ddim werth yr holl strach!' bloeddiodd Bedwyr yn wyllt.

Disgynnodd ceg Mr Evans yn agored, aeth ei wyneb yn welw fel ysbryd a syllodd yn fud ac yn syn ar Bedwyr.

'Nefoedd annwyl yr adar, pam Bedwyr? Roeddwn i'n meddwl dy fod yn mwynhau dy hun yma! Pam wyt ti 'di newid dy feddwl mor sydyn?' holodd Mrs Evans yn daer.

'Dyda chi ddim 'di gwneud dim o'i le! Sbiwch o ddifrif calon ar sefyllfa amaethyddiaeth heddiw! Mae'r achos yn ddifrifol o wael! Does yna ddim pwynt dal ati ddim mwy! Does yna ddim mwynhad ynddo, ac yn sicr does yna ddim arian! Be' arall ydach chi'n ei ddisgwyl i mi ei wneud?' protestiodd Bedwyr.

O'r diwedd cafodd Mr Evans hyd i'w dafod ar ôl derbyn yr ergyd galed gan Bedwyr.

'Dydw i ddim yn dy ddeall di o gwbl! Roeddet ti mor frwdfrydig. Be' sy' 'di digwydd i chdi? Iesu Grist, mae'n teulu ni 'di bod yn rhedeg y fferm yma ers pedair cenhedlaeth, ac yna ti'n dod yma a dweud dy fod ti am adael y blydi fferm!'

Erbyn hyn roedd wyneb Mr Evans yn goch fel tomato a theimlai ei waed yn berwi. Roedd Bedwyr wedi dychryn hefo'i ymateb, ac roedd yntau yn dal i fod yn chwyrn.

'Ylwch, mae 'na lawer mwy o arian yn y ddinas. Mae yna fywoliaeth llawer brafiach yno a dyna ble mae fy nyfodol i. Mae sefyllfa amaethyddiaeth yn gwaethygu bob diwrnod a dydw i ddim yn gweld fy nyfodol i yn gorwedd yma'n Cae'r Berllan!' bloeddiodd Bedwyr mewn gwylltineb.

'Ond roedd popeth yn edrych mor dda! Be' sy'? Dy ffrindiau ddiawl yn y blydi coleg 'na 'di dy berswadio di, ia? Y diawlad bach, roeddwn i'n gwybod mai camgymeriad oedd dy yrru di i'r twll lle 'na!' gwaeddodd Mr Evans.

'Ond be' wyt ti'n mynd i wneud, Bedwyr?' gofynnodd Mrs Evans.

'Dwi am fynd i weithio fel rhaglennydd cyfrifiaduron i'r ddinas. Mae gen i'r holl gymwysterau ond does, ac roedd gen i ddiddordeb mawr yn y cwrs gradd 'na'n y coleg Cyfrifiaduron yw dyfodol popeth, dydach chi ddim yn deall?'

'Nadw, dydw i ddim yn deall be' uffar sy' 'di dod dros dy ben twp di'r diawl gwirion! Dwyt ti ddim 'di meddwl amdanom ni'r y fan yma, naddo! Ti'm eisiau gweithio ar rhyw lol wirion fel blydi cyfrifiaduron nag oes Callia hogyn.'

'Ylwch, dad. Dydych chi ddim yn cael dweud wrthyf be' i'w wneud. Fy mywyd i yw o, ac mae'r penderfyniad yma'

mynd i effeithio ar y gweddill ohono! Does 'na ddim troi'n ôl rwan, dwi 'di gneud fy mhenderfyniad.'

'Ond, be' am y fferm? Roedd dy dad wedi meddwl ymddeol ar ôl i chdi gyrraedd adref. Pwy fydd yma i'w rhedeg hi rwan?' cwynodd Mrs Evans.

'Ia, rwyt ti'n mynd i'n gadael ni yma ar ein pen ein hunain. Be' nawn ni?'

'A be am enw da'r teulu? Rydym ni'n deulu parchus ac mi fydd y stori'n fêl ar fysedd trigolion y pentref a phawb yn hel clecs.'

Roedd Bedwyr yn dechrau cael digon ar yr holl areithio gan ei rieni.

'Rydych chi ond yn medddwl am eich lles eich hun ond ydych chi? Dydach chi ddim hyd yn oed yn trio edrych o fy safbwynt i. Mae o'n fy mrifo i hefyd chi. Dwi'n mynd i fy ngwely. Nos da!'

Neidiodd Bedwyr i fyny o'i sedd a charlamodd i fyny'r grisiau fel milwr, gan adael ei rieni'n syllu'n fud ar ei gilydd. Roedd dagrau'n cronni'n llygaid y ddau ohonynt.

'Be' wnawn ni rwan, Marged?'

'Dwn i ddim Ifan. Dwn i ddim wir!'

Bu'r ddau ohonynt yn trin a thrafod y sefyllfa hyd oriau mân y bore. Mi fuodd yna lawer o ddadlau rhyngddynt, ac roedd calon Ifan wedi ei brifo'n ofnadwy.

Ni allai Bedwyr gysgu ychwaith a bu'n gwrando ar eu sgwrs. Roedd ei galon yn gwaedu dros ei rieni a theimlai ei fod wedi cyhoeddi'r newyddion yn rhy greulon wrthynt.

Fe gynigiwyd llawer o syniadau gwahanol gan Mr a Mrs Evans. Rhai o'r syniadau mwyaf addawol oedd prydlesu'r fferm i rywun, neu logi rheolwr fferm newydd. Ond, roedd un syniad yn fwy amlwg na'r gweddill, ac yn gallach. Gwerthu'r fferm.

Roedd y ddau ohonynt yn gweld hyn yn beth ofnadwy o anodd i'w wynebu, ond roedd yn rhaid gwynebu'r gwirionedd. Doedd dim dyfodol iddyn nhw ar y fferm. Mi fuasai'r arian o arwerthiant y fferm yn ddigon i'w cynnal am weddill eu bywydau. Ar ôl trafodaeth ddwys, flinedig a hir, penderfynwyd mai'r syniad doethaf fuasai gwerthu'r fferm. Ar ôl llyncu ambell wydraid o wisgi, fe lusgodd Mr Evans ei hun i'w wely cyfforddus, i freuddwydio a myfyrio.

Dros y tridiau dilynol mi allech chi fod wedi torri'r tensiwn â chyllell. Roedd yr awyrgylch yn gas a phigog ac roedd pawb yn tynnu'n groes i'w gilydd. Serch hynny, roedd pawb yn cyflawni ei waith ei hun ar y fferm ond roedd y syniad o werthu'r fferm yn pwyso'n drwm ar feddwl Mr a Mrs Evans.

Yna, amser cinio ar y pedwerydd diwrnod ar ôl y ffrae, fe benderfynodd Mr Evans ddatgelu ei syniadau at y dyfodol i Bedwyr.

'Rydw i a dy fam wedi bod yn meddwl a thrafod yn ddwys ynglŷn â'n dyfodol yma yn Cae'r Berllan ar ôl clywed dy fod am ein gadael ni,' dechreuodd Mr Evans, a chryndod yn amlwg yn ei lais.

'A be' 'dach chi 'di benderfynu?' holodd Bedwyr yn eiddgar.

'Arhosa am dipyn bach wnei di. Hoffen ni i chdi wybod ein bod ni wedi'n siomi'n fawr ynddot ti, a fuaswn i erioed yn meddwl y buasai'r sefyllfa'n dod i hyn. Rwy'n parchu dy benderfyniad, gan mai dy fywyd di ydi o, ond rwyf i wedi fy synnu 'de. Felly, gan nad oes dim dyfodol i ni fel teulu yma yng Nghae'r Berllan... rydan ni wedi penderfynu gwerthu'r fferm,' eglurodd Mr Evans yn ei lais cadarn.

Nodiodd Bedwyr ei ben mewn cytundeb.

'Mi ffendia i rywle yn y pentref 'sti. *Plenty more fish in the sea* fel mae'r Saeson yn ei ddweud,' chwarddodd Mr Evans yn ffals.

'Mae'n ddrwg iawn gen i am wneud hyn i chi dad... a mam.'

'Mae'n ddrwg gen i hefyd Bedwyr, yn ddrwg iawn.'

Bu arwerthiant fferm Cae'r Berllan yn llwyddiant enfawr, a chafodd Mr a Mrs Evans swm go sylweddol o arian i gynnal gweddill eu bywyd. Sais dieithr a brynodd y fferm, a chafwyd hyd i fwthyn bach twt ger y pentref i Ifan a Marged dreulio gweddill eu bywyd ynddo. Mi aeth Bedwyr i fyw mewn fflat yn y brifddinas yng Nghaerdydd ble cafodd waith fel rhaglennydd cyfrifiaduron. Dabtlygodd y berthynas rhwng Bedwyr a'i dad i fod yn un eithaf clos, ond ni allen nhw anghofio digwyddiadau'r wythnos honno, ac ambell waith, ymddangosai ben annifyr y tensiwn rhyngddynt o rywle.

Eisteddfod Bentref Penisarwaun

Cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus ar nos Wener, 20 Hydref ym Mhenisarwaun. Braf oedd gweld cymaint wedi cystadlu ym mhob adran. Roedd safon y gwaith yn uchel ac yn achosi trafferth i'r beirniaid i ddewis enillydd yn aml iawn.

Dywedodd Mr John Meirion Morris, y Beirniad Arlunio, "Mae'r safon arlunio yn yr Eisteddfod hon yn dda. Y peintiadau gorau ydi'r plant hynny sydd wedi mynegi eu teimladau mewn lliw, ton a ffurf yn effeithiol." Roedd ei sylwadau ar ddatblygiad y plant yn yr adran arlunio o gymorth mawr i'r athrawon a'r rhieni. Dyma rywun sy'n gwerthfawrogi y 'llanast' a 'sgribl' plant bach ac yn gweld yn hynny symbolau o fyd y plentyn.

Cystadleuaeth newydd oedd 'unrhyw lun wedi'i wneud ar gyfrifiadur' ac roedd yn un poblogaidd iawn efo'r safon gorau o'r gwaith adran Arlunio. Roedd y plant yn ffodus o gael cymorth gan yr ysgol a defnyddio'r cyfrifiaduron yno. Roedd staff yr ysgol wedi bod yn gweithio'n galed mewn sawl adran arall hefyd, yn cynhyrchu gwaith ar gyfer yr adrannau Rhyddiaith ac Arlunio.

Llywydd y noson oedd Mr Trystan Larsen, Prifathro Ysgol Rhostryfan. Cafodd y plant, yn enwedig yr hogia, hwyl yn clywed straeon o 'misspent youth' y prifathro hwn! Carys Edwards a Mair Penri o'r Bala oedd ein Beirniaid Cerdd ac Adrodd ac fe gawsom hwyl yn eu cwmni.

O gyfraniad yr oedolion i'r noson, roedd 'Cyflwyniad Dramatig' gan deuluoedd Phillips (Tai Arthur) a Jones (Bryn Eglwys) a phortread Merched y Pwyllgor o 'Defaid William Morgan' (ynteu 'Defaid Eifion Harding') yn hwyliog iawn. Enillydd cystadleuaeth gorffen limrig oedd 'Blodyn' (Miss Dilys Mai Roberts)

Aeth genod y pentref i ddawnsio
Yn grand yn eu dillad Bolero,
Ond syrthio wnaeth un,
Yn fflat ar ei thin;
O! Glywosch chi roed y fath gwyno!

Hwyl ydi'r Eisteddfod hon yn bennaf. Cyfle i'r pentref ymuno â'i gilydd, meithrin talentau'r plant a mwynhau'r cyfoeth o dalentau lleol. Diolch yn fawr i bawb a gystadlodd, y beirniaid, a phawb fu'n helpu ar y noson.

Canlyniadau Eisteddfod Bentref Penisarwaun

Adrodd
Uned Feithrin: 1. Cai; 2. Ifan. Bl.Derbyn: 1. Sophie; 2. Harri; 3. Tomos. Bl.1a2: 1. Sion Dafydd; 2. Catrin; 3. Catrin Heledd/Kieran. Bl.3a4: 1. Annest; 2. Anna; 3. Guto/Andrew. Bl.5a6: 1. Iolo; 2. Rhian. Parti Adrodd cynradd: derbyniodd Parti Leanne Gwpan Mr Bob Williams. Bl.7a8: 1. Manon; 2. Luke; 3. Jenny/Sarah. Parti Adrodd Oedolion: Parti'r Pwyllgor. Cyflwyniad Dramatig: Teuluoedd Phillips a Jones.

Cerdd
Uned Feithrin: 1. Cai/Daniel; 2. Nia/Ifan. Bl.Derbyn: 1. Sophie; 2. Tomos/Clare; 3. Harri/Molly. Bl.1a2: 1. Sion Dafydd; 2. Kieran; 3. Catrin Heledd. Derbyniodd Sion Dafydd Gwpan E. Porter. Parti Canu Bl.1a2: Derbyniodd Parti Cai Gwpan Ann Thomas. Bl.3a4: 1. Anest; 2. Elin; 3. Rebecca/Anna. Parti canu oedran cynradd: Derbyniodd Parti David Gwpan Miss Phyllis Elllis. Bl.5a6: 1. Lois; 2. Bethan; 3. David. Piano oedran cynradd: 1. Lois; 2. Elin; 3. Llyr/Anna. Bl.7,8a9: 1. Elin Mai Jones; 2. Stephanie (Nant Peris); 3. Sioned/Anest. Dawns: 1. Anest Eifion/Anest Jones. Bl.10-13: 1. Cenin. Piano Uwchradd: 1. Erin; 2. Elin Mai Jones; 3. Matthew. Parti Deulais: 1. Parti Erin. Cân Ysgafn: 1. Elin Mai Jones; 2. Lois; 3. Cenin. Unrhyw Offeryn: 1. Lois; 2. Jenny/Luke. Deuawd: 1. Erin a Cenin. Mein i record Gymraeg: 1. Jenny a Luke. Grwp Cân Ysgafn: Parti y Pwyllgor. Parti Canu Oedolion: 1. Parti'r Dynion; 2. Parti'r Merched.

Llên
Bl.Derbyn: 1. Sophie; 2. Molly; 3. Nathan. Bl.1a2: 1. Hannah; 2. Catrin; 3. Aled, Elliw, Elen Gwenllian, Catrin Heledd. Bl.3a4: a. Anna; 2. Anest; 3. Andrew. Bl.5a6: 1. Lois; 2. Rhys; 3. Elin, Bethan, Catrin, Gethin, Awen, Iolo. Rhyddiaith Bl.7,8a9: 1. Sioned Alaw.

Barddoniaeth
Bl.7,8a9: 1. Jenny. Gorffen Limrig: 1. Dilys Mai Roberts.

Coginio a Gwaith Llaw
Uned Feithrin: 1. Daniel/Nia/Jo; 2. Cai/Ifan/Mared; 3. Bethan /Iori/Eva. Bl.Derbyn: 1. Clare; 2. Sophie. Bl.1a2: 1. Sion Dafydd; 2. Carwyn/Sion Llwyd; 3. Kieran/Catrin Heledd.

Coginio
Bl.2 a iau: 1. Sion Llwyd; 2. Kieran; 3. Catrin Heledd. Bl.3a4: 1. Lois; 2. Rebecca; 3. Andrew/Anest. Oedran cynradd: 1. Chris; 2. Cacen draenog/Dion; 3. Rebecca. Bl.5a6: 1. Llyr R.; 2. Rebecca/Awen; 3. Lois/Llyr H.; Bl.7,8a9: 1. Sioned Alaw; 2. Sara; 3. Jenny. Bl.7,8a9: 1. Sioned Alaw; 2. Aneset Eifion; 3. Jenny/Sara. Oedolion (gwaith llaw) 1. Lois Jones; 2. Phyllis Ellis; 3. Jan Sandham/Alison Donnelly. Oedolion (coginio): 1. Rebecca; 2. Elaine; 3. Marina.

Arlunio
Uned Feithrin: 1. Eva; 2. Nia; 3. Daniel. Bl.Derbyn: 1. Sophie; 2. Nathan; 3. Clare. Bl.1a2: 1. Elen; 2. Sion Dafydd; 3. Sion Llwyd. Bl.3a4: 1. Anest; 2.

i'w barhau ar dudalen VIII

Prif Lenor Eisteddfod Penisarwaun
Lois Eifion

Y Milwr Rhufeinig

Yn y ganrif gyntaf bu hanes teulu bychan. Pen y teulu. Y milwr yw Plautius, ei wraig Livia a'i blentyn Marcws. Roedd Plautius yn filwr a oedd yn gweithio yn galed iawn. Roedd yn gorfod gwneud hyn, gwneud llall, gwneud hyn a phopeth arall, ond, mae'r stori yma'n eithriadol o drist, ond y teulu sydd wastad mewn trwbwl...

Roedd Palutius yn ddyn tal iawn. Roedd o'n 1.74m o dal ac yn byw mewn tŷ to gwellt gyda'i wraig Livia a'i blentyn Marcws. Roeddynt i gyd yn byw mewn pentre bach o'r enw Pompeii yn Rhufain. Gwaith Plautius oedd gweithio i'r Ymerawdwr Augustus, ond roedd o yn cwyno fod yr arfau a oedd yn ddefnyddio yn rhy drwm o lawer iddo ac ei helmed ac yn y blaen mor drwm â charreg. Beth bynnag, roedd Livia yn hollol onest. Os oedd rhywbeth angen ei esbonio roedd Livia yno yn esbonio popeth ac yn wir hefyd. Ond roedd Marcws bob amser yn genfigenus o'i dad. Roedd o eisiau ymuno â'r rhyfel hefyd ond doedd o ddim yn unarddeg oed ag o eisiau ymuno â'r rhyfel, dim ffiars o beryg.

Trannoeth fe aeth Plautius, Livia a Marcws i'r Colosseum i weld pobl yn lladd anifeiliaid a rasus ceffylau rhyfel. Roedd Plautius wrth ei fodd yn gweld hyn, roedd pobl fel ef yn hoff o bethau fel hyn. Roedd Livia wedi pwdu oherwydd doedd hi ddim yn hoff o weld anifeiliaid yn cael eu lladd. Ond tra roedd Plautius yn curo ei ddwylo mewn cymeradwyaeth a Livia gyda ei phen yn ei phlu, roedd Marcws yn breuddwydio y byddai o yn sefyll yng nghanol llawr y Colosseum yn lladd anifeiliaid gwyllt. Ond wedyn daeth y rasus cerbydau rhyfel gyda cheffylau, cartiau, chwip ac yn y blaen. Pwy bynnag oedd yn ennill, roeddynt yn cael llond pwrs o arian, felly os oedd y dorf yn cefnogi rhwyun oedd yn cymeryd rhan yn y cystadlu, mi roedd y 55000 o bobl yn codi ar eu traed mewn cymeradwyaeth i enillydd yr arian.

Ar ôl noson dda o gwsg, cychwynodd Marcws i'r ysgol. Dywedodd ei athrawes wrth y dosbarth i wneud Mathemateg trwy'r bore. Estynnodd Marcws ei stiliws (sef ei feiro wedi ei wneud allan o asgwrn) ac ei bapur (sydd wedi ei wneud allan o gŵyr). Prif wersi y dosbarth oedd darllen, ysgrifennu a rhifo. Pan fyddai Marcws yn dair ar ddeg oed byddai yn cael dysgu sut i fod yn filwr ac ymddwyn yn ddewr fel ei Dad ac yn cael gadael yr ysgol. Roedd yn edrych ymlaen i hynny.

Erbyn i Marcws ddod adref roedd Livia wedi gwisgo ei stola a'i siôl, ac roedd yn edrych yn smart iawn.

Yng ngwaith Plautius, nid yn unig ymladd roeddynt yn gorfod ei wneud, roedd o yn gorfod dysgu marchogaeth, nofio, gorymdeithio ac ymladd braich ac ysgwydd. Yn ychwanegeol roedd Plautius yn gorfod adeiladu traphontydd dŵr a ffyrdd Rhufeinig. Y bont fwyaf roedd wedi adeiladu oedd yr Aqua Claudia.

Roedd Livia wedi mynd i'r baddonau poeth i ymlacio ar ôl y gwaith caled roedd wedi wneud yn y tŷ. Roedd mynd i'r baddonau yn rhywbeth cyffredin iawn yn Rhufain. Roedd dewis rhwng baddonau poeth ac oer. Ar ôl i Plautius ddod adref, i Livia ddod adref o'r baddonau ac i Marcws ddod o'r ysgol, cafodd y tri bryd bwyd. I ddechrau cafodd y tri fara ac uwd. Dyna beth yw'r prif beth maent yn gael i ddechrau. Yna cafodd y tri ddewis. Cafodd Plautius estrys wedi ei ferwi, cafodd Livia fflamingo wedi ei ferwi a cafodd Marcws garw wedi ei rostio. Yna, cafodd y tri bwdin sef cacen a saws gwaed sydd yn wahanol iawn i'r arfer.

Cyn bo hir, gorffennodd y teulu eu prydau yn ddigon cyflym. Yna cychwynnodd Plautius a Livia i'r gwaith gan adael eu mab adref i wneud ei waith cartref. Yna, meddyliodd,

'Tybed ydi Dad wedi mynd a'i gleddyfau efo fo?'

Yna aeth i ystafell ei Dad a'i Fam, ac estyn y cleddyf pren a wedyn gwisgodd yr helmed ac yna aeth i'r drych a smalio ei fod yn filwr. Aeth braidd yn ddiflas, wedyn gwelodd y cleddyf go iawn, yr un aur disglair gyda diamwntiau arno. Estynnodd amdano a gwneud yr un peth. Diflasodd eto ond cariodd ymlaen. Mewn camgymeriad disgynnodd Marcws ar y llawr a disgynnodd y cleddyf i'w fol mewn camgymeriad. Yno yr oedd Marcws yn gorwedd ar y llawr a llifodd y gwaed. Yno y bu farw.

Pwy ddychwelodd adref ond Plautius a Livia. Wel, pan welodd ei Dad a'i Fam hyn roeddynt wedi dychryn. Roeddynt yn ceisio gweithio allan sut oedd Marcws wedi marw. Roeddynt yn trio bob ffordd. Yn gyntaf, fe drio'n nhw ddyfalu drwy ddweud,

'Falle ei fod wedi disgyn a taro ei ben yn y gleddyf.'

'CLEDDYF!' gwaeddodd Livia cyn i Plautius gymeryd ei wynt.

'Sut ddaeth y cleddyf i'r fan hyn?' holodd Plautius yn syn.

'Mae'n rhaid bod...'

Oedd roedd y ddau yn iawn, mi roedd y mab wedi bod yn chwarae gyda cleddyf Plautius ond camgymeriad oedd o.

Ar ôl y drychiolaeth, bu rhaid i'r ddau riant fyw yn unig fel dwy lygoden eglwys. 'Roedd y ddau yn methu a byw heb eu hannwyl fab. Felly, penderfynodd y ddau farw. 'Doeddynt yn bwyta na yfed dim byd. Tynged y tri oedd marwolaeth.

Lois Eifion, enillydd Tlws yr Adran Gynradd yn Eisteddfod Penisarwaun.

Enillydd Cadair Eisteddfod Bentref Llanrug
Sian Green

Y Ffin

Ar drothwy'r flwyddyn 2000 eisteddai'r Hen Fileniwm ar ei gorsedd gan lewyrchu ar y mil o flynyddoedd y bu yn ei llywodraethu. Rhaid egluro o'r cychwyn, er mwyn iddi gael y gwerthfawrogiad a haedda, mai nad gwaith hawdd o bell ffordd oedd bod yn fileniwm. I gychwyn, rhaid oedd cadw trefn ar ei llu o weithwyr. Ypwysicaf o'r rhain oedd y canrifoedd. Rhaid oedd cyfathrebu a chydweithio'n agos â phob un ohonynt yn eu tro, a dod i adnabod eu nodweddion unigryw eu hunain. Wedyn rhaid oedd bod yn ben ar y degawdau a'r blynyddoedd, y misoedd a'r diwrnodiau, yr oriau, y munudau a'r eiliadau! Llygad fanwl yn unig a wnâ'i tro i ofalu amdanynt i gyd. Dyna pam, ers rhyw ganrif bellach, wrth iddi fynd yn hŷn ac wrth i ddyn dyfu'n fwy anufudd, cyflogai is-reolwr i gadw trefn ar unrhyw beth llai na dydd, i'w cadw i fynd yn gyson ac esmwyth. Gan ei bod yn ymwybodol fod y Ffin yn nesau, penderfynodd yr Hen Fileniwm fynd i ysgrifennu rhyw bwt yn ei misiadur am uchelbwyntiau ac iselbwyntiau ei chyfnod hi fel y mileniwm.

Rhagfyr 1999
Annwyl Fisiadur
Ysgrifennaf rhwng dy gloriau euraidd am y tro olaf fel Brenhines Amser. Er yr holl helyntion a'u hwynebais rhaid cyfaddef mai torcalonnus fydd trosglwyddo'r baich i fileniwm arall.

Cofiaf y Nos Calan hwnnw, wrth ddisgwyl wrth y Ffin i'm rhagflaenydd fy nghyrraedd a machludo. Roeddwn yn llawn brwdfrydedd a gobaith ieuenctid, fy mryd ar ddatblygu'r byd. Yr adeg honno, ychydig a sylweddolwn faint yn union a ddatblygai'r byd, faint y datblygai dyn. Rhaid cyfaddef i mi gael fy syfrdanu gan lawer o ddyfeisiadau dyn megis y bin ysgrifennu. Datblygodd o fod yn luniau ar waliau, llechen ar lechen nes cyrraedd y beiro. A phwy feddyliai nad oes angen pin ac inc mwyach, ond y gellir cyfathrebu drwy wasgu nifer o fotymau gyda llythrennau wedi eu hysgrifennu arnynt!

Oedaf, un funud fach cyn elo'r haul o'r wybren, i gofio am rai profiadau sydd wedi eu storio blith drafflith hyd fy nghof gan wneud y gwaith o'u cofnodi yn ganwaith anos. Creithwyd f'atgofion gan feionets y Rhyfel mawr ac fe'u gwenwynwyd gan bŵer atomig yr ail. Dyna olygfa sy'n fy nychryn o hyd, Hitler a'i ystym iasol.

Do, fe'm brawychwyd yn fynych gan ddyn a'i erchyllterau. Fe'm rhyfeddwyd hefyd gan ei ddoniau. Mae'n rhyfedd gen i sut gall pethau mor ddibwys, crychod dros dro neu gysgodion craith ar ddiarcholl ehangder mawr y bydysawd, amrywio ar raddfa mor eang. O gyfansoddwyr athrylithgar, fel Beethoven a'i Symffoni Bastoral, sy'n ein

hudo i fannau arallfydol gan ddeffro eithafion ein hemosiynau, i unbennau treisgar sy'n ymffrostio yn y boen a achosant i eraill.

Mae amser yn prinhau, y ffin yn nesau, y nen yn tywyllu a minnau'n raddol ddiweddau. Anodd yw meddwl am glo priodol, felly arwyddaf,

Hen Fileniwm (1,000-2,000)

Ac yn yr eiliadau olaf hynny o lewyrchu ar y gorffennol y cyrhaeddodd popeth gyflwr o dawelwch di-lychwin, pur lonyddwch. Rhywbeth nas profasai'r Hen Fileniwm erioed gan ei bod yn fynnych wedi gorfod cofnodi pob eiliad. Roedd pobman o'i chwmpas yn heddychlon. Nid oedd na thician cloc tragwyddol i'w glywed na chysgod cwmwl dros yr haul. Disgwyliai'r holl fyd. Ni feiddiai frigau'r coed ollwng ebychiad yn yr awel. Daliai'r awel hithau ei gwynt.

Edrychodd yr Hen Fileniwm o'i chwmpas gan ddisgwyl gweld golygfeydd toreithiog yn ymestyn i bob cyfeiriad. Golygfeydd tebyg i fachludau haul gogoneddus ble'r ymdoddai i'w gilydd wawriau cynnil mewn modd nad allai rhywun â dawn Monet mo'u hamgyffred na'u hefelychu.

Wedi'r cwbl, dyma'r Ffin. Dyma'i marwolaeth hi a genedigaeth mileniwm arall. Dyma fonyn gwareiddiad, y man y gwreiddiai popeth a fodolai ohoni.

Yma, fe arhosai popeth yn ei unfan. Onid arhosai amser yn ei unfan ar y Ffin? Wrth y Ffin, ni fodolai amser.

Dim oriau, munudau, eiliadau. Onid yma oedd y gwir fan lle y gellid aros ennyd i gofio am y pethau anghofiedig – y chwedlau cain neu eiriau'r ieithoedd diflanedig? Oni haeddai brenhines a deyrnasodd am fil o flynyddoedd well ffarwèl na hyn?

Fe'i dadrithiwyd. Derbyniodd yr Hen Fileniwm na châi'r un ddefod i'w hebrwng i'w therfyn. Yr unig olygfa a'i hwynebodd oedd tirlun moel. Dim ond niwl a tharth.

Clywid cyfri yn y pellter:
'DEG!'
Dallwyd yr Hen Fileniwm am ennyd gan olau llachar yn dod i'w chyfeiriad. Y Fileniwm Newydd.
'NAW!'
Arhosai'n ddiamynedd y tu draw i'r Ffin, pob ystum o'i chorff yn ysu a gwingo am gael ei rhyddhau o'i chocŵn.
'WYTH!'
Wynebai'r ddwy ei gilydd fel dau geiliog mewn talwrn a'u crafangau yn finiog barod.
'SAITH!'
Y ddau gribog yn gwybod, er fod blynyddoedd o brofiad gan un, mai'r bychan fyddai'n ben oherwydd ei hegni a brwdfrydedd amrwd.
'CHWECH!'
Llusgai un yn glwyfus a musgrell. Roedd mil o flynyddoedd eisoes wedi ei chreithio. Ni allai brathiadau barus y llal mo'i niweidio bellach.
'PUMP!'
Nesai'r ddwy at ei gilydd. Eginai un enaid tra gwywai'r llall.
'PEDWAR!'
Trwy len niwlog ei llygaid, craffodd yr Hen Fileniwm ar ddisgleirdeb dallol ei holynydd. Ni allai gredu ei llygaid!
'TRI!'
Doedd dim Mileniwm Newydd! Roedd cannoedd o bethau bach a edrychai'n union fel hi ei hun neu unrhyw Fileniwm arall ond ganwaith yn llai! Ystumiai a llithrai rheini'n flith draphlith dros ei gilydd fel llond llaw o gynrhon ymbelydrol.
'DAU!'
Wrth gwrs! Degawdau oeddynt! Roedd yno gant degawd yn hytrach nag un mileniwm. Beth goblyn oedd yn mynd ymlaen, tybed?
'UN!'
Rhedodd rhyw egni gwefreiddiol drwy ei chorff. Fe'i dallwyd gan y trydan claerwyn a gynhyrchent. Troellodd canrifoedd o hanes yn ei phen. Ymosododd y degawdau arni gan orchuddio ei chorff yn llwyr. Cwffient i gael gafael ar ddarn o'i chorff. Crafangent fel gelenod. Sugnent ei hanadl, ei phrofiad, ei chof, a'i bywyd. Pylodd yr egni. Diflanodd yr atgofion.
'MILENIWM NEWYDD DDA!'

Draw ymhell, bell i ffwrdd yn Nheyrnas Nefoedd, ar gwmwl bach anghysbell, eisteddai Duwies newydd-freintiedig. Fe'i coronwyd yn union ar gychwyn y flwyddyn dwy fil. Lledai gwên ysmala dros ei hwyneb wrth wylio'r dathliadau'n parhau ar y ddaear tra llewyrchai ar y tro ffodus a gafodd, y tro ffodus a ddaeth a hi i'r fan hyn.

Ni allai goelio pa mor dwp fu'r Bod Mawr Ei Hun yn penderfynu newid cyfundrefn llywodraethu Treigl Amser. Wedi magu un o weledigaethau llai medrus dynol ryw oedd Duw – roedd wedi penderfynu rhedeg pethau ar ffurf fodiwlar. Yn union fel yr oedd cyfarwyddwyr addysg y ddaear wedi ei wneud! Dylai Duw wybod na weithiau hyn o gwbl. Perthyn y ddelfryd o well rheolaeth, gwell trefn a gwell cysondeb, trwy ddod a chynllun fodiwlar i mewn i fodolaeth, i bobl twp na ddylai fod mewn swydd a'u galluogai i wneud y math benderfyniadau lloerig, meddyliodd yr Hen Fileniwm wrthi ei hun. Nid oedd y ffaith fod yr awennau yn cael eu trosglwyddo i rywun arall bob deng mlynedd yn mynd i rrwystro dyn a'i ddrygau o gwbl.

Ffolineb noeth, meddai wrthi ei hun. Yna sylweddolodd nad oedd wedi gwneud yn rhy ddrwg allan o'r holl smonach yma. Oherwydd newid strwythr llywodraethu'r mil o flynyddoedd nesaf a chan mai hi oedd yr olaf o'r gwir Fileniymau cafodd ei hanrhydeddu â chwmwl a theitl parchus. Gan daflu cipolwg arall o'i chwmwl siâp mil i lawr at y ddaear gwenodd Ei Mawrhydi – Melani Ein Mileniwm Olaf unwaith yn rhagor gan feddwl am yr holl ffrwgwd a arhosai pob un o'r degawdau diniwed, di-dyb. Buodd hi'n ffodus i'r twll yn yr haenen Osôn, helynt y cropiau GM, AIDS a CJD gychwyn ar derfyn ei theyrnasiad hi, a phwy a ŵyr beth arall ddatblygai o ddychymyg dihysbydd dyn! Rhwydd hynt iddynt! Câi wylio'r cyfan o ddiddosrwydd diogel ei chwmwl! Ie wir, ochneidiodd, gan ddylyfu gên yn ddiog, 'Mileniwm Newydd Dda!'

Eisteddfod Bethel

Eisteddfod Gwaun Gynfi

Cyfarfod Pnawn Sadwrn

Ysgol Feithrin

Adrodd – 'Fi yw'r gore'. Plant bora: 1. Catrin Gruffudd; 2il i bawb arall. Plant prynhawn: 1. Steffan; 2. Lee, Catrin a Iola; 3. Rhys, Llyr a Lliwen. Canu – 'Clap, clap, clap'. Plant bora: 1. Mari; 2. Tomos a Catrin; 3ydd i bawb arall. Plant prynhawn: 1. Catrin Jones; 2. Iola; 3. Lee. Celf – 1. Rhydian Williams; 2. Catrin Gruffudd; 3. Tomos Williams. Gwaith Llaw – 1. Steffan Jones; 2. Catrin Gruffudd; 3. Mari Jones. Gwaith Llaw – Rhys Llywelyn; 2. Daniel Jones; 3. Iola Bryn.

Dosbarth Meithrin

Celf – 1. Daniel Jones; 2. Steffan Warner; 3. Rhys Llywelyn.

Blwyddyn O

Adrodd 'Ydio'n wir hefyd?' 1. Heddwen; 2. Jack; 3. Kelsey. Canu 'Tair hwyaden dew'. 1. Heddwen; 2. Ffion a Jack; 3. Kelsey, Katie a Hayley. Celf – 1. Gerwyn Jones; 2. Ffion Jones; 3. Hayley Green. Gwaith Llaw Bl.0,1,2 – 1. Owain Llyr; 2. Elin Angharad; 3. Rhys Llywelyn. Coginio Bl.0,1,2 – 1. Natasha Thomas, Angharad Owen a Gwion Rhys; 2. Owain Llyr, Osian Rhys a Jack Ynyr; 3. Elin Angharad, Rhys Llywelyn a Damien Christopher.

Blwyddyn 1 a 2

Adrodd 'Tiwn Gron Mam'. 1. Mandy; 2. Ffion; 3. Christopher a David. Canu 'Glan y môr'. 1. Dwynwen; 2. Mandy; 3. David. Celf Bl.1 – 1. Danniella Harris; 2. Cari Roberts; 3. Sophie Taylor. Celf Bl.2 – 1. Gwion Rhys; 2. Owain Llyr; 3. Ffion Wyn Jones.

Blwyddyn 3 a 4

Adrodd 'Dyn Eira'. 1. Daniel Elllis. Canu 'Cariad Mam'. 1. Ffion; 2. Daniel a Kimberley; 3. Stephanie ac Ashley. Celf Bl.3 – 1. Arwyn Maxwell; 2. Gwenno Morris; 3. Cadi Haf Murphy. Celf Bl.4 – Manon Jones; 2. Natalie Owen; 3. Ashley McGuigan. Gwaith Llaw Bl.3,4,5,6 – 1. Sophia Williams; 2. Natalie Owen. Coginio Bl.3,4,5,6 – 1. Sophia Williams; 2. Peri Ann Murphy a Cadi Haf Murphy; 3. Natalie a Manon Jones.

Blwyddyn 5 a 6

Canu 'Hen, Hen Stori'. 1. Daniella; 2. Caryl a Sophia. Celf Bl.5 – 1. Rebecca Jones; 2. Gerallt Ll Roberts; 3. Steven Jones. Celf Bl.6 – 1. David Cashman; 2. Tania Thomas; 3. Kamie Tait.

Dan 12

Unawd Offerynol. 1. Rhian; 2. Gwenllian. Emyn. 1. Sophia. Parti Canu. 1. Parti Elfed.

Tlws Teulu Ceris (Adran Adrodd): Heddwen; *Tlws Teulu Crud yr Awel (Adran Llenyddol):* Naiomi; *Tlws er cof am J. Peris Roberts (Adran Gerdd):* Rhian; *Tlws er cof am W.J. Eames (Adran Arlunio):* David Cashman.

Cyfarfod y nos

Unawd dan 16: 1. Elin Mai. Unawd Offerynol dan 16: 1.

parhad ar dudalen VI

O dudalen V

Delyth; 2. Emma. Côr neu Barti Ieuenctid: 1. Parti Mewn Pryd. Unawd Cerdd Dant dan 21: 1. Elfed; 2. Carys. Cân Werin dan 25: 1. Lyndsey a Michelle (Cydradd) Adrodd 16-21: 1. Michelle. Unawd Piano dan 21: 1. Emma. Unawd Offerynol Agored: 1. Jeni Lyn; 2. Delyth; 3. Urien Siôn. Unawd o Sioe Gerdd Agored: 1. Lyndsey; 2. Treflyn a Michelle yn gydradd; 3. Elin Mai. Unawd 16-21: 1. Michelle; 2. Elfed; 3. Carys. Deuawd Agored: 1. Wmffra a Mabon; 2. Jeni a Lyndsey ac Elfed a Michelle yn gydradd. Canu Emyn dros 50: 1. Arthur Wyn; 2. Katie Wyn; 3. Mabon. Cân Werin Agored: 1. Lyndsey; 2. Michelle; 3. Mabon. Prif Adroddiad Agored: 1. Lyndsey; 2. Meira Turner; 3. Michelle. Her Unawd Agored: 1. Trefor Wyn; 2. Lyndsey; 3. Treflyn.

Cwpan Bryn Du: Sharon James. *Tlws Adran Gerdd dan 21:* Elfed Morris.

Collage: 1. Ammy Wood; 2. Gwenllian Owen; 3. Iona Jones.

Gwau – Babanod: 1. Ffion Wyn Jones; 2. Mandy Williams; 3. David Williams. Bl.3,4,5,6: 1. Sophia Williams; 2. Laura Lewis; 3. Maria Morris a Daniella Williams.

Gwnïo – Bl.0,1,2: 1. Owain Glyn; 2. Lliwen Jones; 3. Ffion Wyn Jones. Bl.3,4,5,6: 1. Sophia Williams; 2. Manon Jones; 3. Jessica Whitehead.

Llên

Rhyddiaith dan 16: 1. Mari Glynne Davies. *Medal Lenyddol dan 21*: Debbie Ann Williams. *Stori Fer:* J. Graham Williams. *Cadair:* Cynan Jones.

Gwaith Llaw

Brodwaith Agored: Sharon James. Tegan Meddal Agored – 1. Menna Wyn Jones; 2. Valmai Willliams.

Coginio

Teisen Enlli: 1. Valmai Williams; 2. Gwen Fron. Swis Rol: 1. Valmai Williams; 2. Gwen Fron. Torth o Fara (Dynion yn unig): 1. Hefin G. Jones.

Ffotograffiaeth

Ysgol Gwaun Gynfi – 1. Sophia Williams; 2. Manon Jones; 3. Liam Joseph. Giât – 1. John Griffith; 2. Gwen Griffith; 3. Valmai Williams ac Alwyn Williams.

Enillydd Tlws y Llenor Uwchradd
Ffion Meleri Owen

Y Gwrthodedig

Cododd pawb i gyd-ganu'r emyn olaf ar y daflen. Chwaraeodd yr organ mor araf a marwaidd ag erioed ond doedd neb i'w glywed yn canu, dim ond ambell i gri sigledig o enau ambell un neu ddau bob yn hyn a hyn, roedd sylw pawb wedi ei hoelio ar y bocs a orweddai ym mlaen y capel. Arch bren sgleiniog gyda'i henw a'i dyddiadau wedi eu cerfio'n gywrain arni

"Catrin Elin Williams
Hydref 5ed, 1985 – Awst 23ain, 2000

Ym mlaen y capel eisteddai ei theulu. Roedd ei mam yn gafael yn dyn yn ei hances les wen ac yn cwffio yn erbyn y dagrau a fynnai fod yn drech na hi. Syllai ei thad ar yr arch a golwg bell, fyfyriol yn ei lygaid, ni feddyliai byth y byddai'n fyw i weld angladd ei ferch ieuengaf. Wrth ei ochr eisteddai Sara, ei ferch hynaf, roedd hi'n beichio crio. Yna ychydig resi tu ôl iddynt eisteddai pedwar o athrawon Catrin. Llifai dagrau o euogrwydd i lawr gruddiau pob un ohonynt. Euogrwydd am nad oedden nhw wedi sylwi ar broblemau Catrin.

* * *

Dechreuodd ei phroblemau pan aeth hi i flwyddyn pedwar yn yr ysgol Uwchradd a dechrau ar ei chyrsiau TGAU. Roedd hi'n gwneud Daearyddiaeth, Hanes a Ffrangeg, pynciau nad oedd hi erioed wedi eu mwynhau. O'i gwirfodd byddai wedi dewis Celf, Dylunio a Thechnoleg ac Arlwyo ond mynnai ei mam fel arall. Dywedai wrthi pan oedd hi'n dewis ei phynciau na allai adael i ferch iddi hi ddewis pynciau heb fymryn o sylwedd academaidd ar eu cyfyl. Pynciau oedd y rhain yr oedd gan Catrin dalent naturiol ynddynt ac yn bwysicach fyth rhain oedd y pynciau yr oedd hi'n eu mwynhau. Gwyddai Catrin mai eisiau'r gorau iddi hi roedd ei mam yn y bôn ac, yn fwy na dim, eisiau iddi wneud cystal â'i chwaer a chael A* ym mhob pwnc. Y gwir amdani oedd nad oedd gan Catrin obaith caneri o gyflawni'r fath gamp ac roedd hi'n hollol ymwybodol o hynny.

Llusgodd Catrin ei hun drwy'r tymor cyntaf ym mlwyddyn pedwar ac, er mawr syndod iddi hi ei hun, doedd hi ddim ar ôl gyda'r gwaith nac yn ei weld yn amhosib o anodd. Un diwrnod yn nechrau Rhagfyr cafodd ei hadroddiad gyda'i graddau am y tymor arno. Cafodd radd C ym mhopeth heblaw am un D a theimlai'n falch ei bod wedi cael graddau cystal. Aeth a'r adroddiad adref gan ddisgwyl canmoliaeth gan ei mam a'i thad ond, nid felly y bu hi. Doedd ei thad ddim adref, roedd o'n gweithio i ffwrdd tan y Nadolig. Darllenodd ei mam yr adroddiad a'i hymateb greddfol cyntaf oedd:

"Dim ond hyn gest ti cariad."

Suddodd calon Catrin, am unwaith roedd hi wirioneddol yn meddwl ei bod hi wedi gwneud rhywbeth i blesio'i mam ond yn amlwg roedd hi wedi camgymryd. Yna, ar ôl ychydig eiliadau o syllu arni ategodd ei mam y frawddeg hir ddisgwyliedig hon:

"Chafodd Sera erioedd ddim yn is nag A tra y buodd hi yn yr ysgol." Teimlai Catrin ei hun yn sgrechian yn fewnol. Roedd clywed y frawddeg yna'n brifo mwy na dim arall. Pam fod yn rhaid i bethau fod mor anheg iddi hi. Byddai unrhyw riant call wedi ei chanmol a'i llongyfarch, ond o na, roedd yn rhaid i'w mam hi fod yn wahanol! Ceisiodd beidio gwylltio ac esbonio i'w mam:

"Ond Mam, dim Sara ydw i. Tydw i, a fydda i byth yn gwneud cystal â Sara yn yr ysgol. Catrin ydw i, dwi'n berson cwbwl wahanol. Plîs peidiwch a 'nghymharu i efo Sara," ymbiliodd arni.

"Tydw i ddim yn dy gymharu di efo Sara, dim ond isio i chdi gael y graddau gorau posib ydw i," atebodd ei mam. Gwylltiodd Catrin a gweiddi ar ei mam wrth adael yr ystafell:

"Ond fedra i ddim cael y 'graddau gorau posib' achos tydw i ddim digon *brainy, ok.*" Stormiodd Catrin ei ffordd i fyny i'w llofft a gwaeddodd ei mam ar ei hôl:

"*Brainy!* Pa fath o Gymraeg ydi hwna? Chlywais i erioed mo dy chwaer yn defnyddio'r fath fratiaith."

* * *

Gwaethygu wnaeth y berthynas rhwng Catrin a'i mam wrth i amser fynd yn ei flaen a phylu wnaeth unrhyw hapusrwydd oedd Catrin yn meddu arno. Erbyn yr haf roedd ei mam wedi talu am wersi preifat iddi mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth, Daearyddiaeth a Ffrangeg. Golygai hyn nad oedd gan Catrin brin ddim amser i ymlacio na chymdeithasu ddim mwy, ac aeth y nosweithiau a'r Sadyrnau a arferai eu treulio yn gnghwmni ei ffrindiau yn brinach ac yn brinach. Fesul dipyn dechreuodd ei ffrindiau gefnu arni a'i thorri allan o'r criw am nad oedd hi byth yn gwneud dim â nhw tu allan i'r ysgol. Teimlai fel cwsberen yn yr ysgol hefyd pan fyddai'r disgyblion eraill yn llawn brwdfrydedd wrth gynllunio'r pen-wythnos nesaf a sôn am y pen-wythnos cynt, nid oedd ganddi hi byth ddim i'w ategu i'r cynlluniau heblaw am:

"Na, sori fedra i ddim."

Un noson pan oedd Catrin yn dechrau ar ei phumed blwyddyn yn yr ysgol clywodd ei rhieni yn ei thrafod pan oedd hi ar ei ffordd i'w gwely:

"O, be ddaw ohoni hi, Geraint bach. Tydi hi'n dal ddim yn gwneud dim gwell na'r llynedd yn yr ysgol 'na."

"Dyw, gad iddi, mae'r hogan yn gwneud yn champion," atebodd ei gŵr yn hamddenol.

"O, paid a siarad trwy dy het ddyn, fydd ganddi hi ddim gobaith cael ei derbyn i goleg os na wellith petha."

"A be ydi'r ots os nad eith hi i goleg?"

"Wel, mi alla hi orffen i ffwrdd yn gwneud rhyw hen swydd ceiniog a dima yn rwla."

"Gwranda Lisa, dim ond am na wnest ti weithio'n galed yn yr ysgol, tydi hynny ddim yn meddwl nad ydi Catrin yn trio, dallt?" Ar hynny clywodd Catrin un ohonynt yn symud a brysiodd i fyny'r grisiau i'w llofft. Teimlai'n ddiolchgar i'w thad am sefyll i fyny trosti, o leia doedd pawb ddim yn ei herbyn. O, roedd hi'n dyheu am gael ei thad adref gyda nhw drwy'r adeg yn lle ei fod o'n gweithio i ffwrdd yng nghanol Lloegr yn rhywle byth a beunydd.

* * *

Yn ystod hanner tymor mis Hydref treuliodd Catrin oriau yn gwneud hunan-bortread ar gyfer y gystadleuaeth Arlunio yn yr eisteddfod ysgol. Ar y noson enillodd y Tlws i'r Arlunydd Gorau yn yr ysgol. Cafodd lawer o sylw gan yr athrawon a phawb yn edmygu ei llun, wel pawb ond un. O do, fe wnaeth ei mam ei llongyfarch ond ni theimlai Catrin ei bod hi wedi rhoi hanner cymaint o sylw iddi ac a gafodd Sara pan enillodd hi'r Gadair yn yr eisteddfod ysgol. Wedi'r cwbwl, yr un oedd y gamp yn y ddau faes. Enillydd y Gadair ydi'r un sy'n ysgrifennu orau yn yr ysgol ac enillydd y Darian Gelf ydi'r un sy'n tynnu llun orau felly pam gythral fod ei mam hi'n gwneud cymaint o wahaniaeth rhyngddynt? Ond nid felly yr oedd ei mam hi'n gweld pethau. Poenai Lisa am yr amser adolygu yr oedd Catrin wedi ei aberthu er mwyn gwneud y llun yna.

Gweithiodd Catrin ei gorau glas yn ystod cyfnod ei harholiadau ond, roedd yn ofid calon ganddi na fyddai hi byth yn cyrraedd y nod yr oedd ei mam wedi ei osod ar ei chyfer ta pa mor galed yr ymdrechai. Gwnaeth ei hun yn sâl yn

adolygu ond teimlai fod popeth yn mynd i mewn trwy un glust ac allan trwy'r llall.

Ar ôl yr arholiadau gwellodd perthynas Catrin a'i mam rhywfaint. Roedd ei mam yn gwybod ei bod wedi gweithio'i gorau glas ac felly'n hollol argyhoeddedig ei bod hi'n mynd i gael y graddau uchaf. Bu'n atgoffa Catrin o hyn fwy neu lai yn ddyddiol yn ystod gwyliau'r haf a gwnâi i Catrin deimlo'n salach bob dydd. Roedd ganddi hi gymaint o ofn, ofn siomi ei mam. Noson cyn y canlyniadau daeth ei mam adref o'i gwaith gyda photel o siampên yn ei llaw. Dywedodd wrth Catrin mai rhywbeth bach ar gyfer y dathlu fory oedd o.

Teimlodd Catrin fod popeth wedi mynd yn drech na hi a gwisgodd ei chot a stwffio potel fach o 'baracetamol' i mewn i'w phoced. Dywedodd wrth ei mam ei bod hi'n mynd am dro bach i'r mynydd er mwyn clirio'i phen.

Cerddodd i fyny uwchben y pentref a disgynnodd yn ôl i ganol y blodau gleision. Caeodd ei llygaid a chysgodd. Am byth.

Eisteddfod Bethel

Enillydd Tlws Llenor Cynradd
Ceri Griffith

Y Dyfodol Pell

Dychmygwch eich bod yn y flwyddyn 3000, buasai gwisgoedd wedi newid, efallai buasai cludiant wedi newid, tai, cerddoriaeth, adloniant? Os buasai'r pethau yma i gyd wedi newid, mi fuasai'r byd wedi newid.

Yn Abertawe adeg y Nadolig roedd dwy chwaer ac un brawd. Roedd yr hynaf, Beti Barus, yn 11 oed. Roedd hi bob tro'n cael popeth iddi hi ei hun tan gafodd ei brawd bach ei eni. Wedyn, dechreuodd hi gymeryd popeth yr oedd hi'n gallu ei gael, bwyd, teganau, anrhegion, sylw ac y mwyaf o gariad gan ei mam a'i thad.

Roedd ei brawd bach, Henri Hunanol, a oedd yn 7 oed, yn cael popeth yr oedd eisiau. O'r dillad gorau i'r teganau, rhywbeth o dan yr haul, roedd yn ei gael. A dweud y gwir roedd yn cael ei ddifetha. Y mwy y cafodd Henri y mwyaf hunanol yr oedd yn mynd.

Roedd chwaer Beti a Henri, Carys Cacwn, a oedd yn 9 oed, o hyd yn flin. Roedd hi'n malu teganau, lluchio bwyd ac yn torri dillad. Y rheswm yr oedd hi'n flin oedd oherwydd ei brawd a'i chwaer, roedd Beti'n cymeryd popeth, a Henri'n cael popeth. Doedd Beti Barus, Henri Hunanol na Carys Cacwn yn gallu ymddwyn yn gall.

Roedd y tri wedi syrffedu ers dechrau y gwyliau, yr unig ddiwrnod cyffrous oeddynt wedi ei gael oedd diwrnod y Nadolig. Doedd dim wedi digwydd ar 'Ddydd Sant Steffan'. Roedd pawb o'u ffrindiau wedi mynd i wledydd pell, roedd un o ffrindiau Carys wedi mynd yr holl ffordd i ben draw'r byd.

Dim syndod, rhywun mor annifyr a chas fel Carys Cacwn yn ffrind, mi fuaswn innau ym mhen draw'r byd hefyd ar yr adeg hon.

Pendroni a bwyta oedd yr unig beth a wnaeth y tri am y pnawn. Wrth gwrs, cafodd Henri Hunanol blât o fisgedi iddo fo ei hun, plât i rannu gafodd Carys Cacwn a Beti Barus, ond cafodd Beti Barus y mwyaf. Roedd Carys Cacwn yn gandryll.

Yn sicr, roedd rhaid i rywbeth gael ei wneud. Roedd Carys yn flin trwy'r adeg. Roedd Henri yn meddwl ei hun oherwydd roedd e'n cael popeth yr oedd o eisiau, ac roedd Beti mor farus ac yn cymeryd popeth yr oedd hi eisiau.

Felly cytunodd y tri (am unwaith) i ofyn os caiff y teulu fynd ar wyliau am ychydig o ddiwrnodau. "Dim ots i lle, boed hi'n wlad boeth neu oer." Roedd y tri yn ysu am gael mynd allan o'r tŷ.

Gofynnodd Carys Cacwn gyntaf i'w mam a'i thad, "Os gwelwch yn dda gawn ni fynd ar wyliau bach, am ychydig?" meddai hi mewn llais annwyl ac ysgafn. Ond gwaeddodd ei thad ar draws y tŷ a gwneud y tŷ grynu fel jeli. "Na, rwyt ti'n flin trwy'r adeg, dwyt ti ddim yn haeddu mynd ar wyliau, mae dy agwedd di'n ofnadwy!"

Y nesaf i fynd i ofyn oedd Henri Hunanol, cerddodd yn smart, "Be wyt ti eisiau rwan, Henri bach?" meddai ei fam yn garedig. "Wel, eisiau mynd ar wyliau bach ydw i," meddai yn swil. "Wrth gwrs, lle?" sibrydodd ei dad. "I America, Dad," meddai yn gyffrous.

Dydi o ddim yn deg bod eu mam a'u tad wedi dweud bod Henri'n cael mynd i America, a bod Carys wedi cael ffrae am fod yn flin a drwg, ond dim ei bai hi oedd bod ei brawd yn cael y sylw i gyd.

O'r diwedd roedd popeth yn barod i fynd i America. Roedd y petrol yn y tanc, y dillad wedi eu pacio, ac roedd pawb yn barod. Yr unig broblem rwan oedd lle roedd y map.

Chwiliodd pawb o'r drôr yn y gegin i'r bin sbwriel. Doedd dim golwg o'r map yn unlle. Cyhoeddodd eu tad mai fo oedd yn mynd i fod y map i gyrraedd America.

Ona, o, dyna gamgymeriad mawr. Y tro diwethaf i'w tad ddangos y ffordd, fe wnaethant lanio yn Iwerddon. Lle y buasant yn glanio y tro yma?

Roedd y siwrne yn hir, ac roedd y car awyr yn slofi bob hyn a hyn. Fe ddechreuodd yr awyr fynd yn ddu. "O, na," bloeddiodd Beti Barus, "rydyn ni yn y gofod."

Sut y gallai eu tad golli'r ffordd i America? Laniodd o ddim mewn gwlad arall, nac ar blaned arall, dim ond arnofio yn y gofod.

"O, na," bloeddiodd Carys Cacwn, "Rydyn ni'n teithio tuag at y lleuad!"

Gyda chlonc fawr, glaniodd y car ar y lleuad. Doedd neb yno. Dim siw na miw yn unman... ble roedd pawb?

Ond yna fe ddaeth clepian mawr o'r nenfwd. Beth oedd yno? Edrychodd y pump i fyny. "O! Waw. Tân gwyllt," bloeddiodd Henri yn gyffrous. "Ond pam?" gofynnodd Beti.

"I ddathlu y mileniwm 3000, wrth gwrs," meddai robot anferth. Roedd oglau tamp arno ac roedd yn edrych yn greadur digon rhyfedd.

"Robot, am hwyl," sgrechiodd Carys, "gawn ni chwarae hefo fo, mam?"

"Na chewch, rydych chi'n rhy ifanc i chwarae hefo robots. Efallai eith rhywbeth o'i le a bydd y robot yn ffrwydro," meddai hi'n flin a chas. "Iawn, Mam," meddai Beti yn sarrug.

"Wnaethoch chi ddweud bod chi'n dathlu y mileniwm?" meddai Henri Hunanol gyda gwen slei ar ei wyneb. Cyhoeddodd ei fod yn mynd i ddawnsio yng ngwesty'r lleuad.

Brysiodd y robot a'r pedwar ar ôl Henri. Roedd y gerddoriaeth yn gwneud i'r robot ddawnsio ar y ffordd.

Ar adeg argyfwng fel hwn, ac maent yn mynd i ddawnsio!

Cafodd y teulu sioc pan welsant yr olygfa brydferth o'r neuadd ddawnsio. Roedd canhwyllau hyfryd, bwyd danteithiol ac roedd gwisgoedd bendigedig gan y dawnswyr.

Ond cyn iddynt cael tamaid i fwyta neu gael dawns fach, crynodd y gwesty oherwydd sŵn seinio'r gloch o gar teulu Carys, Beti a Henri.

"O! dratia, mae peiriant arnofio y car wedi malu," meddai eu tad yn drist. "Beth wnawn ni rwan, a sut wnawn ni gyrraedd adref?" meddai mewn penbleth.

"Mae croeso i chi fynd yn ein car ni rwan," meddai y robot yn feddylgar. "Ond mae yna un broblem, dydi'r car ddim yn gadael tan yfory," meddai a'i ben yn isel. Cyhoeddodd eu tad mai yr unig ddewis oedd ganddynt oedd i drwsio'r car.

"O na," ochneidiodd pawb. "O, plîs peidiwch â gwneud i ni drwsio'r car, Dad," meddai Henri Hunanol yn obeithiol. "Na, dwi'n rhoi fy nhroed i lawr y tro yma, rhaid i'r teulu weithio hefo'i gilydd y tro hwn," meddai dad yn gadarn.

"Mae gen i syniad gwych," meddai Beti Barus, "ond bydd angen help pawb arnaf i," meddai yn gyfrwys.

"Mae'n rhaid i ni adeiladu lôn llyfn i ni wthio y car, bydd yr adenydd yn ddigon cryf, a rhoi tân ar waelod a chefn y car. A bydd y car yn llifo lawr i'r ddaear, gawn ni ddigon o bethau i drwsio'r car yn y wlad wnawn ni lanio ynddi," meddai hi'n gynhyrfus.

Cymerodd ddwy awr i orffen y lôn. A meddalodd dwylo y robot wrth iddo drio cynnau'r tân ar y car. Fe rewodd yr aliwminiwm wrth iddo daro'r llawr, oherwydd mae'r lleuad yn oer ofnadwy.

O'r diwedd roedd popeth yn barod i gychwyn ar y siwrne hir yn ôl i'r ddaear. Erbyn hyn roedd hi'n 7 o'r gloch yn y nos. Amcangyfrifodd tad Carys Cacwn, Henri Hunanol a Beti Barus mai tair awr y buasai hi'n gymeryd i gyrraedd adref.

Fe wthiodd pawb y car yn galed ar y lôn newydd sbon danlli. A dyna'r gwthiad diwethaf cyn i'r car hedfan yn llyfn tuag at y ddaear.

Siom fawr ddaeth dros Beti Barus pan oeddent yn hedfan yn ôl tua'r ddaear, oherwydd roedd hi wedi bod yn arwres am ddiwrnod.

Roedd Henri Hunanol yn genfigenus y tro hwn ond mewn cornel o'i feddwl roedd yn gwybod ei bod yn deg bod Beti wedi cael sylw am unwaith.

Doedd Carys Cacwn ddim yn rhy siŵr o'i theimladau, ond mae'n siŵr ei bod hi'n hapus nad pedd ei mam a'i thad ddim wedi gweiddi arni am dair awr mewn diwrnod.

Tybed a ddigwyddai y strach yma eto yn y dyfodol?

EISTEDDFOD LLANRUG

Nathalie Blanchard - enillydd tlws yr ifanc yn Eisteddfod Llanrug

Tlws yr Ifanc Eisteddfod Bentref Llanrug
Natalie Elisha

Y Plentyn Dirgel

'Oes na rhywun yna?' bloeddiod Sion. 'Fel y tybiais, neb yma!'

'Dwyt ti ddim yn iawn bob tro wsti! Mae pawb yn anghywir weithiau!' cynigiodd Sara.

'Hy! Dwi byth yn anghywir!' atebodd Sion.

'Shhh!' dywedodd Sara.

'Be rwan?' grwgnachodd yr efaill.

'Be di'r sŵn 'na?' gofynnodd y ferch ofnus.

'Pa sŵn? Chlywa i ddim!' atebodd Sion.

'Y sŵn stampio 'na. On i'n meddwl fod mam a dad wedi mynd allan am y noswaith.'

'A finna hefyd!'

'Dos i edrych Sion. Plîs!'

'Pam fi?' atebodd y bachgen a oedd hefyd erbyn hyn yn ofnus.

'Dos! Rwan!' gorchmynnodd ei chwaer.

'O.K.! Dwi'n mynd ar un amod.'

'Be?' gofynnodd y ferch.

'Dy fod ti'n fy nilyn!'

'Iawn,' cytunodd hi heb lawer o ddewis.

Aeth y ddau yn araf i fyny'r grisiau di-garped a rhynllyd. Ni chlywodd y ddau ddim ar ôl cyrraedd y landin ac fe aethant i'w gwlâu.

Fe wawriodd y bore wedyn. Roedd hi'n ddydd Sadwrn ac roedd y teulu yn edrych ymlaen i fynd lawr i'r dref agosaf (h.y. Sion, Sara a mam. Roedd eu tad yn ddoctor prysur iawn ac yn gorfod gweithio drwy'r dydd.)

Ar ôl iddynt gyrraedd y dref aethant i'r farchnad. Aeth y tri i wahanol rannau, aeth mam i'r man gyda'r stolion yn gwerthu pethau glanhau, Sion i'r stolion oedd yn gwerthu teganau yn rhatach ac aeth Sara at stol a oedd yn gwerthu *'dream catchers'*, gemwaith plu a chlustdlysau ac roedd un darn o offer digrif, gwahanol yno. Pêl risial ydoedd, neu *'crystal ball'* i'r Scowsar a oedd yn ei gwerthu.

'Y...y...y... How much?' gofynnodd Sara'n ofnus.

'For you, £2.50. You won't get a better bargain,' atebodd y dyn tew, crychlyd pen moel.

'I'll take it!' dywedodd Sara'n bendant.

'There you are love. Just rub it a few times and ask any question you'd like to be answered.'

'Thanks,' diolchodd Sara.

Roedd o'n gweithio felly, meddyliodd Sara. Roedd hi 'mond am ei brynu fel addurn.

Ar ôl cyrraedd adref aeth hi'n syth i'w hystafell wely a gofyn:

'Beth wneith ddigwydd i mi yn y dyfodol agos?'

Goleuodd y bêl gron wrth iddi ei rhwbio. Fe ymddangosodd y gair 'dieithr' ac yna 'dirgel'.

'Wel, am beth od! Mae'n rhaid nad ydi o ddim yn gweithio. *Rip-off* ta be!'

Aeth rhieni'r ddau allan eto am yr ail noson yn olynol. Doedd dim ots gan yr efeilliaid 14 oed, roedd hyn yn gyfle da i ddangos eu bod hwy'n ddigon cyfrifol ac y gallai eu rhieni ddibynnu ac ymddiried ynddynt.

'Hwyl!' gwaeddodd y ddau ohonynt drwy'r drws. 'Mwynhewch.'

'Wel, be' ti 'sho 'neud?' gofynnodd Sion.

'tttssszzzz!!'

'Be oedd hwnna?' gofynnodd Sara.

'O na! Dim eto! Mae'r pŵer 'di mynd!' atebodd Sion.

Dywedodd Sara wrth Sion am y geiriau a welodd hi yn y bêl risial yn gynharach. Roedd o'n meddwl fod y peth yn *'rip-off'* hefyd a dweud y gwir. Fe rwbiodd Sara'r bêl eto ac fe ddiflannodd y geiriau ac fe ddaethant yn ôl mewn llythrennau brasach a chryfach. Clywsant y sŵn stompio a glywsant y noswaith cynt. 'Sion, 'na fo'r sŵn eto!' meddai Sara'n ofnus.

'Dwi'n gwybod,' atebodd Sion.

'Tyrd!' dywedodd Sara.

Aeth y ddau'n gyflym i fyny'r grisiau. Clywsant y sŵn eto.

'Mae o'n dwad o'r atig!' gwaeddodd y ddau.

Agorwyd y drws a oedd yn arwain i'r atig gan y ddau. Dringodd y ddau y grisiau cadarn a chaled. O'r diwedd roeddynt wedi cyrraedd y top. Tawelodd y sŵn ond roedd o'n dali fodoli. Rhedodd y ddau i gyfeiriad y sŵn.

'Mae 'na rywbeth y tu ôl i'r bocs,' sibrydodd Sara. Tynnodd Sion y bocs hen, scraplyd i ffwrdd. Yno roedd person! Trodd y person i'w hwynebu. Merch oedd hi! Tua'r un oed â'r efeilliaid! Agorwyd y drws ffrynt. Roedd eu rhieni wedi cyrraedd.

"M...aaa...mm!' gwaeddodd y ddau. Rhedodd y fam a'r tad yn syth i fyny'r ddau set o risiau.

'Mam, pwy ydi?' dechreuodd Sara.

'Delyth, mae'n rhaid i ni ddweud wrthynt,' ebychodd y tad.

'Dweud be?' gofynnodd Sion.

'Sioned yw hon. Eich chwaer!'

'Be...!...? atebodd y ddau mewn penbleth.

'Sioned yw eich efaill arall – rydych yn dripled!'

'Dechreuodd hyn i gyd pan roedd eich mam yn disgwyl. Cafodd eich mam ei rhuthro i mewn i'r ysbyty daith wythnos cyn eich geni. Roedd dau ohonoch yn iawn, ond roedd problem cael bwyd gan un ohonoch, Sioned. Dywedodd y doctoriaid wrthym y buasai Sioned yn marw, ond mi fuodd fyw gyda nam mawr i'r ymennydd.'

'Gan fy mod yn ddoctor roedd gennym gywilydd cael plentyn gyda nam i'r ymennydd ac fe roddwyd Sioned mewn cartref plant. Roedd yn rhaid i Sioned ddod adref o'r cartref pan roedd hi'n 14 oed. Roeddym yn gwybod hyn ar y dechrau ond yn meddwl y buasai hi wedi marw cyn hynny ond mi fuodd fyw,' eglurodd eu tad yn fanwl.

'Mae Sioned wedi bod yma ers pum mis felly,' dywedodd Sion.

'Do,' atebodd Mam.

'Heb i ni wybod! Yn yr atig unig yma! Druan ohoni.'

"Dach chi'm yn meindio?' gofynnodd eu tad.

'Meindio! Mae hi'n chwaer i ni – tripled!' ebychodd Sion.

Erbyn hyn mae'r teulu yn byw yn eu cartref newydd – heb atig, ac fe ddaeth Sion, Sara a Sioned yn ffrindiau a'r tripledi gorau yn y byd yn syth!

Ffion Owen (dde) enillydd y Gadair a Ceri Griffiths (chwith) enillydd y Tlws Cynradd yn Eisteddfod Bethel.

Sioned Alaw, enillydd cwpan yr Eisteddfod Penisarwaun, adran uwchradd.

O dudalen III

Megan E.; 3. Einion. Bl.5a6: 1. Lois; 2. Jamie; 3. Sioned/Daniel

Ffotograffiaeth

Oedran cynradd: 1. Rebecca E.; 2. Sion Llwyd. Dan 18: 1. Jenny.

Unrhyw lun ar gyfrifiadur

1. Llyr R./Llyr H.; 2. Gethin; 3. Gwilym. Bl.7,8a9: 1. Jenny.

Unrhyw boster ar gyfrifiadur

1. Sioned Alaw.

Tarian yr Eisteddfod

Prif Lenor Cynradd: Lois Eifion Jones

Cwpan yr Eisteddfod

Prif Lenor Uwchradd: Sioned Alaw Williams

Stori Fuddugol y Gadair
Ysgol Brynrefail

Deffro

gan Owain Sion Williams

'Gewch chi ddod i'w gweld hi rwan, Mr Pyrs.' Llusgais fy nhraed yn araf tuag at ei gwely.

'Nid yw hi mewn cyflwr da mae gen i ofn, distawrwydd yw'r peth gorau iddi ar y funud.'

Distawrwydd? Hy, be oedd y nyrs yn ddisgwyl i mi wneud? Cynnal parti? Ar adegau fel hyn mae'n anodd ar y diawl ffeindio'r geiriau cywir i'w dweud.

'Fe wnawn ni adael llonydd i chi rwan, Mr Pyrs'

'Mr Pyrs'? Iesgob, dim ond deunaw oed ydw i! Dw i'n rhy ifanc i gael fy ngalw'n 'Mr Pyrs'. Dim ond athrawon yn yr ysgol oedd yn fy ngalw'n 'Mr Pyrs', a hynny pan roeddynt wedi gwylltio! Go brin fod y nyrs bach yma wedi gwylltio gyda mi, er 'sw ni'm yn synnu. Wedi'r cyfan, fi sydd ar fai am hyn i gyd.

'Gwenno. Fi sy' ma del. Dafydd.' Mae'n rhaid i mi ddechrau'n rhywle yn does. 'Sut wyt ti, 'nghariad i?' Cwestiwn dwl a deud y gwir, dw i'm yn meddwl ei bod hi gystal â hynny, yn enwedig efo'r holl weiars sydd ym mhob twll a chornel o'i chorff. 'Gwranda, dw i'n sori am beth ddigwyddodd.' Ydi 'sori'n' cyfiawnhau yr hyn a wnes i? Go brin! 'Fy mai i oedd o i gyd, doedda chdi'm eisiau dod gyda mi'n y lle cyntaf! O Gwenno! Sori.' Yn union, doedd hi'm eisiau dod allan efo mi'r noson honno, y fi wnaeth ei hannog ymlaen. Pam na wnes i just cau fy ngheg...?

* * *

'Ty'd laen, Gwenno. Gawn ni *laugh*! Fydd pawb yno gei di weld.'

'Dw i'm isio mynd, Dafs. Ti'n gwybod sut dw i'n teimlo am y partïon felltith yna! A beth bynnag, dw i angen sgwennu traethawd i'r ddynas Welsh yna!'

Mae hi'n gallu bod yn reit flin ar adegau, Gwenno hynny yw, nid yr athrawes, er dwn i'm chwaith! Na, anaml iawn dw i'n llwyddo i'w chael i newid ei meddwl, ond dyfal donc ynde!

'Fydd Elin yna, ti'n ffrindiau da efo hi, ac, yn bwysicach na dim, fydda i yna. Be arall mae dynas angen?' Mae'n rhaid bod yn feddal weithiau yn does, fel'na mae ennill y rhan fwyaf o'r merchaid yma'r dyddiau hyn.

'Oia, ond...'

'Ond be? Duw, ty'd laen! Ti'n gwybod dy fod ti isio dod go-iawn.'

'O.K. ta...!'

* * *

...Pam? Pam wnes di roi mewn i mi Gwenno? Tasa' ni mond yn gwybod beth oedd o'n blaenau.

'Gwenno cariad? Pam wnes di gytuno i fynd efo mi? Pam? Roeddet yn ffŵl! Yn wirion!'

Dafydd, callia. Dim fan'ma 'di'r lle i wylltio. Cyfra i ddeg yn araf, cofia'r gwersi hynny yn yr ysgol, un... dau... tri... Hy! Mor hawdd â hynny! Piti na fyddai hyn mor hawdd ag un, dau, tri! Cymhlethdod llwyr sydd yma rwan, pob math o bethau yn gwibio yn fy mhen. Popeth yn fy nrysu. Popeth yn aneglur. Popeth, hynny yw, oni bai am Y Noson...

* * *

'...Fe biga i chdi i fyny am hanner awr wedi saith, felly mae gen ti dros awr i wneud dy hun yn barod.' I ni'r hogia, buasai awr yn ddigon o amser, ond i ferchaid, ac yn enwedig Gwenno, mae angen mwy!

'Awr! Wyt ti'n disgwyl i mi fod yn barod mewn awr?'

'Nadw, Gwenno, ond fe fydd rhaid!'

'Han'di saith, dim hwyrach. Cofia, dim sgert neu fydd yna ddim reid i chdi!' Dyna ffordd arall i'w hennill yn ôl. Sôn am y beic. Y Suzuki gwerthfawr sydd â fy nwylo i arno...!

* * *

...Y beic. Mae'r ddau ohonom wedi cael cymaint o amser da arno. Does dim ond hapusrwydd a llawenydd wedi bod yn gysylltiedig â fo, oni bai am y noson. Y noson wlyb a gwyntog honno, wythnos bell yn ôl...

* * *

'...Ty'd, Gwenno! Ti'n hwyr! Da ni fod yna am wyth! Mae hi'n bum munud i rwan!' Mae angen grâs efo merchaid weithiau! Dw i'n siŵr ei bod hi mor araf a fy nain cyn cychwyn i rywle! Roedd honno angen cacen blât cyn cychwyn, cic dan ei thîn mae Gwenno eisiau!

'Sori, Dafs...' Chlywais i ddim byd wedyn gan fod ei holl sŵn yn cael ei golli gan y rhefio o egsôst y beic... Ew, mae'n injan dda! Y beic, nid Gwenno!

Yn araf yr ymlwybrais allan o'r stad. Dwi'm yn meddwl y buasai rhieni Gwenno a'u cymdogion yn hapus wrth fy ngweld yn rhuthro allan o'r stad â'u Gwenno annwyl ar y cefn! Cyn cyrraedd y lôn fawr, pwyll oedd pia hi ond, wedi teimlo tarmac y lôn fawr yn cusanu fy olwynion, y fi oedd y brenin! Doedd yna'm byd yn fy rhwystro, nid oedd y gwynt na'r glaw yn fy stopio rhag mwynhau y daith ar gefn f'annwyl 'Berti'r Beic'.

Prin y gallwn weld y caeau wrth fy ochr, roedd popeth yn un gymysgfa o wyrdd wrth i mi gyflymu, gan adael pob car yn syllu ar y smotyn bychan du oedd yn sydyn ddiflannu o'r golwg. Doedd yna'm byd a allai fy rhwystro i erbyn hyn... wel, hynny a feddyliais i beth bynnag...

* * *

...Ew, roeddwn i'n wirion! Wedi hurtio'n lân o gael y rhyddid o gael mynd fel y mynnaf. Pwyllog oedd pob car arall, a hynny'r peth callaf gan feddwl sut dywydd oedd hi. Doedd y lôn ddim ffit i ddreifio arni. Does dim pwynt chwilio am esgusion i arbed fy hun. Does neb i'w feio ond y fi. Fe ŵyr pawb y peryg o yrru ar hyd lôn wlyb, a'r peryg hynny yn enwedig ar hyd lôn droellog.

* * *

...Pum munud i ffwrdd. Alla i neud o mewn tair! Troed i lawr. Y gwynt yn brathu. Y glaw yn fy nallu. Dim problem. Dim ond y gongol yma i fynd. Y gongol yma...

Golau yn fy nallu. Y brêcs yn sgrechian a minnau yn cau fy llygaid a gweddïo. Wedi dechrau troi'r gongol aeth popeth yn aneglur. Taflodd Berti'r ddau ohonom yn uchel i'r awyr gan hedfan. Ond nid hedfan yn urddasol a phendant ond yn hytrach fel cyw â'i haden wedi'i malu.

Gorweddais ar y llawr. Lle mae Gwenno? Nid oedd gen i'r gallu i godi a throi fy mhen i chwilio amdani. A oedd hyn yn hunanol? Wedi eiliadau – a deimlai fel oriau – yn gorwedd ar fy nghefn ar lawr, teimlais law yn cyffwrdd ynof. Gwenno? Chdi sy' 'na? Llwyddodd y dieithryn i gael gwared o'r helmed oddi ar fy mhen.

'Fy ffrind, lle mae Gwenno?'

'Alright, son, don't strain yourself. It'll be better if you would stay quiet and stay still.' Er y casineb arferol tuag at y Saeson sydd gennyf, nid oeddwn erioed wedi bod mor falch o gael clywed geiriau'r iaith fain. *'The ambulance is on its way.'*

Sŵn byddarol. Y seirenau yn fy myddaru a minnau yn methu arbed fy hun rhag eu sŵn. Golau llachar yn fy nallu. Cau fy llygaid...

* * *

'Oedd hyn yn ddewr, Gwenno? Cau fy llygaid gan obeithio y byddai popeth yn iawn wedi i mi eu hagor. Ai dyna be wnes di? Wyt ti'n dal i obeithio y bydd popeth yn iawn wedi i ti ddeffro? Gwenno... Wnei di ddeffro? Gwenno?'

Owain Sion Williams (bl.12) o dŷ Eryri.

Mae'n rhaid bod yn optimistaidd ar adegau fel hyn. O, Dafydd! Be wyt ti wedi'i wneud? Gobeithio dy fod yn falch o be wyt ti wedi'i wneud. Bydda'n falch dy fod ti ar ddi-hun tra bod Gwenno annwyl mewn trwmgwsg llwyr.

'Am be wyt ti'n breuddwydio, Gwenno? Breuddwydio am ein dyfodol ni? O, Gwenno! Mae'n wirioneddol ddrwg gen i am be wnes i. Hyd fy medd, wna i fyth anghofio'r hyn rwyf wedi'i wneud i ti. Gwenno... Dwi'n sori.'

'Mr Pyrs,' daeth y nyrs yn ei hôl. 'Dw i'n credu y byddai'n well i chi adael llonydd iddi. Er ei mwyn hi a chi eich hun hefyd. Dewch gyda mi, Mr Pyrs.'

'Gwenno. Fydda i'n ôl yn fuan. Cysga'n dda, 'mechan i.'

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll oddi wrth **Tim, Jackie a phawb yng**

NGORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

TICEDI LOTERI AR WERTH

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD

BANGOR
(01248)
354646

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Richard, Meirwen a'r staff

SPAR

Y SGWÂR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 672790

AR AGOR BOB DIWRNOD HEBLAW DYDD NADOLIG

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

Wavell Roberts
CIGYDD
LONDON HOUSE
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon
673574
PEN CIGYDD Y FRO
MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

GWASANAETH NEWYDD AR GYFER
PARTÏON : PRIODASAU : PEN-BLWYDD
BEDYDD : DAWNS : GWYLIAU . . .

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER POB ACHLYSUR

- ★ Cig o ffermydd lleol
- ★ Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
- ★ Partïon rhwng 40 a 400!
- ★ Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn: C'fon: 675754
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

FFENESTRI CELTIC **WINDOWS**

Sefydlwyd 1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris
(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

NHBC
HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR
LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Rhiannon a holl staff

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio

★ *Porches*
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

MERCHED Y WAWR. Fis Tachwedd croesawyd Eirian Roberts o gwmni Clinique i roi arddangosfa goluro ac i sôn am bwysigrwydd edrych ar ôl y croen. Adroddodd Eirian hanes cwmni Clinique ac fel y lledaenodd y cynnyrch yn fyd eang. Eglurodd bod yn rhaid iddi barhau i fynychu cyrsiau a chael ei hyfforddi yn rheolaidd a chredai bod edrych ar ôl y croen yn gywir yn gwneud i'r colur orwedd yn well. Yr aelod lwcus i gael gweddnewidiad oedd Jean Roberts ac aeth Eirian ati i ddangos sut i ddewis a gosod colur. Pwysleisiodd bod yn rhaid i'r colur edrych yn naturiol a'r lliwiau weddu i'r unigolyn. Rhoddodd awgrymiadau ar sut i greu golwg Nadoligaidd i'r colur a chytunodd pawb bod Jean yn edrych yn naturiol ac yn barod am y Nadolig. Diolchwyd gan Margaret Parry a rhoddwyd y te gan Bethanne, Heulwen ac Anwen.

PLAID CYMRU. Nos Fercher, Hydref 18 cafwyd noson ddiddorol yng Nghanolfan Penisarwaun yng nghwmni Mary Vaughan Jones. Taith i'r India a gawsom y tro yma, gyda sleidiau o fynyddoedd yr Himalayas a'r Taj Mahal, ynghyd â llawer o wybodaeth am wahanol grefyddau'r wlad. Gandhi, wrth gwrs, oedd cymeriad pwysicaf yr India yn y blynyddoedd diwethaf, a chawsom hanes ei ymgyrch a'i aberth dros hunanlywodraeth i'w wlad.

Disgwyl dod yn nes adref yr oeddym yng nghyfarfod mis Tachwedd, gan mai Dafydd Whiteside Thomas, yr awdurdod ar hanes lleol oedd y gŵr gwadd. Ond roedd dylanwad y glawogydd a gawsom yn ddiweddar wedi ei arwain ar drywydd stori 'Arch Noa' a difyr iawn oedd dilyn y gwahanol fersiynau o stori'r dilyw drwy nifer o wledydd y byd.

Y Ffair Nadolig yw'r digwyddiad nesaf ar y rhaglen, ac fe'i cynhelir nos Fercher, Rhagfyr 6 yn Ysgol Gynradd Llanrug. Yn ôl ei arfer bydd Siôn Corn yn dod i'r Ffair gydag anrhegion i'r plant; bydd stondinau o bob math a phaned o de a chroeso cynnes i bawb. Bydd yr Ysgrifennydd, Olwen Llywelyn, yn falch o unrhyw gyfraniadau a help ar gyfer y noson. (Ffôn 650200)

CYFARCHION Y NADOLIG. Dymunwn Nadolig Llawen iawn i bawb a Blwyddyn Newydd Dda a gobeithio y bydd pawb sy'n sâl yn gwella yn fuan.

LLONGYFARCHIADAU i Mark Pitts, Y Gelli, Ffordd yr Orsaf am basio Gradd 3 Theori Cerdd gydag anrhydedd. Da iawn chdi.

DIOLCHIADAU. Dymuna Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf ddiolch i bawb am yr holl gardiau a llythyrau a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth fawr o golli mab annwyl, Terry. Hefyd, fe ddymuna Nadolig Hapus i'w theulu a'i ffrindiau i gyd.

GWAELEDD. Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Sally Thomas, Min y Rhos, Ffordd y rORsaf ac i'w chwaer Mrs J.M. Jones. Mae'r ddwy yn cael gofal ardderchog gan Rachel. Cofion gorau atoch.

MARWOLAETH. Bu farw Terry Lloyd Jones yn ddiweddar yn 57 mlwydd oed, wedi dioddef gwaeledd hir. Bu ei deulu a'i ffrindiau yn gefn mawr iddo, yn enwedig bechgyn y Band, fel y gallai gario ymlaen gyda'i hoff weithgaredd cyn hired ag oedd bosib.

Mae'r golled yn enfawr i'w wraig Jean, ei blant Dylan a Dilwyn, ei fam Mrs Bet Jones, Lyndale, ei frodyr a'i chwaer a'u teuluoedd i gyd. Roedd y gynrychiolaeth fawr o ffrindiau a chydweithwyr yn yr angladd yn arwydd o'i boblogrwydd. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at y teulu i gyd.

DYMUNIADAU PEN-BLWYDD. Ar Ragfyr 14 fe ddathlodd Mr R.H. (Bob) Parry, o Gwm-y-glo gynt, ei ben-blwydd yn 80 oed. Mae yn byw yn awr yng Nghartref Penisarwaun ac roedd y trigolion wedi ei helpu i fwynhau y diwrnod. Llongyfarchiadau mawr i chwi – rydych yn edrych hanner eich oed! Hefyd, roedd Miss Elizabeth Hughes, Tan y Graig yn dathlu ei phen-blwydd hithau yn 92 oed ar Ragfyr 16. Pen-blwydd Hapus i chwi a gobeithio y byddwch yn well yn fuan.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Miss Elizabeth Hughes, Tan y Graig a Mr Llew Hughes, Hyfrydle, anfon eu dymuniadau gorau am y Nadolig at bawb yn y pentref a'u ffrindiau i gyd.

DRAENOG

A welodd rhywun arall yr arwydd yma ar gyrion Bro't Eco? Dydi hi'n biti bod 100 wedi marw yma cyn i'r Cyngor osod arwydd!! Fe fu'r Cyngor yn ddigon cyflym yn ei symud – dydi o ddim yno bellach – ond doeddent ddim yn ddigon sydyn i'r Draenog a dyma fo ar gof a chadw.

GAREJ HAFOD

PEUGEOT

LLANRUG Ffôn: 673372

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth John Trevor a'i deulu, a'r holl staff

PEUGEOT 206

SYFRDANOL! CYFFROUS!

GALWCH DRAW I'W WELD, A'N MODELAU RHAGOROL ERAILL

Mae James McAllister a thîm Parc Gwyliau

HOLIDAY HOME PARK
Brynteg

yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ffyniannus i bawb.

- Ers prynu'r Parc Gwyliau yn 1998 rydym wedi gwario tua £3.5 miliwn yn gwella pob dim ond yr olygfa.
- Crewyd dros 40 o swyddi llawn amser, y mwyafrif llethol ohonynt wedi eu llenwi gan bobl leol.
- Eleni, enillwyd Gwobr Calor ar gyfer y Parc Gwyliau lle bu'r Gwelliant Mwyaf yng Nghymru. Ein nod yw creu'r Parc Gwyliau Gorau ym Mhrydain.
- Cyfrannwyd at achosion da lleol, yn cynnwys ail-ddatblygiad Sefydliad Coffa Llanrug.

DIOLCH AM GEFNOGAETH TRIGOLION BRO'R ECO DRWY GYDOL 2000

CO-OP LLANRUG

diolch am eich cefnogaeth yn 2000
gan edrych 'mlaen i'ch gweld yn 2001

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD
DDA ODDI WRTH
BAWB O'R STAFF

bwyd a nwyddau o safon
holl anghenion y tŷ yn lleol

oriau agor (yn cynnwys amser cinio)

Llun, Mercher, Gwener	8.30 am — 5.30 pm
Mawrth a Iau	8.30 am — 7.00 pm
Sadwrn	8.30 am — 12.30 pm

Ffordd yr Orsaf, Llanrug (01286) 672937

CYFARCHION NADOLIG BUSNESAU LLANRUG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
LANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi
Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug
(01286) 674416 neu (07880) 847161

PRYD I BAWB
Bwffe at bob achlysur
Bwffe blasus o safon ar gyfer
CINIO BUSNES
CINIAWAU ACHLYSURON ARBENNIG
MEGIS BEDYDD NEU BEN-BLWYDD
PRIODAS
TE PRYNHAWN : TE ANGLADDAU
yn eich lleoliad chi neu yn ein tŷ fferm ni
CERID MACKINNON
(01286) 673190
neu (0374) 925502

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb yn y fro

LINDA MORRIS
GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
1 BRYN FEDWEN, FFORDD YR ORSAF LLANRUG. Ffôn: 678857
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS
(Glyn Roberts a'i Fab)
DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Simneau glân am bris rhesymol gan



G. LLOYD
4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG
Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir peiriant sugno i lanhau
Ffôn: Caernarfon 674781

Lansiad Swyddogol Rygarug

Cynllun Celfyddydau Perfformio Bro Eco'r Wyddfa

Prynhawn dydd Sadwrn, 2 Rhagfyr 2000 yn Stiwdio Capel Mawr Llanrug, cafwyd lansiad swyddogol hynod o lwyddiannus i gynllun celfyddydau perfformio RYGARUG, gydag ymron i 400 o bobl yn bresennol.

Yn ystod y prynhawn cynhaliwyd gweithdai amrywiol ym maes Cerdd, Drama, Dawns, Celf, Aml-Gyfrwng, Colur a Cherddoriaeth Roc, dan ofal tiwtoriaid profiadol a phroffesiynol fel Llion Williams, Dyfan Roberts, Nia Guilliman, Anwen Guile ac Angie Roberts. Erbyn hyn mae 415 o bobl ifanc wedi ymaelodi gydag ymron i 100 arall â'u henwau ar y rhestr ymaelodi.

Cafwyd areithiau ac ymateb positif tu hwnt gan y gŵr gwadd, Dafydd Wigley AC AS, ac Eurig Wyn ASE, yn annog pawb i gefnogi'r fenter hon hyd eithaf eu gallu, ac yn cynnig eu gwasanaeth a'u cefnogaeth hwythau. Danfonodd Bryn Terfel ei ddymuniadau gorau i'r fenter hefyd.

Roedd nifer o fusnesau a mudiadau lleol wedi eu cynrychioli, ynghyd â chynrychiolwyr o Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir Gwynedd, Cynghorau Cymuned yr ardal ac ysgolion y fro.

Enillwyd cystadleuaeth Logo RYGARUG gan Tegwen Delacy-Vallecarde o Ysgol Waunfawr, gyda Debbie Hughes o Ysgol Brynrefail yn ail.

Dywedodd Siân Wheway, Cadeirydd RYGARUG ei bod yn fraint cael bod ar bwyllgor menter mor gyffrous â hon a bod y gefnogaeth wedi bod yn anhygoel. Mae'r galw yn amlwg iawn, o weld faint o bobl ddaeth i'r Capel Mawr, ac o glywed sylwadau mor bositif gan bawb oedd yn bresennol. Diolchodd yn gynnes i bawb oedd wedi rhoi o'u hamser, eu gallu, offer a syniadau er mwyn sicrhau llwyddiant ysgubol y prynhawn, a hynny i gyd am ddim. Ond, diwedd y gân yw'r geiniog, a gofynnodd am barhad y gefnogaeth gan rieni, gan fudiadau a chan y cynghorwyr, er mwyn sianelu egni a thalentau pobl ifanc yr ardal i'r dyfodol a sicrhau llwyddiant y prosiect.

Eglurodd Siân Wheway mai Cynllun Peilot sydd ar droed i gychwyn er mwyn mesur union faint o ddiddordeb sydd gan y bobl ifanc yn yr amrywiol feysydd, ac yna'r cam nesaf fydd strwythuro amserlen o weithgareddau misol rhwng mis Ionawr a mis Medi. Y nod yw medru cychwyn ar y prosiect yn wythnosol o fis Medi 2001 ymlaen.

Bydd pawb sydd wedi ymaelodi yn derbyn gwybodaeth yn y flwyddyn newydd drwy'r ysgol, ynglŷn â beth fydd ar gael ac ar ba nosweithiau y cynhelir y sesiynau.

Bydd lluniau o'r lansiad swyddogol yn rhifyn y mis nesaf o'r *Eco*



DRAENOG

Ond dydi pobol yn dychmygu'r petha rhyfedda deudwch? Mae hyd yn oed y DRAENOG yn ei chael yn anodd i gredu rhai petha mae pobol yn ei ddeud wrtho. Ac mae rhai straeon yn gwbl anghredadwy! Fel y stori a glywais am ddau ddyn o Lanberis yn mynd i weld gêm bêl-droed yn Y Drenewydd ac yn methu'n glir â dod o hyd i'r giât i fynd i mewn i'r cae. Roedd y gêm wedi dechrau pan gyrhaeddodd y ddau, a'r sôn ydi bod y ddau wedi cerdded rownd y cae yn chwilio am y giât, ond bod waliau a gwrychoedd yn eu rhwystro rhag gweld y fynedfa. Ac am yr honiad eu bod nhw wedyn wedi mynd i'r cae dros giât... wel, mae hynny'n profi mai celwydd yw'r holl stori. Ond dydi?

Codi'r Safon

Efallai i rai ohonoch chi sylwi ar y graen sydd ar faes pêl-droed Ysgol Gynradd Llanrug yn ddiweddar. Mae wedi ei farcio yn wych, ac erbyn hyn mae'r goliau cadarn sefydlog wedi cymryd lle y rhai symudol simsan. Gyda gofynion diogelwch mae'r fath symudiad yn angenrheidiol.

Ymysg y rhai fydd yn elwa fydd timau iau -9 a dan -11 clwb Llanrug. Yn wir, hoffai swyddogion y clwb ddiolch i Robin Williams a'i staff am eu cefnogaeth barod. Heb anghofio mai yn y stadiwm yma y bydd Tlws yr Eco – y gystadleuaeth nad yw glaw yn cael unrhyw effaith arni.



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn; Llanberis 870545
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwyr Glo ac
★ Olew Gwres Canolog
I'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

PAT AC EDGAR

SWYDDFA'R POST

LLANRUG

SWYDDFA'R POST

Ffôn: (01286) 672422

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Elaine, a staff**

Elaine's

LLANRUG, Ffôn: 672023

ORIAU AGOR

Mawrth	9.00 - 7.00
Mercher	9.00 - 1.00
Iau	9.00 - 8.00
Gwener	9.00 - 8.00
Sadwrn	7.30 - 2.00

- Dydd Mawrth a Dydd Mercher i bensiynwyr
- Nos Fawrth i ddynion
- Coluro ar gyfer achlysuron arbennig
- Gwasanaeth arbennig ar gyfer priodasau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

PHILL A SHIRL A STAFF

TAFARN PENBONT LLANRUG

Lle braf a chwmni difyr dros wyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd

---

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

Ysgol Yrru Ofalus

★ Gwasanaeth 7 diwrnod
★ O ddrws i ddrws
★Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon, Llanrug
Ffôn: C'fon 675112

Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth

Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng

NGHARTREF

Y Foelas

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Dave, Gill a staff y

GLYNTWROG LLANRUG

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol

Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU oddi wrth

NEIL, TONY A STAFF

y Siop Sglodion

Pontrhythallt Llanrug

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth

ARFON A CARYS

SIOP CHIPS TEGFAN

Y Sgwâr

LLANRUG

676128

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

BRYN AFON ENGINEERING LTD

PEIRIANWYR MECANYDDOL

Arbenigwyr mewn pob math o waith metel

GWAITH BRYN AFON

LLANRUG, Ffôn: 675523

DYMUNA

GWYNFA A MARGARET

PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

DRAENOG

Peth garw yw symud tŷ. Mae 'na waith setlo i le newydd. Wedi i un teulu symud o Lanberis i Lanrug yn ddiweddar sylweddolwyd bod y ci yn ei chael yn anodd i setlo. Roedd y creadur bach yn cwynfan trwy'r dydd a'r nos. A dyna'i fistar yn penderfynu cadw cwmni iddo a'i gysuro. Aeth i orwedd ar y soffa wrth ymyl y ci a syrthio i gysgu'n braf. Yno buodd y ddau drwy'r nos. Does dim gwir yn y sôn eu bod nhw'n bwriadu codi cwt ci yn yr ardd a fydd yn ddigon mawr i'r mistar hefyd.



BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

SAFLE'R HEN YSGOL. Ddechrau mis Tachwedd cyflwynwyd y cais cynllunio i sylw'r Pwyllgor Cynllunio ac erbyn hyn caniatawyd y cais i godi'r Ganolfan Grefftau ar y safle. Bydd y gwaith adeiladu yn cael ei anelu i ddechrau at ddiwedd mis Ionawr.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD Dyma drefn gwasanaethau Ionawr 2001, bydd yr oedfaon i gyd am 10 o'r gloch y bore:
7: Mr John McBryde, Brynrefaii;
14: Parch D. Hughes, Caernarfon;
21: Parch John Glyn, Waunfawr;
28: Parch Alwyn Roberts,Tregarth

Ar Ben Arall i'r Lein

Wel, dyna ni, tymor a blwyddyn arall drosodd, a phethau yn dod at ei gilydd yn foddhaol iawn. Tymor digonol iawn ar y Seiont gyda cyfrif yr eog yn 72, hyn i fyny'n eithriadol ar 1999. Mae'n edrych yn debyg iawn mai gwaith da hogiau'r ddeorfa sy'n rhannol gyfrifol am hyn gan fod stocio'r eog bach wedi bod yn mynd ymlaen yn Nant Peris ers tair blynedd, yn ogystal â'r cynllun rhyddhau gleisiaid o'r ddeorfa yn Crawia. Daliwch ati, hogia!

Fel tipyn o ddiddordeb i'r rhai ohonoch sy'n cerdded y glannau dros y gaeaf, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cadw llygad ar y llwybr pysgod yn Nant Peris, i obeithio cadarnhau nad yw'r anferthwch yna ddim yn gweithio ac y cawn weld gwaith yr altro yn mynd ymlaen dros fisoedd yr haf. Rwy'n credu'n gryf y gwnaiff hyn roi cymorth enfawr i wella'r stoc o bysgod mudol ymhellach. Pam wyf mor sicr o hyn? Wel, am y rheswm syml fod y Gymdeithas wedi cael cyngor dau arbenigwr annibynol yn y maes yma. Dyna pam mae'r holl sylw yn cael ei roi i'r mater. Heb y cyngor yma buasem yn dal i geisio cael yr awdurdodau a'r cwmni trydan i wneud rhywbeth. Ond cawn weld ynte? Mae'r cwmnïau mawr yma yn eithriadol o effeithiol am osgoi eu cyfrifoldebau.

Erbyn y caiff hyn ei ddarllen bydd y pwyllgor blynyddol wedi ei gynnal. Mae cynnig i godi'r tâl y flwyddyn yma i £100 i oedolyn lleol; £15 i'r oedran 12-17; am ddim cyn 12 ml oed, a hanner pris i bensiynwyr a oedd yn aelodau cynt. Hefyd gellir gwneud cais i'r pwyllgor gwaith am ostyngiad trwy anabledd. Drwy ystyried y pysgota sydd ar gael, ac mae'n bosib pysgota bob dydd o 3 Mawrth i 30 Tachwedd, mae'r tâl yn eithriadol o rhesymol. Mae'n rhaid cael incwm sylweddol i sicrhau fod y datblygiadau yn cario ymlaen a'r hawliau yn aros mewn dwylo lleol. Tra ar y pwynt yma, hoffwn ddiolch i bawb sy'n rhoi cymorth fel bo'r datblygu'n symud ymlaen.

Pam, meddech chi, fod 'na ddim sgota o ddiwedd Tachwedd i ddechrau Mawrth. Mae'r ateb yn syml, heb hyn ni fuasai pawb yn cael dilyn ei ail hoff ddifyrrwch, sef mynd rownd yn siopa at y Nadolig!!

Fel y gwyddoch mae'r clwb, dros y blynyddoedd, wedi gwneud popeth sy'n bosib i wneud mynediad i'r dyfroedd yn hwylus i rai sydd ddim mor ffortunus â mwynhau iechyd llawn. Mae llawer un wedi mynegi diolch am ein hymdrechion, ond hefyd rhaid canmol Cyngor Gwynedd a Chynllun BT Mynediad i Gefn Gwlad am gymorth hael. Ond, yn anffodus nid yw pob corff cyhoeddus mor agored yn eu polisïau i roi cymorth.

Dyma enghraifft i chwi a gobeithio fod rhywun yn rhywle yn medru mynd â'r mater ymhellach. Dyma beth ddigwyddodd: Gwnaeth y clwb gais am gymorth i gorff sy'n gweinyddu arian mawr ar ran y Cynulliad at weithgareddau cefn gwlad. Mae'r rhain i fod â pholisi agored at yr anabl. Buasai'r cynllun yma wedi creu mynediad gyda modur i rai â diffyg cerdded, hefyd y gobaith fyddai medru rhoi y gwaith cynnal a chadw i Antur Waunfawr. Wel, aflwyddiannus fu'r cais a dyma pam medd y pwyllgor dewis: *"Nid oedd aelodau'r panel yn meddwl fod y cynllun yn ddigon arloesol nac yn arddangos egwyddorion datblygiad cynaladwy i raddau digonol."*

Rhyfedd o beth pan fo Mudiad Mynediad i'r Anabl Gwynedd, Antur Waunfawr, Cymdeithas Genweirwyr Eog a Brithyll Cymru ymysg y rhai oedd yn cefnogi'r cais. Ac i ddweud nad oedd y cais ddim yn arloesol, wel, chlywsais i y fath beth, gan y buasai yr unig gyfleuster o'r fath, nid yn unig yng Ngwynedd, ond yng Nghymru gyfan. Mae'n hen bryd i rai o'r paneli yma fod yn fwy atebol i'r rhai maent i fod i'w cynrychioli.

Ar lwybr arall rwan, sef y torgoch. Yma mae posibiliadau mawr i'r ardal os y buasai'n bosib taro'r nodyn iawn gyda chynllun i farchnata'r pygodyn hyfryd yma. Heb os, mae galw mawr amdano, i'w bysgota ond yn fwy byth i'w fwyta. Gan fod rheol gan y clwb i atal gwerthu'r unigryw 'sgodyn sydd wedi ei ddal yn ein dyfroedd, mae'n ei gwneud yn amhosib i westai a thai bwyta lleol fedru rhoi y cynnyrch yma ar y fwydlen. Mae'n wir fod y *charr* sydd wedi ei fagu yn Canada a Norwy i'w gael weithiau yn Tesco, a bod rhai o ardal y llynoedd yn cael eu gwerthu i westai yn yr ardal honno ond, wedi'r cwbl, nid *"Torgoch Padarn"* ydynt. Felly rydym yn gweld fod cyfle yma i geisio cael grawn rhai o'r torgoch yn y dyddiau nesaf i geisio eu deori yn Crawia. Os bydd yn bosib eu tyfu i rhyw 12 modfedd o fewn tua 15 mis, yna mi fydd yn bosibl wedyn dechrau arni o ddifri i fagu rhyw 20-30,000 neu fwy y flwyddyn fel ail gam.

Buasai hyn yn creu agoriad i blant yr ardal ddechrau gyrfa ym myd y pysgodfeydd. Bydd yr arbrawf yn costio rhyw £4,000 ond mae'r posibiliadau i ran o'r economi lleol yn arbennig. Hefyd pobl leol fydd â rheolaeth ar bethau – mantais fawr. Mae gobaith y cawn gymorth ar y cynllun yma. Bydd mwy i'w ddweud am hyn yn rhifyn Chwefror.

Gweithgareddau dechrau'r flwyddyn

Mawrth 16: Celt yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon.

Arwerthiant Celfi 'Sgota, Gwesty Dolbadarn, Llanberis, y dyddiad i'w gyhoeddi. Unrhyw gêr i'w werthu cysylltwch â Dr Robin Parry neu Bert Parry, Llanberis.

Un arall a dim i'w wneud hefo pysgota. Cefais afael ar gopi o *Cofio Deiniolen* ble mae'r awdur yn dweud ei fod yn cofio 22 o siopau neu fusnesau yn Neiniolen. Faint ydach chi'n gofio? Rwy'n cofio 32 gan gynnwys Clwt-y-bont yn niwedd y 1950'au. Dau Dorgoch i'r sawl fedar enwi fwyaf.

Rhaid rhoi taw arni am y tro. Felly Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda Lewyrchus i chwi oll.

H.P. Hughes

Plant Ysgolion y Fro yn cyfrannu at Ymgyrch Plentyn y Nadolig

Ysgol Brynrefail

Ysgol Llanrug

Ysgol Cwm-y-glo

Ysgol Dolbadarn

DODREFN PERKINS

Yn newydd yng Nghaernarfon

SÊL NADOLIG

yn dechrau am 11a.m.

Mercher, Rhagfyr 27

2 Canolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn: 01286 676040

Danfon am ddim yn achos pob ordor gwerth dros £200

Cawn wared o'ch hen wely neu *'suite'* am ddim

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Chwilota - *parhad o dudalen 6*

gyfres yn edrych ar ddisgynyddion rhai o'r Cymry a fudodd i'r America – a'r cyfraniad a wnaethant i fywyd y wlad honno. Yn naturiol, rhoddwyd cryn sylw ar un o'r rhaglenni i'r ardaloedd chwarelyddol. Cafwyd cyfweliad â gwraig a fudodd o Gymru i'r America yn y 1920'au. Mae hi bellach dros 90 oed, ond gallai ynganu "Brynrefail", sef ei phentref genedigol yn berffaith! Credaf mai Elisabeth Evans oedd ei henw, ond ni allaf fod yn berffaith sicr. Oes rhywrai o'r teulu yn parhau yn yr ardal hon, ac mewn cysylltiad â'r teulu yn America?

Ystyron Enwau.

Dywedwyd unwaith mai *"dim ond ffyliaid sy'n ceisio esbonio enwau lleoedd"*, ac na ddylid ceisio rhoi eglurhad ar unrhyw enw os nad yw'n berffaith amlwg beth yw'r ystyr – a hyd yn oed wedyn, mae'n anghywir! Y mis hwn daeth dau gais i law yn holi am ystyron enwau – y naill o fewn bro'r "Eco", a'r llall ar ei chyrion.

Mae tuedd i feddwl am 'ynys' fel darn o dir wedi ei amgylchynnu â dwr, ond mae ynysoedd o dir sych i'w cael hefyd, yng nghanol corsdir. Yr un gair yw 'inish' yn Iwerddon, ac fe'i defnyddir yno am ddôl sydd bron wedi ei hamgylchu gan ddolen afon. Yn Saesneg, defnyddir y gair 'holm' am y fath dir, ac fe'i rhoddwyd yn enw hefyd ar ynysoedd; "Priestholm" er enghraifft.

Mae nifer o'r rhain i'w cael yn Llanddeiniolen: Ynys Lwyd, Ynys Iago – tir a berthynai rywdro i rywun o'r enw hwnnw, neu un a oedd yn denant ar y tir – ac Ynys Llecharian/ Llecheuryn (Ynys 'ceuryn/ cheuryn ar lafar). Mae J. Lloyd-Jones yn nodi'r enw yn ei lyfr "Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon", ond nid yw'n cynnig eglurhad arno. Wnaf innau ddim cynnig 'chwaith!

Gair cyffredin iawn yw 'moel', ac fe'i defnyddir i ddisgrifio pen creadur heb fawr o dyfiant arno! Mae'r enw yn hen, ac fe'i defnyddir yn y cyfreithiau Cymreig i ddisgrifio'r tâl dyladwy i'r brenin mewn menyn. Rhaid oedd cyflwyno dysglaid o fenyn 'heb y foel' iddo. Y gair Lladin amdano yw 'summitas' – sef 'summit' yn Saesneg. 'Copa' yw ei ystyr felly – Moel yr Wyddfa yw'r Summit of Snowdon. Oherwydd fod copa'r ddysgl fenyn yn grwn, daeth yr enw i'w ddefnyddio am gopa unrhyw fynydd o'r un ffurf – felly dyna Foel Eilio, y Foel Goch a Moel Cynghorion.

Disgrifio'r siâp a wna felly, nid y diffyg tyfiant – ond mae'n haws gweld y siâp ar ben moel yn hytrach nac un llawn gwallt!

Ond mae'r cais yn holi am Foel Wnion uwchben Llanllechid ac Aber. Beth yw'r 'wnion'? Mae afon Wnion yn llifo heibio i Ddolgellau hefyd. Awgryma J. Lloyd-Jones mai Moel Gwnion yw'r enw, a hwnnw'n deillio o Moel Wynion, sef Moel Wyn iawn. Ond does dim esboniad ar pam fod y mynydd hwn yn 'wyn iawn' rheitiach nac unrhyw fynydd arall yn yr ardal.

Ysgol Tan y Coed.

Mae sylwadau ynglyn â'r llun o Ysgol Tan y Coed a ymddangosodd ddau rifyn yn ôl yn parhau i ennyn ymateb. Y mis hwn daeth llythyr oddi wrth un o'r disgyblion sydd yn y llun, sef Mrs Jennie A. Roberts (Jones gynt) o Frynrefail. Llun o'r plant yn ystod 1935-36 ydyw. Mae'n nodi fod unarddeg o'r plant yn y llun bellach wedi marw, ac Elsie Williams o Frynrefail wedi mudo i Canada er yn dal mewn cysylltiad â'i theulu a'i ffrindiau yn yr ardal.

Diolch i Mrs Roberts am sylwi fod rhai camgymeriadau yn y rhestr a gyhoeddwyd y mis diwethaf. Mae hefyd wedi llenwi'r bylchau oedd yn bodoli yn y rhestr honno. Felly, dyma'r enwau yn llawn ac yn gywir :

Rhes gefn (chwith i'r dde) : John Rowlands, Glan Gors; Griff Jones, Cae Corniog; Hugh Thomas, Cae'r Bleddyn; Gwilym Wyn Williams, Brynrefail; Richard Wyn Evans, Brynrefail; Robert John Jones, Baron Hill; Alun Glyn Gwynedd Williams, Brynrefail; Ieuan Williams, Brynrefail.

Ail res: Gwenhwyfar Foulkes, Astrid Evans, Nancy Owen, Stabla; Mary Roberts, Stabla; Phyllis Ellis, Coch Hir; Margaret Ellen Williams, Margaret Thomas, Waen; Mair Jones, Arthur Terrace; Cassie Thomas.

Trydydd rhes: Glenys Evans, Toriad; Megan Williams, Fron Hywel; Megan Closs Parry, Brynrefail; Mafalda Evans (efaill Astrid).

Rhes flaen: Morgan Evans, Eileen Noel Jones, Brynrefail; Elfed Davies, Annie Foulkes, Gwilym Owen, Waen; Mary Jones, Stabla.

Llwyn Cogau.

Daeth peth gwybodaeth am rai o drigolion Llwyn Cogau oddi wrth Eurwyn Evans, Llanrug, ond does neb hyd yma wedi gallu cadarnhau fod melin ar dir y tyddyn neu'n agos iddo. Mae'r chwilota'n parhau, ond bydd angen mwy o waith ymchwil, a gobeithio y daw goleuni cyn i rifyn nesaf yr "Eco" ymddangos ar ddiwedd Ionawr.

Cais am wybodaeth.

Fel roedd yr erthygl ar fin ei hanfon i'r Wasg daeth cais hwyr am wybodaeth ynglyn â thyddynod yn ardal Dinorwig. Ble mae, neu ble roedd, Rhwng y Ddwyffordd? Oes gan rywrai o'r darllenwyr gysylltiadau teuluol â thrigolion y tyddyn yn dyddio'n ôl i ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg? Neu gysylltiadau/gwybodaeth am deuluoedd Bron y Foel a Thy'n yr Ardd, hefyd yn ardal Dinorwig?

* * *

Gyda diolch i bawb a fu mewn cysylltiad ynglŷn â hanes y fro dros y flwyddyn ddiwethaf. Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd dda'n llawn ymchwil i chwi. Cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (01286 673515)

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DIOLCH. Dymuna Mrs Nancy Evans a'r teulu ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad a'u cymorth yn dilyn eu profedigaeth. Cyflwynwyd y rhoddion i Ymddiriedolaeth Ambiwlans Caernarfon.

DIOLCH. Dymuna Hilda ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y caridau, anrhegion a'r blodau hardd a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad (i fod ar 13 Hydref). Diolch arbennig i bawb yn yr ysgol.

CAPEL Y TABERNACL. Trefn yr oedfaon am fis Ionawr 2001 fydd fel a ganlyn:

7: Clwb y Plant am 2.00; Parch Dafydd Job am 4.00.

14: Clwb y Plant am 2.00; Mr J.O. Roberts am 5.30

21: Clwb y Plant am 2.00; Parch Gwynfor Williams am 4.00

28: Clwb y Plant am 2.00; Gwasanaeth i'w drefnu gan yr aelodau.

DIOLCH i bawb am ofalu am newyddion i'r Eco drwy'r flwyddyn. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd gwasanaeth o Lithoedd a Charolau yn Hafan Elan, Llanrug Nos Lun, 4 Rhagfyr. Darllenwyd y Llithoedd gan yr aelodau ac ymunodd rhai o drigolion Hafan Elan yn y Carolau. Yr organyddes oedd Mrs Mair Jones a chafwyd y Gweddïau a'r Fendith gan ein Rheithor, y Parch Philip Hughes. Mwynhawyd y gweddill y noson dros baned o de a mins peis wedi eu paratoi gan Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Hilda Orritt. Rhoddwyd y raffls gan y gwesteion a Mrs Ransom ac fe'u henillwyd gan Mrs E. Taylor, Miss Meira Williams, Mrs Dorothy Jones, Mrs K Davies, Mrs Parry a Miss M Jones. Estynnwyd y diolchiadau gan Mr P Taylor.

PRIODAS. Dydd Sadwrn, 25 Tachwedd fe briodwyd Lucy Thornton a Gareth Price yn Eglwys ein Crist, Gaerwen, Ynys Môn, ac yn dilyn yr oedd y dathliadau yn cael eu cynnal yng Ngwesty'r Victoria, Porthaethwy.

DIOLCH. Dymuna Gareth a Lucy ddiolch i'r teuluoedd, cymdogion a ffrindiau oll am eu dymuniadau da ac am eu hanrhegion lu yn ystod achlysur eu priodas.

PLANT YSGOL CWM-Y-GLO. Cafwyd enwau plant Ysgol Cwm-y-glo a welir yn y llun yn rhifyn Hydref.

Y rhes gefn (o'r chwith): John Owen Rowlands; Tomos John Parry; Emlyn Davies; Hugh Williams (Gromlech); Arfon Owen (Tan Bryn gynt. *Yr ail res:* Blodwen Engel; Laura Maxwell; Nora Davies; Mair Gwyn Davies; Audrey Pepper; Menna Roberts. *Y drydedd rhes:* Enid Parry; Phyllis Green; Beryl Green; Serah Davies; Thomas Elwyn Davies; Richard Thomas (Allt Goch). *Y rhes flaen:* Aled Evans; Hugh Ifor Williams; Robin Owen; Cledwyn Parry.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

DYMUNA Eilir Williams, 1 Pentre Helen ddiolch o galon am y rhoddion gan Dylan Hughes wedi iddo redeg ras Yr Wyddfa, ac i Ysgolion Sul Deiniolen. Hefyd i'w deulu, ffrindiau a'i diwtor cyntaf, Dennis Williams yn y cyngerdd rhwng bandiau Deiniolen a Chymdeithas Adeiladu Swydd Efrog (Yorkshire Building Society Band) ac yn enwedig ei frawd, Dylan, am drefnu'r cyngerdd mor broffesiynnol.

DYMUNA Iorwerth a Peri Evans, 5 Hafod Oleu, Deiniolen ddweud Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda wrth bawb ym mro'r Eco. Hefyd dymuna Peri ddiolch i bawb am fod mor garedig tra bu hi yn yr ysbyty fis Tachwedd yn cael llawdriniaeth dan ofal Ward Conwy. Hefyd diolch am ofal meddygon Llanberis a chlinic Deiniolen ar ôl dod adref.

DYMUNA Ian a Mari Ellis, 3 Hafod Oleu ddiolch i'w teulu, ffrindiau a'u cymdogion am y llu cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniwyd ganddynt ar enedigaeth eu merch fach, Awel Fflur. Diolch hefyd yn arbennig i Pam Williams, Bydwraig a staff Ward Llifon Ysbyty Gwynedd.

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb Cant mis Tachwedd oedd:
£10: Mrs Eurwen Williams, 32 Hafod Oleu; £5: Miss Jean Parc Jones, Cesail y Mynydd.
Mis Rhagfyr. £10: Mr Timothy Jones, Beran; £5: Mrs Jane Thorman Jones, 14 Tai Caradog.

DIOLCH. Dymuna Nicola Vaughan Parry ddiolch o waelod calon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion ledled Cymru am y cardiau, blodau, anrhegion, arian, galwadau ffôn a dymuniadau da tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch i bawb o Ddeiniolen a'r cyffiniau am bob dim ac i bob un o staff Ysbyty Gwynedd a fu yn ymwneud â'i gwellhad, ac yn arbennig i Mr John Pritchard am fod gyda'r teulu.

SEINDORF DEINIOLEN.
Enillwyr Clwb 200 y Seindorf am y 6 mis diwethaf oedd:
Gorffennaf: 1. £25: Beti Roberts, Dinorwig; 2. £15: John Griffith, Fron; 3. £10: Alun Lewis, Rhydfadog.
Awst. 1. £25: John B. Jones (Ceris); 2. £15: T.A. Parry, Bro Dawel; 3. £10: Ellis Wyn Williams, Ffordd Deiniol.
Medi. 1. £25: Barry Price, Hafod; 2. £15: Brenda Williams, Rhydfadog; 3. £10: Helen Jones, 9 Tai Caradog.
Hydref. 1. £25: Berwyn Jones, Plas-y-rhiw; 2. £15: Ellis Wyn Williams, Ffordd Deiniol; 3. £10: Dafydd Wyn Williams, 1 Pentre Helen.
Tachwedd. 1. £25: Llion Price, Clwt-y-bont; 2. £15: Tim Jones, Beran; 3. £10: Elfrys Jones, Minafon, Clwt-y-bont.
Rhagfyr. 1. £25: Emlyn Williams, 1 Tai'r Faenol; 2. £15: Idris Parry, 6 Tai'r Faenol; 3. £10: Elizabeth Foste, 98 Pentre Helen.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco oddi wrth
Annette, Gwyn a phawb yn
teithiau PERIS travel
Stryd Fawr Llanberis
Ffôn: 872777

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro *Eco'r Wyddfa* oddi wrth bawb ym musnes llefrith
EIRWYN WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO
Ffôn: (01286) 870563
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

G E N E D I G A E T H
Llongyfarchiadau i Ruth a Dafydd, Pen-y-bwlch ar enedigaeth eu merch fach, sef Miriam Catrin. Boed i'r ddau gael iechyd a bendith i fagu'r fechan.

CLWB ORWIG. Clwb yw hwn yn ôl a ddeallaf sydd wedi cael ei sefydlu yn yr ardal yn ddiweddar i rai dros 50 oed. Mae hyn yn cynnwys y Cymry a'r Saeson, ac y mae yn cael ei gynnal yn y Ganolfan allanol yn Blue Peris. Yn ddiweddar cafwyd sgwrs hynod o ddiddorol ar ddringo mynyddoedd gan un o'r aelodau, sef Mr Terry Taylor. Mae Mr Taylor wedi dringo mewn llawer man o'r byd ond yng ngogledd Cymru y mae wedi dringo'r mwyafrif o'r mynyddoedd. Cafwyd sleidiau diddorol ganddo ar y pwnc.

Mae y clwb yn paratoi rhestr o rai a fuasai yn gwirfoddoli i gludo pobl i'r ysbytai ac i'r feddygfa, ac hefyd y maent yn chwilio am fwy o wybodaeth ar sut i atal troseddwyr.

Rhoddwyd y te gan Miss Morfudd Jones ac Eileen Jones. Enillwyd y rafflau gan Mrs Megan Morris a Sue Michael. Yn llywyddu y cyfarfod oedd Mr. John Smith.

Ymwelodd y Clwb â Menter Fachwen yng Nghwm-y-glo, lle y cawsant weld y gweithdy a'r tŷ gwydr, ac ar ddiwedd y dydd cawsant de yn y tŷ bwyta. Ni dderbynir mwy o aelodau i'r Clwb. *(Derbyniwyd y wybodaeth uchod am Glwb Orwig yn Saesneg gan yr ysgrifennydd, Mr Ray Bower, Tan y Marian).*

SÊT WRTH Y GANOLFAN. Crybwyllwyd yn yr Eco dro yn ôl, hanes y difrod a wnaed i'r concrit lle yr oedd y sêt yn sefyll gan gontractwyr, Dŵr Cymru. Ar ôl llythyru â hwy a gwneud dipyn o alwadau ffôn, cafwyd cyfarfod gydag un o benaethiaid Dŵr Cymru ac arolygwr y contractwyr ar y safle fore Iau, 7 Rhagfyr. Bu i'r ddau gydweld nad felly y dylasai y sêt fod wedi cael ei gadael, ag y buasai'r gwaith yn cael ei wneud yn iawn yn reit fuan. Cafwyd ymddiheuriad am y difrod oedd wedi ei wneud.

Fore Gwener, 8 Rhagfyr cefais alwad ffôn yn dweud fod y gwaith wedi ei gwblhau yr un pnawn, sef prynhawn Iau. Diolch yn fawr i Dŵr Cymru.

DIWEDD BLWYDDYN. A hithau unwaith eto yn ddiwedd blwyddyn carwn ddiolch i bawb a fu o gymorth i mi yn ystod y flwyddyn yn hel y newyddion, ac yn plygu'r Eco.

Carwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

GWERSI PIANO OEDOLION/PLANT
Cysylltwch â
Mair Humphreys
ar (01286) 674339

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB ODDI WRTH
KMP LLANBERIS
DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN
Dim bysus dydd Nadolig na Gŵyl San Steffan, 25 a 26 Rhagfyr, na Dydd Calan, 1 Ionawr 2001
Gwasanaeth Sul (bysus yn y dydd yn unig) ar 24 a 31 Rhagfyr
Gwasanaeth arferol 23, 27, 28, 29, a 30 Rhagfyr

Atodiad LLANRUG

PARTI CLYCHAU'R GRUG. Mae'r aelodau yn cael seibiant haeddiannol tan ddiwedd mis Ionawr ar ôl cyfnod prysur iawn ers mis Medi. Dechreuwyd eu gweithgareddau gyda Chymanfa Ganu yn Eglwys Llanddeiniolen ym mis Medi ac yna cymerwyd rhan yng nghyngerdd Dathlu Canmlwyddiant Ysgol Brynrefail, cyn Cymanfa Ganu arall wedyn yng Nghapel Saron, Bethel. Ar sawl achlysur maent wedi diddanu'r ymwelwyr yng ngwesty'r Fictoria yn Llanberis.

Braf oedd cymryd rhan yng nghyfarfod lansio llyfr Arwel, Hogia'r Wyddfa ddiwedd Tachwedd, gan fod Carys, ei wraig, yn aelod o'r Parti. Ar ddechrau'r mis yma cafodd preswylwyr y Cartref Nyrsio ym Mhenisarwaun eu cwmni yn canu carolau. I gloi'r tymor bu'r merched yn cadw noson Nadoligaidd i aelodau Cymdeithas Lenyddol Rhosisa nos Iau diwethaf. Dymuna'r aelodau Nadolig Llawen i bawb.

Ffair Grefftau.

Unwaith eto eleni, cynhaliwyd Arddangosfa a Ffair Grefftau yn Neuadd Ysgol Brynrefail er budd Cronfa Adnewyddu'r Sefydliad Coffa. Braidd yn siomedig oedd yr ymateb eleni o'i gymharu â'r llynedd, ond croesawyd tri o stondinwyr o'r newydd – o Gaernarfon, Llanberis a Brynrefail – yn arddangos amrywiaeth o grefftau. Ac yr oedd nifer o ffyddloniaid y llynedd yno'n cefnogi fel arfer. Cafwyd amrywiaeth o grefftau, yn cynnwys turnio coed, brodwaith, crochenwaith, pwyth croes, doliau, modelau ac arlunwaith.

Gyda diolch i bawb a gefnogodd yr achlysur. Gobeithio y cynhelir arddangosfa a ffair lwyddiannus eto y flwyddyn nesaf.

Atodiad WAUNFAWR

DIOLCH. Dymuna Manon ac Alun Lewis ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur eu priodas ar y nawfed o Ragfyr 2000.

NEWYDDION DA. Wedi gwledd o ganu gan ddisgyblion yr ysgol yn eu cyngerdd Nadolig, cyhoeddodd Mrs Eryl Thomas y newyddion da fod Derfel Parry, Bron Llywelyn, adref o'r ysbyty. Croeso mawr iti Derfel, edrychwn ymlaen at well tywydd er mwyn iti gael troi allan i'n mysg.

RHODDION

£10: Maldwyn, Buddug, Eunice a'r teulu er cof am Beti Roberts, (Dakota, Llanberis gynt) Bron Menai, Carmel. Evie Wyn Jones, Bryntirion, Penisarwaun.

£5: Mrs Jeni Williams, Pennant, Nant Peris. Bet Jones, Lyndale, Llanrug. Mr a Mrs R. Dafydd Price, Tanygraig. Mrs Nancy Evans, Caernarfon. Nicola Vaughan Parry, 11 Porth y Gogledd, Deiniolen. Mr a Mrs Evans, 5 Hafod Oleu, Deiniolen.

£3: Mair Williams, Cefn Coed, Waunfawr. Ian a Mari, 3 Hafod Oleu, Deiniolen. Teulu Eili Williams, 1 Pentre Helen, Deiniolen.

MWY O LUNIAU O EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL

Meirion yn dangos ei ddarlun a enillodd y Tlws Celf iddo.

Parti Bechgyn Eilian

GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON
Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr
STRYD FAWR, LLANBERIS 870840
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Siop Nwyddau Tŷ a Gardd
FORMAG
41A STRYD FAWR
LLANBERIS Ffôn: 872501
NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
ODDI WRTH
IFOR A MARGARET

NADOLIG LLAWEN a
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth
WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo
Ffôn: (01286) 870674
GWASANAETH GARDDIO PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

Ar ôl eich Nadolig Llawen!
SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu
Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol
CREDWCH! HOLWCH!
ffonlwch (01286) 830609
– TENEUWCH –
SLIM CHWIM MEWN DIM!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul

Royal Victoria Hotel
wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis 870253

Crwynedd Hotel
& Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Roger a'r staff

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

CHWARAEON

Sadwrn Tawel Eto

Yn ei lyfr 'Cario'r Ddraig' mae gan Orig Williams ddalen hollol wag. Yn ei farn o mae'r dudalen yn adlewyrchu faint mae uwch-swyddogion Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn ddeall am bêl-droed.

Wel, ddarllenwyr hoff, bu bron iawn i chwi gael eich wynebu â thudalen chwaraeon wag y mis yma. O ble y câf stori? A fu'r fath sefyllfa o ran tywydd?

Rhyw ddeng mlynedd yn ôl cofiaf i dymor criced y gogledd golli chwe gêm yn olynol ar ddechrau tymor. Yr hyn oedd yn rhyfeddol yr adeg hynny oedd mai ar y nos Wener neu fore Sadwrn y deuai'r dilyw. Yn y sefyllfa bresennol, mae'r gemau yn cael eu gohirio yn fuan yn yr wythnos. Beth yw'r ateb?

Mae cefnogwyr 'pêl-droed' yr haf wedi cael modd i fyw. Sylw eraill yw fod gormod o gemau cwpan yn bodoli, ac fe fydd hyn yn creu cryn benbleth pan ddaw yn adeg ail-drefnu. Pa gwpanau fydd yn cael blaenoriaeth, o gofio fod bron pob cwpan erbyn hyn yn cael ei noddi.

Mae rhai timau ieuenctid yn poeni gan eu bod nhw yn defnyddio meysydd clybiau hŷn. A fydd rhaid gohirio gemau ieuenctid er mwyn gwarchod meysydd. Clywais un o reolwyr tîm blaenllaw o Ynys Môn yn poeni y bydd rhai clybiau yn elwa o'r trafferthion. Mae'n poeni y bydd y gymdeithas bêl-droed yn rhoi blaenoriaeth i gwblhau gemau yng Nghynghrair Genedl-aethol Cymru. Pan fydd eu gemau hwy drosodd, bydd llu o gemau ar ôl yn y cynghreiriau 'bwydol'. Bydd llu o chwaraewyr ar y 'farchnad' i'w harwyddo ar yr ail ffurflen.

Digon o faterion i gnoi cil arnynt – heb sôn am y gemau yn y llu cynghreiriau Sul, ac yna wrth gwrs, Cynghrair yr Haf. A beth os daw eira a rhew? Dipyn o gors yn gwynebu'r gweinyddwyr yn amlwg. Felly, chwi ddarllenwyr brwd byddwch yn barod am erthyglau am ddartiau, dominos a snwcer yn y dyfodol agos!

Tîm Dartiau Bedol 'B' cyn y gêm darbi yn erbyn Gors Bach.

Dydi Amser yn Hedfan?

Derbyniais yr erthygl hon gan Owain Morris o Lanberis, aelod o garfan dan 16 tîm pêl-droed Ysgol Brynrefail. Sôn y mae am ail gwrdd â hen 'elynion' ar y maes pêl-droed, a thybed a yw'r canlyniad yn argoeli am lwyddiant unwaith eto.

* * *

'Ydych chi'n cofio'r tîm o Ysgol Brynrefail a enillodd Gwpan Cymru i ddisgyblion Blwyddyn 7? Eleni, mae'r tîm wedi uno unwaith eto i ffurfio tîm -16 yr ysgol. Bydd rhai yn siŵ r o adael yr ysgol ar ddiwedd y flwyddyn, felly dyma dymor olaf y criw hefo'i gilydd – a bydd tipyn o ymdrech i ail greu'r llwyddiant cynharach.

Ein gwrthwynebwyr yn y rownd gyntaf oedd Ysgol Bryn Eilian o Fae Colwyn – tîm a gurwyd gan Frynrefail o 6-4 ym mlwyddyn 7. Gêm agos iawn a chorfforol a gafwyd eleni hefyd, ond eto Brynrefail a enillodd o 3-2. Daeth goliau yn yr hanner cyntaf i Frynrefail gan Keith Williams ac Aaron Watkinson. Er i Fryn Eilian frwydro yn ôl, roedd gôl David 'Gareth' Jones yn ddigon i'n rhoi ni yn yr het.

Roedd brwydr arall yn mynd ymlaen ar y cae, gyda dau aelod o garfan -15 Cymru yn wynebu ei gilydd. Serenodd y ddau, ond Orlik (Brynrefail) gafodd y gorau o Forgan (Bryn Eilian). Gobeithio am weld tywydd, i ni gael ymestyn y rhediad yn y cwpan, goebithio.'

* * *

Gyda llaw llongyfarchiadau i Marcus Orlik ar dymor rhyng-wladol llwyddiannus. Rhannu'r Tlws wnaeth Cymru, ond mater o funudau mewn ambell gêm fu'r gwahaniaeth rhwng ennill a rhannu'r bencampwriaeth. Fel y dywedodd yr unigryw Bill Shankley, "dim ond eiliad mae'n gymryd i sgorio gôl".

O Benisarwaun i Lannau Mersi

Dyna yw'r siwrnai sy'n wynebu chwaraewr ifanc, ac mae un sy' yno'n barod. Mae Craig Hogg ar lyfrau clwb Everton. Mae'r amddiffynnwr yn aelod rheolaidd o dîm ieuenctid y clwb, ac wedi bod yng ngharfan yr ail dîm unwaith neu ddwy. O weld record simsan amddiffyn y 'Toffis' yn ddiweddar mae'n siŵr bod cyfle i Craig dorri trwodd rhyw dro.

I Barc Prenton, cartref Tranmere Rovers mae Mathew Philips yn crwydro ar gyfer ymarfer ar nos Fawrth, a gemau ar y Sul – pan mae hi'n sych! Mae Mathew yn dod o linach gref bêl-droed, ac yn ddawnus iawn ar ochr chwith canol cae. Bu'n aelod o dimau iau Llanrug ers blynyddoedd ac mae wedi bod yn seren Tlws yr Eco sawl tro. Os bydd yn llwyddiannus i gyrraedd y safon gall ofyn i'w ewythr Wayne – un arall o gyn-chwaraewyr Llanrug – am gyngor. Cafodd Wayne newyddion da yn ddiweddar wedi cyfnod hir allan yn dilyn anafiadau i'w ddwy ffêr. Brwydrodd drwy amser hir o ansicrwydd ac mae bellach wedi chwarae ambell gêm yn ail dîm Wrecsam. Ei fwriad yw dychwelyd i garfan y tîm cyntaf yn y flwyddyn newydd. Yn sicr, mae tîm Brian Flynn wedi colli cadernid Wayne yng nghanol y cae, a'i allu i yrru'r tîm ymlaen. Dymuniadau gorau i'r tri ar eu gwahanol lefelau.

Cwis Nadolig

1. Beth yw enw priodasol yr athletwraig anhygoel Tanni Gray?
2. Ym mha gampau roedd 'Eric the Eeel' ac 'Eddie the Eagle' yn arbenigo?
3. Pa dîm Cynghrair Cymru sy'n chwarae ar faes Waen Dew?
4. Ym mha dair dinas yn yr Eidal y ceir gemau darbi Serie 'A'?
5. Ym mha ddinas yn Pacistan yr enillodd Lloegr gêm brawf yn ddiweddar?
6. Pwy oedd yr unig Gymro yng ngharfan y Barbariaid ar gyfer eu gêm ddiweddar yn erbyn De'r Affrig?
7. I pa glwb rygbi'r gynghrair mae Iestyn Harris yn chwarae?
8. Ym mha gystadleuaeth bêl-droed y curwyd Wrecsam gan Halifax yn ddiweddar?
9. Yn y drefn gywir, pwy oedd y tri prif chwaraewr yn rhestr FIFA am 'Chwaraewr y Byd'?
10. Beth oedd Stephen Tindall o Gaernarfon wedi ei golli yn ddiweddar – anghrediniol iddo!
11. Fe dynnwyd y Fedal Aur yn Sydney oddi wrth Andrea Rudacan. Ym mha gamp?
12. Pa ddau dîm sy'n cystadlu am Fowlen Bowring?
13. Pwy yw Pencampwr Snwcer Prydain?
14. Ym mha gamp mae tîm London Towers yn cystadlu?
15. Ar pa grysau yn Awstralia y gwelir enwau'r noddwyr NTL?
16. Pan enillodd Juan Ferrero ei gêm, pa gwpan a enillodd ei wlad yn ddiweddar?
17. I pa dîm pêl-droed mae Nicolas Anelka yn chwarae erbyn hyn?
18. Pwy y Gweinidog Chwaraeon y llywodraeth Lafur?
19. Pwy yw rheolwr tîm pêl-droed Y Barri?
20. Pwy oedd y tîm olaf i Gymru gyfarfod ar y Cae Ras mewn gêm rygbi?

Gwelir yr atebion ar dudalen 9

Alun Meirion ac Arwel Jones gyda charfan pêl-droed -9 Bethel yn eu dillad wedi eu noddi gan gwmni Ap Thomas.